# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 26 Tachwedd 2025 |
| **Amser:** | 10:00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,<br>Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod***
***15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes,*
*Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,*
*John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones,*
*Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**<br>Derbyn ymddiheuriadau gan Aelod neu Swyddog | |
| 2. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 3. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2025 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir. (Copi yma). | 4 - 10 |
| 4. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 11 - 14 |
| 5. | **Hybu Mynediad i Barc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad gan Archwilio Cymru**<br>Cyflwyno adroddiad gan Archwiliad Cymru (Copi yma) | 15 - 31 |
| 6. | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma) | 38 - 68 |
| 7. | **Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. (Copi yma) | 69 - 70 |
| 8. | **Iechyd a Diogelwch: Adroddiad Blynyddol 2024-25**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch. (Copi yma) | 71 - 83 |
| 9. | **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma) | 84 - 128 |
| 10. | **Ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru ar osod Amcanion Llesiant (Cyhoeddwyd Medi 2025)**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr (Copi yma) | 129 - 147 |
| 11. | **Targedau Monitro Perfformiad Llywodraeth Cymru Ebrill – Medi 2025**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr (Copi yma) | 148 - 166 |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | **Cyllid Grant Tair Blynedd Llywodraeth Cymru Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy 2022-25**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr (Copi yma) | 167 - 172 |
| 13. | **Datganiad Polisi Cyflog 2024/25 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Cyflog ar gyfer 2023/24**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol (Copi yma) | 173 - 178 |
| 14. | **Canolfannau Croeso – Adroddiad Blynyddol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy (Copi yma) | 179 - 190 |

**COFNODION**
**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 09 GORFFENNAF 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jonathan Cawley, G. Iwan Jones, Keira Sweenie, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Bethan Hughes, Gina Galluccio, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

**Hefyd yn Bresennol**
Luned Fôn Jones (Archwilio Mewnol), Bleddyn Rhys (Archwilio Mewnol)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cadeirydd**

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Elfed Powell Roberts.

*Etholwyd* **Elfed Powell Roberts** yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Is-gadeirydd**

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Annwen Hughes.

*Etholwyd* **Annwen Hughes** yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

*Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 19 Mawrth 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Taflen Weithredu**

*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd* bod yr Awdurdod yn parhau i aros am arweiniad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddwy eitem oedd ar y daflen a dylid eu cadw fel ag yr oeddynt.

*Argymhellwyd*: – cadw'r ddwy eitem ar y daflen fel ag yr oeddynt.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

*Adroddwyd*:

- ei bod yn ofynnol yn y sector gyhoeddus i'r Pennaeth Archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynghylch materion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- bod yr Archwiliwr Mewnol o'r farn fod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fframwaith cadarn o reolaeth fewnol; bod y camau a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod camau gweithredu i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn dda ar y cyfan;
- bod tri darn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol gwreiddiol 2023/24, sef:
    1. Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio
    2. Cefnogaeth i Aelodau
    3. Gwirfoddolwyr
- bod y lefelau sicrwydd canlynol wedi eu rhoi i'r darnau o waith yma, sef:
    1. Digonol
    2. Uchel
    3. Digonol.

*Nodwyd*:

- bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad o dan "Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio" bellach wedi'u cwblhau;
- anfodlonrwydd ar ddyfarnu lefel sicrwydd "Uchel" i "Gefnogaeth i Aelodau" gan mai dim ond 4 ymateb i'r holiadur a dderbyniwyd allan o 18;
- y gellid disgwyl y byddai mwy o sylw wedi ei roi i systemau cyfrifon a rheolaeth fewnol yn y cynllun am eleni, a hefyd nodi unrhyw newidiadau oedd wedi eu gwneud i adroddiadau cyfrifon yn ystod y flwyddyn, cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol;
- er bod y cynllun gwaith am 25/26 yn hawlio ei fod wedi ei seilio ar ddadansoddiad o risgiau, nad oedd sôn yn yr adroddiad am unrhyw ddefnydd o ymgynghorwyr, ac awgrymwyd y gellid plethu rhai o risgiau uchel Proffil Risg yr Awdurdod i'r adroddiad yma.

Nid aeth unrhyw argymhelliad gerbron y Pwyllgor er mwyn ail-edrych ar yr adroddiad a’r cynllun gwaith.

8. **Adroddiad Diweddaru Grantiau Ariannu Allanol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr.

*Adroddwyd*:

- am y prosiectau gwahanol a oedd yn cael eu hariannu gan grantiau allanol:
    - bod y prosiect, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy 2022-25, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi dod i ben, a bod adroddiad llawn ar y prosiect bellach wedi mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru; byddai adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad.

*Nodwyd*:

- bod y grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect Dŵr Gwyllt Cymru wedi ei roi ar gyfer yr Afon Mawddach yn benodol, ond bod posibilrwydd y gellid rhoi peth arian i afonydd eraill, gan gynnwys y Dysynni;
- bod newidiadau wedi eu gwneud i gais diwygiedig yr Awdurdod i’r Gronfa Rhwydwaith Natur wedi methiant y cais cyntaf yn 2024;
- nad oedd y Cynllun Coedwigaeth Glaw yn dod i ben tan 2027, a bod trafodaethau eisoes ar droed i gyflwyno cais newydd am brosiect gwerth £10M (gyda chymdeithas arall yn arwain y tro yma, o bosib);

*Cynigiwyd:*

- y dylid ychwanegu at un o flaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer cynigion cyfalaf a refeniw 2025-26, sef i gynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais i gael mynediad i gefn gwlad;

*Argymhellwyd* – bod Aelodau’n

1. nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf;
2. nodi prosiectau gweithredol cyfredol a newydd;
3. ystyried a chymeradwyo’r ddau bennawd thematig ychwanegol a chadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynigion yn y dyfodol, gan ychwanegu’r newid a gynigiwyd fel bod blaenoriaeth 12 yn darllen:
    a. *Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais gael mynediad i gefn gwlad ac elwa o’r dirwedd*;
4. nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau;
5. nodi cynnydd ar brosiectau byw.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

9. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2024-25 – Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- mai hwn oedd yr adroddiad terfynol ar y rhaglen waith gorfforaethol am y flwyddyn yma, ac fe fyddai ymatebion y cyfarfod yn cael eu hymgorffori i mewn i’r adroddiad blynyddol a fyddai’n dod o flaen yr Aelodau ym mis Medi.

*Argymhellwyd:* – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Gorfforaethol

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

10. **Proffil Risg yr Awdurdod**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod y risgiau a oedd yn wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu'n dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel;
- bod y Proffil yn nodi bod 19 risg wedi eu canfod: roedd tri ohonynt wedi eu nodi'n risgiau Uchel, 14 yn risgiau Canolig, a dau'n risgiau Isel;
- nad oedd unrhyw newid yn lefelau'r risgiau ers y diweddariad diwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mawrth 2025. Roedd camgymeriad yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad am ei fod yn dweud fod risg 17, (Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o adolygiad barnwrol) wedi cynyddu, ond nid oedd wedi newid mewn gwirionedd.

*Nodwyd*:

- bod y Gofrestr Risg yn cael ei adolygu cyn pob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a chyn pob cyfarfod o'r Awdurdod; bod y Tîm Arweinyddiaeth hefyd, os yw'n ystyried bod risg newydd wedi codi, yn ychwanegu'r risg honno i'r Gofrestr Risg i'w thrafod yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod, neu'r Pwyllgor Perfformiad, pa un bynnag fyddai nesaf;
- bod y golofn "Gweddill Risg" yn cofnodi'r lefel o risg yr hoffai'r Awdurdod ei gyrraedd yn hytrach na'r lefel y mae ar hyn o bryd;
- y dylid paratoi cynllun wrth gefn mesuradwy ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch petai'r cais ar gyfer arian o'r Gronfa Loteri Treftadaeth yn methu;
- bod y Prif Weithredwr wedi dechrau edrych ar y posibilrwydd o droi at Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (*Shared Prosperity Fund*, SPF) petai'r cais am arian tuag at ddatblygu Plas Tan y Bwlch gan y Gronfa Loteri Treftadaeth yn methu;
- y gallai Etholiad y Senedd fis Mai 2026 greu risgiau dilyniant (*continuity*) a dylid ychwanegu'r risgiau hynny at y proffil.

*Argymhellwyd:* – trafod cynnwys yr adroddiad

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

11. **Adroddiad Monitro Cwynion**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer.

*Adroddwyd:*

- bod yr Awdurdod wedi derbyn 16 o gŵynion ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25;
- y cadarnhawyd neu rhannol-gadarnhawyd 8 o'r cwynion a ymchwiliwyd iddynt.

*Nodwyd*:

- nad oedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi, ac mai'r nod oedd datrys unrhyw gŵyn neu broblem yn y fan a'r lle, os yn bosibl.

*Argymhellwyd:* – nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

12. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

*Adroddwyd*:

- mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth am wariant yr Awdurdod am y flwyddyn ariannol 2024/25 a'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd cyn dechrau'r flwyddyn;
- crynodeb o'r sefyllfa ariannol.

*Nodwyd*:

- y bu gorwariant o £26K ar gasglu sbwriel oherwydd prysurdeb eithriadol y meysydd parcio a thrin sbwriel yn anghyfrifol:
  - dylid ymchwilio i ffyrdd y mae parciau cenedlaethol eraill wedi delio gyda'r broblem, a
  - gwahoddwyd swyddogion i gyflwyno adroddiad i'r Aelodau i drafod ffyrdd o ymateb i'r broblem;
- bod yr Awdurdod wedi derbyn arian gan ffermydd gwynt mawr oherwydd eu heffaith dirweddol.

*Argymhellwyd:* – bod Aelodau'n

1. cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf;
2. cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd;
3. nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol;
4. cymeradwyo'r llithriadau (£170,160) a'r ymrwymiadau;
5. Cymeradwyo trosglwyddo tanwariant y flwyddyn ariannol 2024/25 i Gronfa Balansau Cyffredinol;
6. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

## 13. Adroddiad Blynyddol ar Wir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2024/25

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

*Adroddwyd:*

- ei bod hi'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod;
- i weithgarwch yr Awdurdod aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol;
- na fu unrhyw fenthyca;
- nad oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

*Nodwyd*:

- bod yr Awdurdod yn gosod cyfeiriad i'r adran gyllid ar fuddsoddi'n flynyddol, ac na fyddai'r adran yn buddsoddi mewn sefydliadau a oedd yn arddel gwerthoedd anghydnaws â gwerthoedd creiddiol yr Awdurdod.

*Argymhellwyd:* – nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

14. **Datganiad Polisi Cyflog 2025/26 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Cyflog ar gyfer 2024/25**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn absenoldeb y Pennaeth Adnoddau Dynol.

*Adroddwyd*:

- cyflogau'r Prif Swyddogion a chyflogau'r staff eraill.

*Nodwyd*:

- bod y ffigwr o roddwyd ar gyfer cyflogau cyfarwyddwyr am 2024/25 yn anghywir.

*Cynigiwyd*:

- bod yr ail argymhelliad gwreiddiol – sef "cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Bolisi Cyflogau ar gyfer 2023/24" – yn cael ei dynnu nôl, ac adroddiad pellach yn cynnwys y ffigyrau cywir yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod diweddarach.

*Argymhellwyd:* – Bod yr adroddiad yn cael ei dynnu nôl ac adroddiad pellach yn cynnwys y ffigyrau cywir yn cael ei gyflwyno i gyfarfod diweddarach.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

15. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn 2024: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu.

*Adroddwyd* bod:

- pethau yn yr adran wedi sefydlogi yn 2024 wedi iddi fod heb bennaeth ymgysylltu yn ystod 2023, a bod:
  - Swyddog Cynnwys Digidol â chyfrifoldeb am y wefan wedi ei phenodi;
  - sylwedd yn y cynnwys a gyhoeddid wedi cynyddu;
  - nifer dilynwyr digidol wedi codi dros 5%;
- cyfrif TikTok wedi ei ail-sefydlu a oedd wedi galluogi ymgysylltu gyda mwy o ddefnyddwyr;
- ymgynghoriadau ynghylch Erthygl 4 a'r Strategaeth Goed wedi bod yn llwyddiannus;
- ardaloedd llai adnabyddus o'r Parc wedi'u hyrwyddo;
- yr Awdurdod yn parhau i ddod yn gyntaf fel canlyniadau i ymholiadau ar y termau hynny sydd bwysicaf i'r Awdurdod (Wyddfa, Eryri ayyb) yn y peiriannau chwilio mwyaf poblogaidd (Google ayyb), a bod hyn yn wir yn y Gymraeg a'r Saesneg; ei bod yn parhau'n bwysig fod yr Awdurdod yn cynnal y safle yma yn y ddwy iaith er nad oedd yr Awdurdod yn arddel yr enwau Saesneg bellach;
- perthnasau a chydweithio gyda chymdeithasau lleol a chenedlaethol yn parhau'n gryf.

*Nodwyd*:

- dymuniad i weld mwy o berthynas rhwng y Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir a nodwyd yn yr adroddwyd â Phwynt 5.2 (Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu) y Rhaglen Waith Corfforaethol:
  - tra bod y mesuriadau presennol yn dangos maint yr ymgysylltu, byddai'n dda cael modd o fesur a oedd yr ymgysylltu hwnnw'n newid canfyddiad defnyddwyr o'r Parc;
  - bod rhai o'r Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir yn annelwig, a dylid

ceisio'u gwneud yn fwy mesuradwy;

- gellid tracio sentiment, sef sut mae pobl yn ymateb i bostiadau (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), i fesur llwyddiant;
- mewn ymateb i'r broblem o ddylanwadwyr digidol yn creu potiau mêl wrth dynnu sylw at ardaloedd penodol o fewn y Parc a chreu problemau wrth i nifer fawr o ymwelwyr gyrraedd yn sgil hynny, y gellid
    - edrych i wneud rhywbeth tebyg i ddylanwadwyr a chaiff ei wneud eisoes gyda busnesau lleol, sef hybu dylanwadwyr i arwyddo i fod yn "ddylanwadwyr cyfrifol", neu
    - ymchwilio i hybu'r brandiau a oedd yn hyrwyddo'r dylanwadwyr addunedu eu hunain i fod yn gyfrifol a phasio'r adduned ymlaen i'r dylanwadwyr;
- y crëwyd pedwar Parc Cenedlaethol cyntaf y DU ym 1951, ac y byddai'n 75 o flynyddoedd ers eu creu yn 2026; byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau yn y misoedd nesaf yn amlinellu syniadau ynglŷn â nodi a dathlu'r achlysur;
- angenrheidrwydd cael yr offer a'r hyfforddiant cywir i allu ymateb yn gadarn i gam-wybodaeth a gwybodaeth negyddol;

*Argymhellwyd:* – darllen a thrafod yr adroddiad ac atodiadau

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:00**

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 12.07.2023**

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru | **PENDERFYNWYD aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.** | Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i baratoi adroddiad. | PW | Adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd '23. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar arallgyfeirio incwm yn dilyn adroddiad 3 APC ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru. Cyflwynwyd adroddiad penodol ar reolaeth Plas Tan y Bwlch i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024. **Parhau i aros am arweiniad LlC.** | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 29.11.2023

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Arallgyfeirio Incwm | **PENDERFYNWYD gohirio rhagor o waith ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad Archwilio Cymru.** | Y Prif Weithredwr i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad maes o law. | PW | Mae swyddogion wedi cwblhau rhestr wirio hunanasesu.<br><br>**Parhau i aros am ymateb LlC** | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 09.07.2025

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol | **Anfodlonrwydd gan rai Aelodau am ambell lefel sicrwydd a ddyfarnwyd yn yr adroddiad a gyda'r cynllun gwaith.**<br>**Nid aeth yr argymhellion gerbron y Pwyllgor gan fod angen ail-edrych ar y cynllun gwaith.** | Ail-gyflwyno'r adroddiad mewn cyfarfod diweddarach, trafod y cynllun ymhellach gyda'r Pennaeth Archwiliad Mewnol a phenderfynu arno. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | **26 Tachwedd 25** | **IE** |
| 8. Adroddiad Diweddaru Grantiau Ariannu Allanol | **Bod y prosiect, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy 2022-25, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi dod i ben, a bod adroddiad llawn ar y prosiect bellach wedi mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru.** | Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor | PW | **26 Tachwedd 25** | **IE** |
| 12. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25 | **Gor-wario sylweddol oherwydd sbwriel wedi ei adael gan ymwelwyr.**<br>**PEDERFYNWYD gwahodd cyflwyno adroddiad i weld a ellid gwneud rhywbeth tebyg a wnaed ar Yr Wyddfa yn fwy cyffredinol.** | Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor | PW | | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 09.07.2025 (parhad)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 14. Datganiad Polisi Tâl 2025-26 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl 2024-25 | **Ffigyrau cyflog yn anghywir yn yr adroddiad. PENDERFYNWYD ail-gyflwyno'r adroddiad gyda'r ffigyrau wedi'u cywiro** | Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor | Pennaeth Adnoddau Dynol | **26 Tachwedd 25** | **IE** |
| 15. Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu | **Dathliad deddfwriaeth y Parciau Cenedlaethol yn 75 y flwyddyn nesaf. PENDERFYNWYD cyflwyno adroddiad yn diweddaru ar unrhyw ddathliadau.** | Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor | PW | Cafwyd adroddiad ar digwyddiadau posib yng nghyfarfod Gweithgor Aelodau 15 Hydref 2025 | **IE** |

**Eitem Rhif 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Hybu Mynediad i Barc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad gan Archwilio Cymru** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | Aelodau i drafod a chymeradwyo “Ymateb y Sefydliad” ar yr adroddiad uchod |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynodd Archwilio Cymru briff prosiect ar gyfer archwiliad ar ‘Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o ran Mynediad’ i’r Awdurdod ym mis Hydref 2023, gyda’r nodau canlynol:

- Rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau i hyrwyddo mynediad i’r Parc Cenedlaethol.
- Esbonio pwysigrwydd pobl o bob cefndir yn archwilio ac yn ymweld â thirweddau cenedlaethol ac amlinellu blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Sicrhau pobl bod yr Awdurdod yn annog ystod eang o ymwelwyr amrywiol, yn cydweithio’n effeithiol â phartneriaid allweddol, ac i benderfynu pa mor dda y mae’n cyflawni cyfrifoldebau statudol.

1.2 Cynhaliwyd y gwaith archwilio yn ystod mis Awst a mis Medi 2024. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau dogfennau a chyfweliadau â swyddogion a chynrychiolwyr grwpiau sy’n ymwneud â phrosiectau yn Eryri.

1.3 Mae’r adroddiad terfynol ynghlwm fel Atodiad 1. Bydd Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno eu canfyddiadau a rhoi rhagor o wybodaeth am argymhellion yr adroddiad.

1.4 Atodiad 2 yw Ymateb y Rheolwyr i'r argymhellion.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Ystyried a chymeradwyo'r ymateb drafft.

# Hybu Mynediad at Barc Cenedlaethol Eryri

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4633A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn 4

    Ein dyletswyddau archwilio 4

    Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam fod hybu mynediad yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych 5

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad 6

Yr hyn a ganfuom 6

Ein hargymhellion ar gyfer yr Awdurdod 10

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 11

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

2 Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Efallai y bydd hefyd yn goleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Darparu sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau i hybu mynediad at y Parc Cenedlaethol (y Parc).

4 Egluro mor bwysig ydyw bod pobl o bob cefndir yn archwilio tirweddau cenedlaethol ac yn ymweld â hwy ac amlinellu blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau).

5 Sicrhau pobl bod yr Awdurdod yn annog ystod eang o bobl amrywiol i ymweld â'r Parc, ei fod yn cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol, a phenderfynu pa mor dda y mae'n cyflawni cyfrifoldebau statudol.

## Pam fod hybu mynediad yn bwysig

6 Mae ystod o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector elusennol wedi rhoi cyhoeddusrwydd i fanteision mynediad at natur. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfrifo bod manteision hamdden awyr agored i iechyd yn 2021 yn werth £22.7 biliwn yng Nghymru[1]. Daw hyn am bod gweithgarwch yn gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Gall hybu mynediad fod o fudd i iechyd a llesiant y cyhoedd ac yn ei dro gall ddwyn manteision economaidd trwy boblogaeth iachach.

7 Mae hybu mynediad hefyd yn helpu'r Awdurdod i weithredu o fewn ei fframwaith cyfreithiol. Un o ddau ddiben statudol[2] yr Awdurdod yw hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc. I gyflawni hyn, mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod gweithgarwch

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Health benefits from recreation, natural capital, UK: 2022

[2] Deddf yr Amgylchedd 1995

wedi'i anelu at gynyddu cyfranogiad i'r eithaf, mewn modd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.

8 Mae hybu mynediad hefyd yn helpu'r Awdurdod i gyflawni polisi a blaenoriaethau cenedlaethol. Yn 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru i APCau Cymru gynyddu 'cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli' [3]. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ategu hyn trwy gyllido a chynnwys darparu swyddog arweiniol cenedlaethol ar gyfer hybu Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu 'i wella amrywiaeth a chydraddoldeb' mewn Parciau Cenedlaethol. Roedd y swyddog arweiniol hefyd wedi'i fwriadu i gynorthwyo Parciau Cenedlaethol i gyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2021.

9 Canfu ymchwil gan Lywodraeth y DU[4] fod y rhan fwyaf o ymweliadau â Pharciau Cenedlaethol Lloegr yn ymweliadau dychwel gan bobl a oedd yn gymharol well eu byd ac nad oeddent yn cynrychioli cymdeithas. Canfu hefyd fod cymunedau eraill yn ymweld â'r parciau'n llai aml. Mae'r rhain yn cynnwys pobl hŷn ac iau, pobl o'r gymuned Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a phobl o gymunedau mwy amddifadus.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych[5]

10 Rydym wedi mabwysiadu diffiniad eang o fynediad, gan gynnwys cyfyngiadau ffisegol ar fynediad a rhwystrau ehangach i fwynhau'r Parc.

11 Nid ydym wedi ystyried materion eraill yng nghylch gwaith yr Awdurdod na materion ehangach sy'n ymwneud â phroffil economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod, megis darparu tai trwy ei swyddogaeth gynllunio. Nid ydym wedi gwerthuso'r prosiectau a gyflawnwyd gan yr Awdurdod i hybu mynediad. Mae ein ffocws ar y trefniadau y mae'r Awdurdod wedi'u rhoi ar waith i'w gwerthuso a'u monitro.

12 Rydym wedi cyfyngu ein hadolygiad i adlewyrchu dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i'w argyhoeddi ei hun ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (a adwaenir yn gyffredin fel gwerth am arian). O ganlyniad, nid ydym wedi gwerthuso'r prosiectau a gyflawnwyd gan yr Awdurdod i hybu mynediad. Felly, nid ydym yn barnu o gwbl ynglŷn â digonolrwydd na natur y camau gweithredu i hybu mynediad o fewn y

[3] Llywodraeth Cymru, Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, Mai 2022

[4] DEFRA, Landscapes Review, Medi 2019

[5] A ddiffinnir fel 'yr hyn ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arfer gorau, neu 'yr hyn allai fod' pe bai'r amodau'n well.

Parc. Roedd ein ffocws ar y trefniadau y mae'r Awdurdod wedi'u sefydlu i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys sut y mae'n eu cynllunio, yn darparu adnoddau ar eu cyfer ac yn eu monitro. Rydym yn cydnabod, serch hynny, y gwaith sylweddol y mae'r Awdurdod wedi'i wneud i hybu mynediad at y Parc a nifer yr ymwelwyr sy'n dod i'r Parc bob blwyddyn.

13 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn ar y cyfan – **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall ei wneud i hybu a gwella mynediad at y Parc Cenedlaethol gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol**:

- A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth gynhwysfawr am bwy sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol a phwy nad ydynt yn ei ddefnyddio?
- A oes gan yr Awdurdod weledigaeth eglur ar gyfer yr hyn y mae angen iddo ei gyflawni i wella mynediad o blith grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?
- A yw'r Awdurdod yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid iawn i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau sy'n ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?
- A yw'r Awdurdod wedi buddsoddi digon o adnoddau er mwyn iddo allu cyflawni manteision hirdymor ac ataliol?
- A yw'r Awdurdod yn monitro, yn gwerthuso ac yn adolygu cynnydd?

14 Caiff y meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i asesu trefniadau'r Awdurdod yn erbyn pob un o'n cwestiynau eu nodi yn **Atodiad 1**. Goleuwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnus, yn ogystal â thynnu ar ddatganiad polisi Parciau Cenedlaethol Cymru 2021 **Tirweddau i Bawb**.

## Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

15 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda swyddogion a chynrychiolwyr grwpiau sy'n rhan o brosiectau yn y Parc. Fe wnaethom hefyd ymweld â'r Parc. Mae ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Awst a mis Hydref 2024.

## Yr hyn a ganfuom

16 Ar y cyfan, canfuom fod **yr Awdurdod yn colli cyfleoedd i gynllunio'n strategol ar gyfer mynediad gwell i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol**. Rydym yn egluro isod pam y daethom ni i'r casgliad hwn.

## A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth gynhwysfawr am ddefnyddwyr?

17 Mae'r Awdurdod yn deall fel rheol pwy sy'n ymweld â'r Parc. Er enghraifft, mae'r Awdurdod yn cyfrif ymwelwyr ar lwybrau allweddol ac yn cofnodi gwybodaeth am rai grwpiau. Fodd bynnag, gweithgarwch y mae hyn yn ei gofnodi, yn hytrach na gwybodaeth sy'n rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr am bwy sy'n ymweld â'r Parc. Trwy ei arolygon ymwelwyr, mae'r Awdurdod yn casglu peth gwybodaeth ddemograffig. Er bod hyn yn darparu rhywfaint o fanylder, nid yw'r Awdurdod yn dwyn gwybodaeth ynghyd yn ganolog i greu darlun mwy cyflawn o bwy sy'n ymweld â'r Parc, a ble y ceir bylchau posibl yn ei wybodaeth.

18 Mae'r Awdurdod yn deall rhwystrau posibl i fynediad a wynebir gan rai ymwelwyr. Mae ei Strategaeth Hamdden yn nodi rhai rhwystrau ffisegol i fynediad ac yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy, megis addasu llwybrau. Nid yw'r Awdurdod yn gwneud gwaith yn ganolog i ddadansoddi'r ffactorau ehangach a allai atal grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag cael mynediad at y Parc neu ei gwneud hi'n anodd iddynt wneud hynny. Gallai defnyddio'r wybodaeth y mae eisoes yn ei chasglu am grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ffordd well helpu'r Awdurdod i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad at y Parc.

19 Rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol i'r Awdurdod gasglu data ar gyfer yr holl ymwelwyr â'r Parc, yn enwedig ymwelwyr nad ydynt yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Awdurdod. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr Awdurdod yn casglu manylion grwpiau y mae'n ymgysylltu â hwy. Er enghraifft, mae gan yr Awdurdod restr o gysylltiadau ar gyfer grwpiau cymunedol a sefydliadol ac mae'n ymgysylltu â grwpiau ynghylch gwelliannau i fynediad ffisegol. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn gwneud gwaith yn ganolog i ddadansoddi'r wybodaeth y mae'n ei chasglu gan y grwpiau ar y rhestr hon. Hefyd, nid yw'r Awdurdod yn dadansoddi gwybodaeth am fynediad at seilwaith ochr yn ochr â'i ffynonellau gwybodaeth eraill ynglŷn â rhwystrau ehangach i fynediad. Mae deall mewnwelediadau pellach i ymwelwyr presennol ac ymwelwyr posibl yn bwysig i helpu'r Awdurdod i dargedu ei adnoddau.

## A oes gan yr Awdurdod weledigaeth eglur ar gyfer gwella mynediad?

20 Mae'r Awdurdod wedi nodi uchelgais i hybu mynediad yn ei gynlluniau strategol. Mae hyn yn cynnwys ei Gynllun Rheoli, Cynllun Eryri 2020-25 ac, er enghraifft, ei Strategaeth Hamdden. Mae'r Awdurdod yn amcanu at helpu ymwelwyr a chymunedau lleol i gael mynediad gwell at y Parc. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn cysylltu ei amcanion strategol hirdymor yn glir â'r deilliannau y mae'n ceisio eu cyflawni mewn perthynas â gwella mynediad. Er bod yr Awdurdod wedi pennu uchelgais i hybu mynediad, mae camau gweithredu'n cael eu harwain gan grantiau byrdymor yn hytrach na'i ddeilliannau strategol. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae cyllid grant byrdymor yn eu creu ar gyfer cynllunio strategol. Fodd bynnag, trwy beidio â chynllunio dros gyfnod hwy, ceir risg bod yr Awdurdod yn

defnyddio ymyriadau byrdymor nad ydynt o bosibl yn cyflawni deilliannau a gwerth am arian dros y tymor hir.

## A yw'r Awdurdod yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaethau i hybu mynediad?

21 Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid ar ystod o brosiectau i wella mynediad. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â'r Parc gan grwpiau ysgolion, ffydd, a ffoaduriaid, yn ogystal â theithiau tywys misol i helpu i hybu cydlyniant cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi mapio partneriaid posibl eraill y gallai weithio gyda hwy i wella mynediad at y Parc. O ganlyniad, ceir risg y bydd yr Awdurdod yn colli cyfleoedd posibl i wella mynediad a gwerth am arian trwy, er enghraifft, rannu arbenigedd ac adnoddau gyda phartneriaid.

22 Nid oes gan yr Awdurdod ddull eglur o gynnwys defnyddwyr y Parc yn y broses o gynllunio a chyflawni prosiectau sydd wedi'u bwriadu i gynyddu mynediad at y Parc ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r Awdurdod yn rhannu gwybodaeth am iechyd a diogelwch gyda rhai grwpiau ac ymwelwyr i'w helpu i gael mynediad yn ddiogel at y Parc. Er ei fod yn bwysig, mae'r gwaith hwn yn dangos nad yw'r Awdurdod wastad yn glir yn ei ddull ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng darparu gwybodaeth a chynnwys pobl mewn modd wedi'i dargedu i ddylunio datrysiadau i wella mynediad.

23 Mae'r Awdurdod yn cyflawni peth gweithgarwch ymgysylltu gyda Fforymau Mynediad Lleol ar wella seilwaith a rhwystrau ffisegol i fynediad, er enghraifft gwaith ar welliannau i lwybrau cerdded neu lwybrau ceffylau. Fodd bynnag, nid oes gan yr Awdurdod ddulliau tebyg ar gyfer ymgysylltu â grwpiau ynghylch rhwystrau eraill i fynediad. Nid yw'r Awdurdod yn mapio ble y mae'n ymgysylltu neu y gallai ymgysylltu â grwpiau ynghylch rhwystrau ehangach i fynediad, a ffyrdd o fynd i'r afael â'r rheiny. Felly ceir risg bod yr Awdurdod yn colli cyfleoedd i ystyried opsiynau a allai dargedu ei adnoddau'n well i wella mynediad a gwerth am arian.

## A yw'r Awdurdod wedi darparu adnoddau mewn modd strategol ar gyfer ei weithgarwch i hybu mynediad?

24 Mae'r Awdurdod wedi darparu adnoddau mewn modd strategol ar gyfer rhai prosiectau i hybu mynediad. Mae'r Awdurdod wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwario cyllid grant ac mae'n adolygu'r blaenoriaethau hyn yn flynyddol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi adnabod a chymryd camau i liniaru rhai o'r risgiau i gyllid byrdymor. Mae'r Awdurdod hefyd wedi defnyddio cyllid craidd i hybu mynediad, er enghraifft trwy ariannu swyddogion i hybu ymgysylltiad â gwirfoddolwyr a grwpiau ysgolion. Mae'r Awdurdod hefyd yn ariannu gwelliannau i seilwaith, cerbydau hygyrch (a adwaenir fel 'trampwyr'), ac offer ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, ceir risgiau o hyd mewn perthynas â darparu adnoddau llawn ar gyfer y nodau strategol tymor hwy sy'n ymwneud â chynyddu mynediad. Rydym yn deall y cyd-destun ariannol sy'n gryn her i'r holl gyrff cyhoeddus a heriau cylchoedd cyllido byrdymor

ar gyfer cynllunio tymor hwy, Fodd bynnag, trwy beidio â nodi'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni ei amcanion yn y tymor hir, mae'r Awdurdod yn cynyddu'r risg na fydd yn gallu eu cyflawni.

## A yw'r Awdurdod yn monitro, yn gwerthuso, ac yn adolygu cynnydd?

25 Nid yw'r Awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso effaith ei weithgarwch i hybu mynediad. Mae'r Awdurdod yn casglu gwybodaeth am brosiectau a ariennir â chyllid grant ac yn adrodd arni wrth y cyrff sy'n eu hariannu. Mae hefyd yn cyflwyno adroddiadau prosiect a chwarterol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn gwerthuso effaith ei weithgarwch yn glir. Rydym yn cydnabod bod mesur effaith rhai prosiectau a pheth gweithgarwch yn gallu bod yn anodd. Fodd bynnag, trwy beidio â gwerthuso deilliannau ei weithgareddau, mae'n anodd i'r Awdurdod fod â sicrwydd ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

# Ein hargymhellion i'r Awdurdod

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Awdurdod**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Canfuom wendidau yn nhrefniadau'r Awdurdod i gasglu a dadansoddi data ar ymwelwyr. I wneud y gorau o'r data y mae'r Awdurdod yn ei gasglu gan ymwelwyr, grwpiau a chymunedau, dylai'r Awdurdod:<br>1.1 sefydlu trefniant mwy cyson i goladu a dadansoddi gwybodaeth ddemograffig, data ar weithgarwch ac adborth. |
| A2 | Nid yw'r Awdurdod wedi mapio'r holl bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i wella mynediad at y Parc. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Awdurdod fapio'r holl bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i adnabod a oes cyfleoedd i wella gwerth am arian. |
| A3 | I helpu i wneud yn siŵr bod ei weledigaeth ar gyfer hybu mynediad yn sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys dros y tymor hwy, dylai'r Awdurdod:<br>3.1 eglurhau a mynd ati wedyn i gyfrifo cost ei gamau gweithredu arfaethedig i wireddu ei weledigaeth. |
| A4 | Nid oes gan yr Awdurdod drefniadau i fynd ati'n rheolaidd i fonitro na gwerthuso ei waith i hybu mynediad at y Parc. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Awdurdod:<br>4.1 Nodi sut y bydd yn asesu ac yn monitro gwerth am arian prosiectau unigol a'i ddull strategol ar y cyfan ar gyfer hybu mynediad.<br>4.2 Darparu adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau ar gynnydd a gwerth am arian ei waith i hybu mynediad at y Parc. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn ar y cyfan: A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall ei wneud i hybu a gwella mynediad at y Parc Cenedlaethol gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?**

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 2.1 A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth gynhwysfawr am bwy sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol a phwy nad ydynt yn ei ddefnyddio? | • 2.2.1 A yw'r Awdurdod wedi dadansoddi'n ddiweddar pwy sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol?<br>• 2.1.2 A yw'r Awdurdod wedi adnabod yn ddiweddar pa grwpiau neu gymunedau nad ydynt yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol?<br>• 2.1.3 A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr am ei broffil economaidd-gymdeithasol?<br>• 2.1.4 A yw'r Awdurdod wedi adnabod rhwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau sy'n ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?<br>• 2.1.5 A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr am y ffactorau hirdymor a allai effeithio ar gyfleoedd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gael mynediad? | • Mae'r Awdurdod yn gwybod pa grwpiau a chymunedau sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol.<br>• Mae'r Awdurdod yn gwybod pa grwpiau a chymunedau nad ydynt yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol.<br>• Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr am ei broffil economaidd-gymdeithasol.<br>• Mae'r Awdurdod yn deall ac yn gwybod pa rwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau sy'n ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr am y ffactorau hirdymor a allai leihau cyfleoedd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gael mynediad. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 A oes gan yr Awdurdod weledigaeth eglur ar gyfer yr hyn y mae angen iddo ei gyflawni i wella mynediad o blith grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? | • 2.2.1 A oes gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n wynebu grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?<br>• 2.2.2 A yw'r Awdurdod wedi cynnwys grwpiau neu gymunedau perthnasol wrth lunio ei ddull?<br>• 2.2.3 A yw'r Awdurdod yn defnyddio dull integredig?<br>• 2.2.4 A yw'r Awdurdod yn cynllunio dros raddfa amser briodol?<br>• 2.2.5 A yw dull yr Awdurdod yn cael ei lywio gan arweinyddiaeth eglur ac effeithiol? | • Mae gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n wynebu grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Mae'r Awdurdod yn cynnwys grwpiau a chymunedau perthnasol yn llawn i helpu i lunio ei ddull.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio dull integredig ac yn ystyried materion ar draws yr holl wasanaethau a'r holl bartneriaid allweddol.<br>• Mae gan yr Awdurdod hanes cryf o ennyn ymgysylltiad rhanddeiliaid â chyfleoedd cynhwysol i gael mynediad at y Parc Cenedlaethol a'i ddefnyddio.<br>• Mae'r Awdurdod yn mynd ati'n frwd i hyrwyddo ei waith ac mae hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, gwella iechyd a llesiant a lleddfu effaith tlodi.<br>• Mae'r Awdurdod wedi gosod ystod o dargedau ar gyfer cyflawni dros raddfa amser briodol.<br>• Mae gan yr Awdurdod hanes da o gyflawni camau gweithredu a chynlluniau a chymryd camau cywirol lle y bo angen.<br>• Mae gan yr Awdurdod arweinyddiaeth eglur ac effeithiol, ac mae cynyddu mynediad at y Parc Cenedlaethol yn cael ei hybu'n gyson ac yn eglur ar y lefelau uchaf.<br>• Mae gan yr Awdurdod dystiolaeth dda i dynnu arni i ddangos gwerth Parciau Cenedlaethol i iechyd a llesiant a'u rôl o ran helpu i leihau allgau cymdeithasol a lleddfu'r rhwystrau a achosir gan dlodi. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 2.3 A yw'r Awdurdod yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid iawn i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau sy'n ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? | • 2.3.1 A yw'r Awdurdod wedi adnabod pwy y mae angen iddo eu cynnwys wrth ddylunio a chyflawni ei waith?<br>• 2.3.2 A yw'r Awdurdod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth yn effeithiol?<br>• 2.3.3 A yw'r Awdurdod yn gweithio gyda'r partneriaid iawn?<br>• 2.3.4 A yw'r corff yn cydweithio'n effeithiol?<br>• 2.3.5 A yw'r Awdurdod yn dysgu gwersi o sut y mae'n gweithio gydag eraill? | • Mae'r Awdurdod yn dangos gwerth Parciau cenedlaethol ar gyfer iechyd a llesiant a'u rôl o ran helpu i leihau allgau cymdeithasol a lleddfu'r rhwystrau a achosir gan dlodi, trwy gyfrannu tuag at bolisi ac arfer seiliedig-ar-dystiolaeth.<br>• Mae'r Awdurdod yn teilwra cyfleoedd i'r holl bobl yng Nghymru gael budd o amgylchedd naturiol a nodweddion tirwedd Parciau Cenedlaethol.<br>• Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r bobl, y sefydliadau a'r cymunedau iawn i ddylunio gwasanaethau cynhwysol sy'n hybu mynediad i bawb.<br>• Mae'r Awdurdod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth mewn modd effeithiol wrth ddatblygu ei raglenni gwaith i sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gael mynediad at y Parc Cenedlaethol a'i ddefnyddio.<br>• Mae'r Awdurdod yn agored i her a gwersi i sicrhau bod ei wasanaethau'n addas ar gyfer y diben ac yn cyflawni'r hyn a fwriedir. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| 2.4 A yw'r Awdurdod wedi buddsoddi digon o adnoddau er mwyn iddo allu cyflawni manteision hirdymor ac ataliol? | • 2.4.1 A yw'r Awdurdod wedi neilltuo digon o adnoddau i hybu mynediad at y Parc Cenedlaethol a defnydd ohono gan bobl a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?<br>• 2.4.2 A yw'r Awdurdod yn deall y goblygiadau hirdymor o ran adnoddau?<br>• 2.4.3 A yw'r Awdurdod yn dyrannu adnoddau i gyflawni deilliannau gwell dros y tymor hir?<br>• 2.4.4 A yw'r Awdurdod wedi gwneud gwaith modelu demograffig i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol i ddenu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y dyfodol? | • Mae'r Awdurdod wedi neilltuo digon o adnoddau i wella mynediad ac annog pobl i gael mynediad at y Parc Cenedlaethol a'i ddefnyddio.<br>• Mae'r Awdurdod yn adolygu ei ddefnydd o adnoddau i sicrhau ei fod yn gallu targedu dyraniadau yn y dyfodol at grwpiau a chymunedau o ymwelwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Mae'r Awdurdod wedi gwneud gwaith modelu demograffig i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol i ddenu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y dyfodol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 2.5 A yw'r Awdurdod yn monitro, yn gwerthuso ac yn adolygu cynnydd? | • 2.5.1 A yw'r Awdurdod yn defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol i fesur effaith ei waith?<br>• 2.5.2 A yw Aelodau'r Awdurdod yn craffu'n effeithiol ar berfformiad? | • Teilwra cyfleoedd er mwyn i'r holl bobl yng Nghymru gael budd o amgylchedd naturiol a nodweddion tirwedd Parciau Cenedlaethol.<br>• Mae'r Awdurdod wedi datblygu cyfres o fesurau/metrigau perfformiad priodol a pherthnasol sy'n ei alluogi i farnu sut y mae'n gwella mynediad at y Parc Cenedlaethol a defnydd ohono gan grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Mae'r data a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn ei alluogi i ddangos effaith gadarnhaol mynediad pobl at y Parc Cenedlaethol ar lesiant pobl a deilliannau cymdeithasol; effaith ar dlodi; ac effaith ar iechyd.<br>• Mae'r Awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad yn rheolaidd ac yn cymryd camau cywirol o ganlyniad i'w waith adolygu. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

| At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig | |
|---|---|
| Corff a archwilir | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Enw'r archwiliad | Hybu Mynediad at Barc Cenedlaethol Eryri |
| Dyddiad cyhoeddi | [Dyddiad y cyhoeddwyd i'r corff a archwilir] Gorfennaf 2025 |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Canfuom wendidau yn nhrefniadau'r Awdurdod i gasglu a dadansoddi data ar ymwelwyr. I wneud y gorau o'r data y mae'r Awdurdod yn ei gasglu gan ymwelwyr, grwpiau a chymunedau, dylai'r Awdurdod sefydlu trefniant mwy cyson i goladu a dadansoddi | Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn datblygu Strategaeth Ymgysylltu a fydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer sut rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau a'n grwpiau yn y dyfodol. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd yr Awdurdod yn edrych i ddatblygu system i gasglu data cydraddoldeb yn ganolog o weithgarwch ymgysylltu, i ddadansoddi a ydym yn cyrraedd pob rhan o'n cymdeithas. | Yr hydref 2026 | Cyfarwyddwr Rheoli Tir<br><br>Pennaeth Partneriaethau | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwybodaeth ddemograffig, data ar weithgarwch ac adborth. | Yn y cyfamser, mae micro safle ar gael o wefan yr Awdurdod yn adrodd ar Gyflwr y Parc 2025, sy'n cynnwys data a dadansoddiad cynhwysfawr ar bob agwedd ar fywyd yn Eryri. Mae hwn yn adnodd canolog a chyhoeddus sydd ar gael i bawb.<br><br>Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, o hyn ymlaen bydd data ar gael i'r Awdurdod i'w adolygu a'i ddadansoddi o'r arolwg blynyddol o drigolion yng Ngwynedd. Gobeithir y bydd y data hwn yn darparu dangosyddion cymharol dros amser ar gyfer y Cynllun Partneriaeth Strategol ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy. | | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Bydd yr Awdurdod hefyd yn edrych ar ddatblygu casglu data mewnol ar raddfa lai yn rheolaidd ar ymwelwyr trwy ein prif bwyntiau cyswllt, a fydd yn rhoi data cymharol inni dros amser, er mwyn dadansoddi tueddiadau. Mae angen taro cydbwysedd rhwng yr adnoddau sydd eu hangen i gasglu'r data hwn, ymarferoldeb ei gasglu a defnydd terfynol y data. | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| **A2** | Nid yw'r Awdurdod wedi mapio'r holl bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i wella mynediad at y Parc. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Awdurdod fapio'r holl bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i adnabod a oes cyfleoedd i wella gwerth am arian. | Cynhelir Symposiwm Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant (CACh) ym mis Ionawr 2026, lle bydd yr Awdurdod yn gweithio ar y cyd â'r Bartneriaeth Awyr Agored i drafod Perthyn, Mynediad a Chynhwysiant yn Eryri, a fydd yn ymgorffori gwaith Mapio Rhanddeiliaid ac adnabod partneriaid eraill posibl i symud y gwaith hwn ymlaen.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn bwydo i ddatblygu polisi ar gyfer Cynllun Eryri, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. | Symposiwm CACh – Ionawr 2026<br><br>Mabwysiadu Cynllun Eryri diwygiedig Haf 202 | Pennaeth Partneriaethau<br><br>Cyfarwyddwr Rheoli Tir | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| **A3** | I helpu i wneud yn siŵr bod ei weledigaeth ar gyfer hybu mynediad yn sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys dros y tymor hwy, dylai'r Awdurdod:<br>3.1 eglurhau a mynd ati wedyn i gyfrifo cost ei gamau gweithredu arfaethedig i wireddu ei weledigaeth. | Mae blaenoriaethau mynediad a nodwyd o dan Amcanion Llesiant yr Awdurdod a Chynllun Eryri yn cwmpasu cyfnod o dros 5 mlynedd.<br><br>Gall yr Awdurdod edrych i ddatblygu a mireinio ymhellach y broses o gynllunio ymlaen llaw a chostio prosiectau cyfalaf ac untro sy'n barod i'w cyflwyno pan fydd cyfleoedd ariannu'n codi.<br><br>Dros y cyfnod adolygu nesaf yn 2026, bydd amcangyfrif o'r cyllid craidd a ddefnyddir i gwblhau prosiectau penodol a nodwyd yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau gweithredu. | Medi 2026<br><br>Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Rheoli Tir<br><br>Timau Arweinyddiaeth a Chyflawni | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| **A4** | Nid oes gan yr Awdurdod drefniadau i fynd ati'n rheolaidd i fonitro na gwerthuso ei waith i hybu mynediad at y Parc. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Awdurdod:<br>4.1 Nodi sut y bydd yn asesu ac yn monitro gwerth am arian prosiectau unigol a'i ddull strategol ar y cyfan ar gyfer hybu mynediad.<br>4.2 Darparu adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau ar gynnydd a gwerth am arian ei waith i hybu mynediad at y Parc. | Cynnal Gweithgor rhwng Swyddogion ac Aelodau i gytuno ar:<br>i) Y diffiniad o 'werth am arian';<br>ii) Pa ddata sydd angen ei gasglu i asesu'r 'gwerth am arian' a ddiffiniwyd uchod;<br>iii) Nodi rhwystrau i gasglu data h.y. adnoddau ac ymarferoldeb; a<br>iv) Cytuno ar beth a pha mor aml y caiff ei adrodd i fynd i'r afael ag argymhelliad 4.2.<br>Wedi hynny, cytunir ar y weithdrefn. | Ionawr 2027 | Prif Weithredwr | |

**Eitem Rhif 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y sector gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn ychwanegol at y ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

1.2 O dan y dyletswyddau penodol, mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru baratoi Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

1.3 Mae'n rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol nodi'n benodol:

- y camau y mae'r Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
- y cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod; a
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl.

1.4 Mae'r adroddiad blynyddol sydd ynghlwm yn nodi cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2023-24 i ddiwallu'r dyletswyddau ychwanegol hyn yng Nghymru.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2024-25

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2024 – 25

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad .......................................................................... 3

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol.................... 4

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru.................................. 6

4. Beth a Gyflawnwyd ............................................................ 8

5. Hyfforddiant......................................................................... 25

6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ..................................... 25

7. Gwybodaeth Cyflogaeth .................................................. 26

# 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus. Mae’n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i’r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy’n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy’n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

## Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr o nodweddion sydd i'w diogelu sy’n disodli amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafriaeth.

## Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i’r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae’r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb

- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau tâl
- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Yn ogystal, deddfwyd y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd o dan Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar y 31ain o Fawrth 2021; gan ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried sut y gallai ein penderfyniadau strategol leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais gymdeithasol-economaidd.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod 202-28 yn ffurfiol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 20fed o Fawrth 2024.

## 2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol
Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael o Gyfrifiad y DU 2021 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er bod cyfanswm poblogaeth Cymru gyfan wedi cynyddu 44,000 (1.4%) i 3,107,500, yn Eryri gostyngodd maint y boblogaeth o 25,702 yn 2011 i 24,418 yn 2021 – gostyngiad o bron i 5%.

Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi crynodebau pwnc ar:
- Demograffeg a mudo
- Yr Iaith Gymraeg
- Grwpiau ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd
- Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU
- Tai
- Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- Addysg
- Iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Mae yna hefyd setiau data aml-amrywedd ar gael sy'n ein galluogi i gyfuno gwahanol newidynnau ac edrych ar y berthynas rhwng y data ar gyfer aelwydydd yn Eryri. Bydd hwn yn ddata pwysig i nodi'r croestoriadedd sy'n allweddol wrth archwilio amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac mae'n crynhoi'r anghydraddoldebau canlyniad allweddol y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu.

Yn ogystal, comisiynodd Rwydwaith Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (ariannwyd trwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol) dadansoddiad pellach o ddata'r Cyfrifiad a data perthnasol arall, i ddarparu adroddiad data lleol sy'n fwy perthnasol a manwl gywir.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd yr Awdurdod Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa, a roddodd ymateb cynhwysfawr gan y 1,366 o bobl a holwyd a ganiataodd inni asesu demograffeg, profiadau ac ymddygiadau ymwelwyr. Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae staff yn cynnal holiaduron lleol llai a defnyddir data ymwelwyr o wahanol ffynonellau i alluogi'r awdurdod i gael darlun ehangach o'r bobl sy'n ymweld â'r ardal.

<u>Gwybodaeth ac Ymgysylltu</u>
Yn ystod 204/25, parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol drwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd ar-lein, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori a gwybodaeth personol.

Fel Awdurdod bach, mae gweithio mewn partneriaeth yn rhan bwysig o sut rydym yn cyflawni pethau, ac mae 2024-25 wedi dangos unwaith eto pa mor bwysig yw hyn. Mewn cyfnod o heriau ariannol parhaus, mae rhannu adnoddau ac arbenigedd gyda'n partneriaid a chyd-gynhyrchu cynlluniau a strategaethau pwysig i fynd i'r afael â heriau Eryri yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd, yn hanfodol.

Elfen bwysig o'r gwaith hwn yw'r ymgysylltu a'r ymgynghori sy'n digwydd gyda chymunedau lleol i alluogi rhannu gwybodaeth ac i roi cyfle i bobl roi eu barn ar nifer o heriau y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau yn eu hwynebu, ynghyd â'u barn ar gynigion ar gyfer camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Dechreuodd gwaith eleni ar adolygu Cynllun Yr Wyddfa (Cynllun Rheoli). Mae'r broses hon wedi cynnwys: adolygiad o ymgynghoriadau diweddar neu barhaus; cyfres o weithdai gyda staff, partneriaid a rhanddeiliaid APC Eryri; ac ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn ardal Yr Wyddfa, yn ogystal â sesiynau galw heibio cymunedol.

Elfen arall o weithio mewn partneriaeth oedd mabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035). Eleni mae swyddogion o'r APC a Chyngor Gwynedd wedi bod yn ffurfioli strwythurau gweithredu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bellach wedi ymrwymo i fynd â'r Memorandwm o Ddealltwriaeth trwy eu prosesau democrataidd a bydd cefn gwlad Conwy yn dod yn aelodau swyddogol o'r Cynllun erbyn mis Mai 2025. Mae'r Cynllun Gweithredu blynyddol cyntaf yn y broses o gael ei gwblhau a'i adrodd arno.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd yr ymgynghoriad mwyaf ynghylch y bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Aeth yr ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd y tu

hwnt i'r gofyniad statudol, gyda phob cartref o fewn y Parc Cenedlaethol yn derbyn llythyr i'w hysbysu o'r cynnig.  Denodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 357 o ymatebion ysgrifenedig, ac mae'n deg dweud bod safbwyntiau wedi'u hollti o fewn cymunedau Eryri ar yr effeithiau posibl y byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei gael.  Gydag unrhyw gynnig newydd ac arloesol na all dynnu ar union gynseiliau hanesyddol, mae hyn i'w ddisgwyl. Darparodd yr Awdurdod ymateb cynhwysfawr i'r holl bryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad; a darparu data a gwybodaeth lle'r oedd ar gael i gynorthwyo'r asesiad o'r goblygiadau amrywiol a ragwelwyd.  Ar ôl dadansoddi'r holl wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael, penderfynwyd parhau â Chyfarwyddyd Erthygl 4 ym mis Ionawr 2025, a ddaeth i rym ar y 1af o Fehefin 2025.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus arwyddocaol arall eleni ynghylch dyfodol Plas Tan y Bwlch. Denodd y penderfyniad cychwynnol i roi'r safle ar werth sylw sylweddol gan y cyfryngau ac ymateb cyhoeddus cryf. I fynd i'r afael â phryderon, cynhaliodd yr Awdurdod sesiwn galw heibio drwy'r dydd i'r cyhoedd ar y 14eg o Hydref 2024. Mynychwyd y sesiwn gan 180 o aelodau'r cyhoedd, a roddodd gyfle iddynt fynegi eu barn ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch a'r coetiroedd cyfagos, gan gynnwys Llyn Mair. Cynhelir sesiynau galw heibio rheolaidd pellach yn y dyfodol wrth i gynnydd gael ei wneud ar y safle.

Ac yn olaf, mae'n dda adrodd bod y treial i roi cynnig ar ddull gwahanol o ymgynghori â Chynghorau Cymuned a Thref wedi bod yn llwyddiannus.  Bydd y fforwm nawr yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri a Chynllun Eryri dros y blynyddoedd nesaf.

## 3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Ers y cychwyn cyntaf pan ddaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym, ymunodd Eryri â chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o dan faner gyfunol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC).  Galluogodd i'r partneriaid y sector cyhoeddus i ddatblygu a hwyluso ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu arloesol ar y cyd ar draws y rhanbarth a arweiniodd at ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb.

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 7 amcan lefel uchaf, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 7 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella.
2. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr cyfel cyfartal** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.
3. Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
4. Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.
5. Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder**.
6. Cynyddu mynediad i **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth y **penderfyniadau a wneir.**
7. Mynd i'r afael ag **anfantais economaidd-gymdeithasol** trwy gynnig gwasanaethau cynhwysol i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod hwn gydag Amcan Cydraddoldeb ychwanegol:

8. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Yn sgil swyddogaeth a dyletswyddau penodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ychydig iawn, os unrhyw ddylanwad sydd gennym ar rai o'r amcanion a'r meysydd gweithredu hyn. Fodd bynnag, mae'n bosib gwneud cyfraniadau cadarnhaol trwy gyfrwng meysydd gwaith unigol, a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau ar draws Gogledd Cymru.

## 4. Beth a Gyflawnwyd

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr cyfle cyfartal** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Asesu, gwerthuso, monitro a chymryd y camau sydd ar gael i ymateb i'r data ar y bwlch tâl rhyw yn flynyddol. | Bydd y data a gasglwyd yn llywio unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol. | Rhyw | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2024/25:**

Sefydlodd data ar gyfer 31.03.2012 y llinell sylfaen a oedd yn seiliedig ar gyfraddau canolrif yr awr, megis:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£13.61** | **£12.77** | **£12.77** | **Dim** | **Dim** |
| **Rhan Amser** | **£8.00** | **£8.00** | **£8.00** | **Dim** | **Dim** |
| **Holl Staff** | **£12.77** | **£8.72** | **£9.91** | **£1.19** | **£4.05** |

Mae data ar gyfer 31.03.2024 wedi'i osod islaw:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£17.62** | **£17.62** | **£15.45** | **NIL** | **NIL** |
| **Rhan Amser** | **£12.40** | **£12.82** | **£12.82** | **NIL** | **NIL** |
| **Holl Staff** | **£17.55** | **£15.39** | **£15.45** | **0.06p** | **£2.16** |

Mae data ar gyfer 31.03.2025 wedi'i osod islaw:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£18.26** | **£18.26** | **£18.26** | **NIL** | **NIL** |
| **Rhan Amser** | **£13.05** | **£13.47** | **£13.47** | **NIL** | **NIL** |
| **Holl Staff** | **£18.26** | **£16.10** | **£16.37** | **£0.27** | **£2.16** |

Mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigwr CANOLRIF (MEDIAN).

Mae Canllawiau ACAS ar Reoli Adrodd ar Dâl Rhyw yn nodi y gellir gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio dau fath o gyfartaledd:

- Mae cyfartaledd cymedrig yn cynnwys adio'r holl rifau a rhannu'r canlyniad â faint o rifau oedd ar y rhestr.
- Mae cyfartaledd canolrif yn cynnwys rhestru'r holl rifau mewn trefn rifiadol. Os oes odrif o ganlyniadau, y cyfartaledd canolrifol yw'r rhif canol. Os oes eilrif o ganlyniadau, y canolrif fydd cymedr y ddau rif canolog.

Mae defnyddio'r ddau fath gwahanol hyn o gyfartaledd yn ddefnyddiol i roi trosolwg mwy cytbwys o fwlch cyflog cyffredinol cyflogwr:

- Mae cyfartaleddau cymedrig yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn gosod yr un gwerth ar bob rhif y maent yn ei ddefnyddio, gan roi arwydd cyffredinol da o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond gall cyfraddau tâl neu fonysau mawr neu fach iawn dra arglwyddiaethu dros bethau ac ystumio'r ateb. Er enghraifft, gall cyfartaleddau cymedrig fod yn ddefnyddiol mewn sefydliad lle mae mwyafrif helaeth y tâl bonws yn cael ei dderbyn gan nifer fach o aelodau bwrdd.
- Mae cyfartaleddau canolrif yn ddefnyddiol i nodi beth yw'r sefyllfa 'nodweddiadol' h.y. yng nghanol y sefydliad ac nid ydynt yn cael eu hystumio gan gyfraddau tâl mawr neu fach iawn o fonysau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd pob mater bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei godi. Er enghraifft, gallai cyfartaledd canolrif ddangos gwell arwydd o fwlch cyflog 'canol y ffordd' mewn clwb chwaraeon gyda chyfartaledd cymedrig wedi'i ystumio gan chwaraewyr â chyflog uchel iawn ac aelodau bwrdd, ond gallai hefyd fethu â chodi mor effeithiol lle. Mae'r materion bwlch cyflog yn fwyaf amlwg ymhlith y gweithwyr ar y cyflog isaf neu'r cyflog uchaf.

Isod mae'r data a gyfrifir ar gyfartaleddau CYMEDRIG (MEAN)

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.03.24, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £17.98 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £16.43. Mae hyn yn rhoi bwlch o 8.62%.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.03.25, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £18.43 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £16.97. Mae hyn yn rhoi bwlch o 8.60%.

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau ar weithio hyblyg.</td><td>Bydd polisi teg ac effeithiol yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mae rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ac er mwyn aros yn y gwaith.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Adnoddau Dynol</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:<br><br>Cynllun Fflecsi Hynod-Hyblyg – Mabwysiadu Parhaol<br>Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus o 12 mis, mae'r cynllun Fflecsi Hynod-Hyblyg bellach wedi'i fabwysiadu'n barhaol. Tynnodd adborth gan staff sylw at welliannau sylweddol yng nghydbwysedd bywyd a gwaith, gyda llawer yn nodi bod yr hyblygrwydd cynyddol wedi cefnogi eu hiechyd a'u lles yn gadarnhaol. Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i feithrin amgylchedd gwaith cefnogol ac addasadwy.</td></tr>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb.</td><td>Asesu'r anghenion hyfforddi a threfnu hyfforddiant fel sy'n briodol.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Adnoddau Dynol</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:<br><br>Mae modiwlau hyfforddi cydraddoldeb ar gael drwy ELMS (System Rheoli Dysgu Electronig), platfform a ddefnyddir ar draws y Parciau Cenedlaethol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Awdurdod wedi cyfieithu dau gwrs dysgu electronig ELMS gorfodol ar gyfer yr holl staff - Urddas a Pharch yn y Gwaith a Bwlio ac Aflonyddu yn y Gweithle - i gefnogi cydraddoldeb.<br><br>Mae sicrhau bod y cyrsiau hyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn sicrhau y gall yr holl staff gael mynediad at hyfforddiant hanfodol. Mae'r cam hwn yn gwella ymhellach ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu rhaglen hyfforddi cydraddoldeb effeithiol, gan helpu i feithrin gweithle mwy cynhwysol, parchus a chefnogol i bawb.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy’n rhoi cymorth i staff sy’n profi camdriniaeth ddomestig.</td><td>Yn cefnogi lles y staff yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Adnoddau Dynol</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:<br><br>Fel rhan o ymrwymiad yr Awdurdod i gefnogi lles staff a hyrwyddo gweithle diogel a chynhwysol, datblygodd a mabwysiadodd Pennaeth AD Bolisi Cam-drin Domestig cynhwysfawr ym mis Ionawr eleni. Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau clir a mecanweithiau cymorth i staff a allai fod yn profi cam-drin domestig, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu clywed, a'u cefnogi yn y gweithle.<br><br>I gyd-fynd â lansio'r polisi, cynhyrchwyd posteri ymwybyddiaeth a'u gosod mewn toiledau staff ar draws adeiladau'r Awdurdod. Mae'r posteri hyn yn helpu staff i nodi arwyddion o gam-drin domestig ac yn darparu gwybodaeth ar sut i geisio cymorth yn gyfrinachol.<br><br>Mae'r cam hwn nid yn unig yn cryfhau ein dull o ddiogelu a lles staff, ond mae hefyd yn gwella ein rhaglen hyfforddi cydraddoldeb drwy:<br><br>• Codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig fel mater yn y gweithle.<br>• Annog diwylliant agored a chefnogaeth, lle mae staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i geisio cymorth.<br>• Hyrwyddo ymyrraeth gynnar, a all arwain at ganlyniadau gwell i'r rhai yr effeithir arnynt.<br>• Dangos ymrwymiad yr Awdurdod i fynd i'r afael â phob math o gam-drin a gwahaniaethu.<br><br>Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn cyfrannu at amgylchedd gwaith mwy diogel a thosturiol i bawb.</td></tr>
</table>

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod pob polisi, cynllun a phrosiect newydd neu ddiwygiedig yn cael eu sgrinio am yr angen i gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb llawn, ac i'r rhai sydd angen, sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd. | Bydd asesiadau effeithiol yn sicrhau fod yr holl bolisïau a chynlluniau yn deg. Bydd asesiadau yn sicrhau fod pob prosiect newydd yn rhoi ystyriaeth i faterion hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf. | Pawb | Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Prosiectau a Swyddogion sy'n arwain. |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:**<br><br>Mae'r holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisïau newydd neu ddiwygiedig wedi cael Sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod 2024/25. Mae asesiadau llawn wedi'u cynnal ar bob Strategaeth, Cynllun a Pholisi sydd â'r potensial i gael effaith negyddol ac anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys effeithiau cronnus economaidd-gymdeithasol o ran Penderfyniadau Strategol. Os yn addas, mae mesurau lliniaru priodol wedi'u nodi a'u rhoi ar waith. | | | |
| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
| Sicrhau fod pob digwyddiad a gweithgaredd a drefnir gan yr Awdurdod ar gyfer y cyhoedd yn gynhwysol a bod asesiad hygyrchedd wedi cael ei wneud. | Bydd hyn yn sicrhau cyn belled â phosib na fydd unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan. | Pawb | Trefnwyr digwyddiadau |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:**<br><br>Mae ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau allanol wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf (e.e., teithiau cerdded, yoga coetir, digwyddiadau a gweithgareddau addysgol plant a phobl ifanc ac ati). Mae pob trefnydd digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hasesu'n llawn ar gyfer hygyrchedd ar yr un pryd ag y cynhelir yr asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod pob cyfranogwr a oedd am gymryd rhan yn gallu gwneud hynny'n ddiogel. | | | |

Roedd digwyddiadau cyfarfodydd cyhoeddus mewn-person ac ar-lein yn cynnwys cyfleusterau cyfieithu i alluogi pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i gymryd rhan yn llawn a deall cyfraniad pawb, a chlustffonau addas ar gyfer y rhai sydd angen dolen glyw. Gall yr Awdurdod hefyd drefnu palan deipydd os oes angen.

Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, gwahoddiadau ac ati yn gwbl ddwyieithog bob amser.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy bolisïau effeithiol yng NghDLl Eryri a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy. | Mae argaeledd tai fforddiadwy yn bwysig i gefnogi'r gymuned leol. | Pawb | Cyfarwyddwr Cynllunio & Rheolwr Cynllunio |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:**

Heb os, mae'r tîm Polisi Cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector. Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau tai, yr Hwylusydd Tai Gwledig a'r Awdurdodau Tai yng Nghynghorau Gwynedd a Chonwy.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r targed a osodwyd yn y CDLl o ddarparu 25 o unedau tai fforddiadwy newydd y flwyddyn wedi'i fethu. Mae'n bosibl bod llawer o ffactorau ar waith yn hynny o beth – hinsawdd economaidd heriol, natur wledig iawn rhai safleoedd, ac asiantaethau eraill yn canolbwyntio ar safleoedd llai ymylol / mwy hyfyw.

Bydd swyddogion yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r materion hyn, a bydd y materion hyn yn cael sylw pellach pan ddaw i'r adolygiad sydd ar fin digwydd o'r CDLl.

Ochr yn ochr â hyn, cyflwynwyd Cyfarwyddyd Erthygl 4, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy drwy fynd i'r afael â'r canrannau uchel o ail gartrefi a chartrefi gwyliau yng nghymunedau Eryri. Mae rhagor o fanylion am ystyriaethau cydraddoldeb a chymdeithasol-economaidd y penderfyniad hwn wedi'u cynnwys o dan ran 6 o'r adroddiad hwn – Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau mewnbwn gan gynrychiolwyr o grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir yn gynnar yn y broses, wrth ddylunio adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau presennol. | Sicrhau fod adeiladau'r Awdurdod yn hygyrch i bawb. | Pobl Anabl | Pennaeth Eiddo a Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:** Nid godwyd unrhyw adeiladau newydd ac ni wnaed unrhyw waith adnewyddu sylweddol a oedd yn cynnwys newidiadau i fynediad pobl a'r defnydd o adeilad ar adeiladau'r Awdurdod yn ystod 2024/25. | | | |

**<u>Amcan</u>:** Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.

<u>Maes Gweithredu</u>:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau fod y grŵp Iechyd a Lles Staff sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar, yn cyflawni gweithrediadau / newidiadau cadarnhaol i gefnogi staff. | Bydd gweithrediadau cadarnhaol yn cefnogi iechyd a llesiant staff. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:**<br><br>Mae Fforwm Ymgysylltu a Llesiant Staff yn parhau i hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi llesiant staff. Budd newydd a gyflwynwyd eleni yw parcio am ddim i staff yn ystod amser hamdden, gan annog defnyddio cefn gwlad hardd Eryri i wella iechyd corfforol a meddyliol.<br><br>Yn ogystal, mae AD a'r Tîm Cyfathrebu yn datblygu Pwls, ap llesiant yn seiliedig ar y cysyniad "Olwyn Teimladau". Mae'r ap yn caniatáu i staff wirio eu hemosiynau'n ddienw drwy gydol yr wythnos, gan helpu'r Awdurdod i nodi tueddiadau emosiynol a theilwra cefnogaeth yn unol â hynny. Bydd mewnwelediadau gan Pwls yn llywio gweithgareddau llesiant wedi'u targedu, fel cyfarfodydd boreol neu weithdai rheoli straen, gan sicrhau bod cefnogaeth staff yn ymatebol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. | | | |

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; i weithio gydag amryw o bartneriaid a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i dreialu o leiaf 1 cynllun rhagnodi cymdeithasol. | Mi fydd cynllun rhagnodi cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y cyfranogwyr. | Pawb, ond pobl anabl yn benodol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:**

Yn dilyn y cynllun peilot cychwynnol a gynhaliwyd yn 2021/22, mae'r digwyddiadau hyn wedi tyfu mewn poblogrwydd. Maent bellach yn ddigwyddiadau iechyd a lles annibynnol yn hytrach na sesiynau rhagnodi cymdeithasol penodol, gan fod y sesiynau ar gael i unrhyw un am ddim. Yr unig gost o gynnal y gweithgareddau hyn oedd talu'r hwyluswyr.

Yn 2024, roedd y sesiynau'n cynnwys taith gerdded ymwybyddiaeth ofalgar dan arweiniad bob mis, gan newid rhwng lleoliadau tawel yng Ngogledd a De Eryri. Cynigiodd y dull hwn amrywiaeth o brofiadau golygfaol i gyfranogwyr a'u cyflwyno i lwybrau cerdded llai poblogaidd yn y parc.

Hefyd cynhaliwyd sesiynau Ioga awyr agored yn Llyn Mair a thraeth Harlech dros fisoedd yr haf, a oedd yn addas ar gyfer pob gallu. Mae ymarfer ioga yn yr awyr agored yn gwella'r profiad cyffredinol ac yn caniatáu i gyfranogwyr ymgysylltu â'u hamgylchedd, sy'n cynnig nifer o fanteision iechyd a lles. Fodd bynnag, gan ein bod wrth drugaredd y tywydd, bu'n rhaid canslo rhai sesiynau ym mis Awst a mis Medi 2024.

Cynhaliwyd sesiynau Ysgol Goedwig hefyd, gyda'r nod o roi cyfleoedd i blant gysylltu â natur trwy weithgareddau a chwarae difyr. Y nod yw meithrin gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol wrth eu dysgu am goed, gloÿnnod byw, pryfed a blodau. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio i fod yn addysgiadol ac yn bleserus, gan sicrhau bod plant ifanc yn datblygu cysylltiad parhaol â natur. Cynhaliwyd pedair sesiwn yn 2024 dros wyliau'r ysgol ac roedd pob un ohonynt wedi'u harchebu'n llawn.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; hyrwyddo a galluogi amryw o weithgareddau gan gynnwys cyfleoedd | Bydd cynyddu'r cyfleoedd ar gael a'u hyrwyddo'n eang, yn rhoi fwy o gyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwirfoddoli, a fydd yn gwella llesiant pobl. | wella eu hiechyd a'u llesiant. | | |

**Adroddiad Diweddaru 2024/25:**

Mae nifer sylweddol o gyfleoedd newydd a pharhaus yn parhau i gael eu datblygu/cefnogi gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles trwy weithredu'r Strategaeth Gwirfoddoli a Lles.

Mae pobl yn dod i wirfoddoli gyda ni am lawer o resymau sy'n amrywio o gynyddu cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau personol a gwaith gwerthfawr ac i roi yn ôl a gofalu am eu cymuned. Mae'r Awdurdod hefyd yn elwa'n fawr trwy gael gwirfoddolwyr yn helpu a chefnogi gwaith ein staff cyflogedig.

Mae Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa a Chader Idris wedi gwneud gwahaniaeth hynod gadarnhaol unwaith eto o ran patrolio'r llwybrau a rhoi cyngor hanfodol i gerddwyr, yn ogystal â chlirio sbwriel o'r llwybrau. Yn ogystal, mae Caru Eryri yn canolbwyntio ar amrywiol weithgareddau cadwraeth, gan gynnwys casglu sbwriel, cynnal a chadw llwybrau troed, a glanhau traethau, i sicrhau cadwraeth a chynaliadwyedd y parc. Yn 2024, cyflwynodd y prosiect sawl elfen newydd megis sifftiau gyda'r nos, casglu sbwriel llwybr Sherpa o Nant Peris i Feddgelert, arweinwyr gwirfoddol, presenoldeb cyfryngau cymdeithasol gwell, a stondin bwydo yn ystod Marathon Eryri. Casglodd tîm Caru Eryri gyfanswm o 1426kg o sbwriel ar eu patrolau. Mae'r rhaglen hefyd yn parhau i bartneru â grŵp cymorth ym Mangor ar gyfer ffoaduriaid yn bennaf o Syria, Affganistan, a'r Wcráin, i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli rheolaidd. Mae'r fenter hon yn darparu ffordd i ffoaduriaid gysylltu â'u hamgylchedd newydd a dod o hyd i ymdeimlad o berthyn trwy weithgareddau ystyrlon.

Nod ymgysylltu pobl ifanc yng ngwaith cadwraeth yr Awdurdod yw ysbrydoli, addysgu a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb yn y genhedlaeth iau, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan weithredol wrth warchod yr amgylchedd naturiol wrth ddatblygu sgiliau gwerthfawr.

Yn 2024, recriwtiodd ein rhaglen Ceidwaid Ifanc 11 o gyfranogwyr brwdfrydig newydd a gychwynnodd ar daith o antur awyr agored a chadwraeth. Yn ogystal, rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu'n weithredol ag amrywiol grwpiau ieuenctid ar dasgau cadwraeth trwy Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd, grwpiau Dug Caeredin, Prosiect Partneriaeth Tirweddau Carneddau yn ogystal ag amrywiol Gydweithrediadau Prifysgol. Fe wnaethom hefyd gymryd rhan ym Mhrosiect Symud Mynyddoedd unwaith eto, sydd wedi'i gynllunio i gysylltu, cefnogi ac ysbrydoli ceiswyr lloches ifanc a ffoaduriaid o ganol dinasoedd, trwy ymweliadau misol ag Eryri i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cadwraeth.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2024.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gyda APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau'r ucheldir. | Bydd rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a'u llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:**

**Uwchraddio Llwybrau Hygyrch Dôl Idris:** Mae gwaith wedi'i gwblhau i uwchraddio 1.2km sy'n addas i bobl o bob gallu. Fel rhan o'r gwaith, defnyddiwyd cerrig o chwarel Arthog i greu llwybr gydag arwyneb addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

**Uwchraddio Pwyntiau Mynediad Llyn Tegid:** Mae uwchraddio pwyntiau mynediad Llyn Tegid gan gynnwys Rhiw Bryn Du a Llanycil wedi'i gwblhau. Mae'r rhain yn safleoedd pwysig er mwyn cynnig cyfleoedd hamdden i bobl sy'n defnyddio Llyn Tegid ar gyfer amrywiol weithgareddau dŵr fel pysgota, padlo, hwylio, canŵio ac ati.

**Pont Newydd Llwyr Tŷ Nant:** Gosodwyd pont newydd 8m o hyd ar lwybr Tŷ Nant. Yn anffodus, roedd yr hen bont (cyfres o bibellau concrit) yn achosi i ddŵr orlifo gan achosi difrod sylweddol i wyneb y llwybr. Drwy osod pont newydd mae'n gwella llif naturiol yr afon ac yn cynnig profiad gwell i gerddwyr sy'n penderfynu mentro i fyny Cader Idris.

**Llwybr Mawddach:** Un o'r llwybrau mwyaf poblogaidd yn Ne Eryri yw Llwybr Mawddach. Mae gwaith ail-wynebu wedi'i gwblhau i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i bobl o bob gallu.

**Pont Lôn Gwyrfai, Rhyd Ddu:** Mae gwaith wedi'i wneud i ailosod y byrddau decio a'r trawstiau eistedd pren ar hyd y bont aml-ddefnyddiwr boblogaidd hon. Roedd hyn mewn ymateb i'r hen fyrddau pren yn dangos arwyddion o bydredd.

**Bwlch y Moch – Cam 1:** Mae cam cychwynnol prosiect Bwlch y Moch ar Lwybr Pyg i fyny'r Wyddfa wedi'i gwblhau. Adeiladwyd wal gerrig sy'n gorgyffwrdd, a fyddai'n tywys cerddwyr ar hyd Llwybr Pyg yn hytrach na dringo Crib Goch mewn camgymeriad. Mae hyn wedi profi i fod yn llwyddiant ysgubol, fel y gellir ei ddangos gan nifer y cerddwyr sydd bellach yn mynd heibio fynedfa Crib Goch heb sylweddoli.

**Hen A5 – Capel Curing:** Mae Tîm Llwybrau Mynediad wedi treulio amser yn atgyweirio'r lefelau uchel o erydiad a difrod dŵr ar y llwybr aml-ddefnyddiwr poblogaidd hwn. Roedd difrod stormydd y gaeaf wedi arwain at sianeli dwfn yn ffurfio yn y llwybr, a chafodd hynny effaith ar addasrwydd a dymunoldeb y llwybr fel llwybr aml-ddefnyddiwr.

**Llwybrau Ceffylau Cwm Pennant:** Mae gwasanaeth y Wardeniaid wedi comisiynu contractwyr i ailosod giatiau diffygiol a thoredig ar hyd sawl llwybr ceffylau ym mhen draw Cwm Pennant. Y canlyniad terfynol yw cyfres o giatiau metel sy'n cau eu hunain, sydd nid yn unig yn gwella mynediad, ond hefyd yn cynorthwyo perchnogion tir i reoli da byw.

**Cwm Marchnad – Rhyd Ddu**: Mae tîm Llwybrau Mynediad wedi ymgymryd â gwaith atgyweirio brys i ailagor draeniau croes ac atgyweirio difrod i'r llwybr yn dilyn tirlithriad gaeaf. Maent hefyd wedi bod yn atgyweirio difrod dŵr i lwybrau eraill yn y cyffiniau, yn enwedig yn Ffridd Uchaf, Bwlch Maesgwm ac ar Lôn Gwyrfai ei hun. Mae eu hymyrraeth amserol yn sicrhau bod y llwybrau poblogaidd hyn yn parhau ar agor ac yn hygyrch i'w defnyddwyr.

**Difrod Storm:** Mae'r Wardeniaid wedi ymgymryd â llawer iawn o waith clirio coed yn dilyn y difrod a achoswyd gan stormydd y gaeaf diwethaf, sef Darragh ac Eowyn. Maen nhw wedi clirio coed o nifer o safleoedd, gan gynnwys Coed Hafod, Coed Bryn Brethynau a Lôn Gwyrfai, gan sicrhau bod y llwybrau hyn yn gallu aros ar agor. Mae'r Wardeiniaid yn cynorthwyo'r gymuned ar adegau gyda chlirio coed ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus, er enghraifft llwybr troed poblogaidd yn Nhrefriw, a rhan o gysylltiadau Cymunedol Carneddau. Mae'r math hwn o waith yn aml yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned leol, fel y dangoswyd yn yr enghraifft benodol hon.

**Gwelliannau llwybr troed Eilio i Siglen:** Trefnodd y gwasanaeth Wardeiniaid a Mynediad welliannau i ddarn mawr o lwybr Carneddau trwy osod cerrig camu drosodd a cherrig pitsio ar lwybr rhwng Eilio a Siglen. Roedd y gwaith hwn yn angenrheidiol i wella hygyrchedd dros dir gwlyb a mwdlyd iawn. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys disodli camfeydd ysgol gyda giatiau haearn hunan-gau, sydd nid yn unig yn cynnig gwelliant amlwg yn ein nod o sicrhau 'mynediad lleiaf cyfyngol', ond hefyd yn cysylltu â threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.

**Coed Hafod y Llan, Llanbedr:** Mae ein Tîm Llwybrau Mynediad wedi bod yn gweithio ar y cyd â'n hadran Goedwigaeth i ailagor cyfres o lwybrau caniataol cylchol yn ein heiddo ein hunain yng Nghoed Hafod y Llan. Mae hyn, ynghyd â phwynt mynediad gwell a byrddau gwybodaeth, yn rhoi cyfle gwych i'r gymuned leol fwynhau harddwch a thawelwch y coetir hwn.

**Llwybr Cylchol Abergwyngregyn:** Yn ddiweddar, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i uwchraddio llwybr troed cyhoeddus ym mhentref Abergwyngregyn trwy greu llwybr agregau llyfn a disodli camfeydd â gatiau metel sy'n cau eu hunain. Nod y prosiect oedd darparu llwybr mynediad diogel a haws i'r cyhoedd ei ddefnyddio, fel y gallant gwblhau taith gerdded gylchol gan ddefnyddio'r hawliau tramwy o fewn y gymuned.

| |
|---|
| Mae'r gwaith parhaus hwn gan y Wardeiniaid a'r Tîm Llwybrau Mynediad bob amser yn gweithio i ethos 'mynediad lleiaf cyfyngol', e.e. ymdrechu i ddisodli camfeydd ysgol â gatiau sy'n cau eu hunain lle bynnag y bo modd, fel ffordd o wella mynediad i gynifer o bobl â phosibl. |

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio o gymdeithas, gan nodi'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn gyntaf. | Unwaith y nodir y rhwystrau, gellir datblygu Cynllun i oroesi'r rhwystrau a chynyddu'r lefelau cyfranogi. | Pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**Adroddiad Diweddaru 2024/25**:

Yn ogystal â'r diweddariadau blaenorol a ddarparwyd o dan ffrydiau gwaith eraill yn yr adroddiad hwn, mae'r gwasanaeth llogi tramper hefyd yn parhau i ffynnu.

Mae'r bartneriaeth rhwng APCE a Forest Holidays yn parhau, gan arwain at gydweithrediad sydd o fudd i'r ddwy ochr. Prif amcan y bartneriaeth hon yw gwella gwasanaeth llogi Trampyr, gan ei wneud yn fwy hygyrch ac effeithlon i ddefnyddwyr. Mae system archebu ar-lein newydd wedi'i datblygu, sy'n darparu mynediad a rennir i APCE a Forest Holidays i weld archebion sydd ar ddod. Mae'r system hon wedi gwella gwasanaeth cwsmeriaid yn sylweddol trwy awtomeiddio e-byst cadarnhau, e-byst atgoffa, ac e-byst adborth dilynol, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu i ddefnyddwyr cyn iddynt archebu. Mae'r awtomeiddio hwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar amser staff ac argaeledd. Mae'r system archebu yn gorfodi cyfnod rhybudd o bedair wythnos ar gyfer archebion, gan ganiatáu i'r gwasanaeth warden drefnu eu rhaglen waith yn effeithiol. Mae'r gwelliannau wedi arwain at adborth cadarnhaol a defnyddiol iawn gan y rhai sy'n llogi'r Trampyr.

Mae gwaith mynediad y Parc Cenedlaethol yn parhau gyda chynnal a chadw, gwelliannau a datblygu teithiau a hyrwyddir.

Yn ogystal, mae gwaith partneriaeth rhwng y Tirweddau Gwarchodedig yng Nghymru, dan arweiniad a chydlyniad yr Arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Rhagoriaeth Llywodraethu, yn parhau i wireddu'r weledigaeth a'r nodau a rennir ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae gwaith hefyd yn parhau gyda Grŵp Gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Parciau Cenedlaethol y DU i adeiladu gweledigaeth gynhwysol a grëwyd ar y cyd o'r hyn y mae perthyn yn ei olygu, gyda gwaith parhaus gyda thîm Partneriaeth Tirweddau Gwarchodedig o amgylch mentrau ar y cyd yn y DU i yrru camau gweithredu'r weledigaeth trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, sioeau teithiol recriwtio, a ffyrdd o gasglu data ymwelwyr i adlewyrchu cynnydd.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o’r gwaith i gyflawni’r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gweithio hefo cymunedau i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. | Mae cymunedau ar ffin y Parc Cenedlaethol yn enwedig y rhai sy’n anodd eu cyrraedd, yn cael eu nodi a’u cynnwys er mwyn cyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**Adroddiad Diweddaru 2024/25:**

Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd. Mae'r swyddogion/gwasanaethau perthnasol yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer modiwlau newydd. Mae'r cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae dros 1,200 o bobl bellach wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri.

Gwaith parhaus – mae gwaith wedi'i gwblhau ar gyfer modiwl ail-gymhwyso ar gyfer 2025 ac wedi'i lansio. Bydd modiwl ar Gynllun y Carneddau yn mynd yn fyw ddechrau 2025 a bydd modiwl penodol ar negeseuon diogelwch a Mentrau’n Gall yn cael ei lansio yn 2025.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Parhau i hyrwyddo a chynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol. | Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd bod pob gwasanaeth ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a’r holl staff. |

**Adroddiad Diweddaru 2024/25:**

Mae 95.6% o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn newis iaith y cyhoedd.

Mae cael canran mor uchel o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Wedi dweud hynny, y risg fwyaf i'r Awdurdod o hyd yw'r gallu i recriwtio staff â chymwysterau addas sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg i'r lefel ofynnol ar gyfer swyddi gwag.

Mae'r Awdurdod yn parhau i sicrhau bod pob cyfarfod rhithiol, pwyllgor, digwyddiad a gweminar yn gallu cael cyfleusterau cyfieithu llawn yn yr un modd â chyfarfodydd personol blaenorol.

Mae’r Ysgwrn yn parhau i gynnig cyfleoedd i gymdeithasu drwy’r Gymraeg, drwy wirfoddoli, mynychu digwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o brosiectau a rhaglenni ymgysylltu Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a chynllun Harlech ac Ardudwy.<br><br>Mae gwirfoddolwyr Yr Wyddfa yn cael eu paru yn ôl gallu ieithyddol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith. Mae'r Ysgwrn yn ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau safle gan gynnwys gwirfoddoli.<br><br>Mae'r holl weithgareddau hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yng ngwaith bob dydd yr Awdurdod. Rydym bob amser wedi gweithio ar y sail bod gwasanaethau Cymraeg bob amser ar gael heb orfod gofyn amdanynt. | | | |
| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
| Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd a lles y cyhoedd. | Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r holl staff. |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2024/25</u>:**<br><br>Yn y cyfnod cyn ac yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth HIV a gynhaliwyd o'r 18fed i'r 24ain o Dachwedd 2024, cynhaliodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC) ymgyrch hyrwyddo addysgol a chodi ymwybyddiaeth trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol ar bwysigrwydd Profi am HIV ac ar fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â HIV.<br><br>Cynhaliwyd yr ymgyrch hon mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac roedd yn cynnwys grwpiau cymunedol a thrydydd sector yn ogystal ag awdurdodau cyhoeddus. | | | |

**Amcan:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a hygyrchedd at gyfiawnder**.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb, yn enwedig yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb gyda'n partneriaid yng Ngogledd Cymru | Mi fydd un neges gyson, wedi ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, ar draws gogledd Cymru yn cael mwy o effaith o lawer. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **Adroddiad Diweddaru 2024/25:**<br><br>Cynhaliwyd yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb rhwng yr 12fed a 19eg o Hydref 2024.<br><br>Cynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gydgysylltiedig gan holl bartneriaid sector cyhoeddus gogledd Cymru (sy'n cynnwys yr Awdurdod) yn ystod y cyfnod hwn, a ddefnyddiwyd delweddau a negeseuon cyson i atgyfnerthu negeseuon allweddol o ran nodi ac adrodd am droseddau casineb.<br><br>Yn ogystal, cynhaliodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN) ymgyrch hyrwyddo addysgol a chodi ymwybyddiaeth trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, Diwrnod Gwrth-gaethwasiaeth, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, a thrwy gydol Mis Hanes Pobl Dduon. | | | |

**Amcan:** Mynd i'r afael ag **anfantais economaidd-gymdeithasol** trwy gynnig gwasanaethau cynhwysol i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda sefydliadau eraill o'r sector gyhoeddus er mwyn rhannu ymarfer da. | Bydd hyn yn galluogi rhannu syniadau ac ymarfer da er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu'r ddyletswydd yn gywir. | Pawb | Tîm Rheoli & Phenaethiaid Gwasanaeth |
| **Adroddiad Diweddaru 2024/25:**<br><br>Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, lle rhennir arfer gorau a lle mae cefnogaeth a chyngor bob amser ar gael gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Wrth i amser ac adnoddau ganiatáu, gwneir gwaith a phrosiectau ar y cyd hefyd fel y gall pob sefydliad yn y sector cyhoeddus wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau cyfyngedig. | | | |

**Amcan:** Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth staff ac Aelodau ar amrywiol faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC). | Bydd hyn yn sicrhau bod staff ac Aelodau yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. | Pawb | Arweinydd Strategol Rhagoriaeth mewn Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu |
| **Adroddiad Diweddaru 2024/25:**<br><br>Anfonir cylchlythyrau rheolaidd at bob aelod o staff yn nheulu Tirweddau Cymru gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o faterion CAC (EDI), a lle bo'n berthnasol i ddarparu manylion am adnoddau dysgu ar-lein yn ogystal â hyfforddiant sydd ar gael. | | | |

| |
|---|
| Yn ystod y flwyddyn, rhannwyd amrywiol wybodaeth ac adnoddau yn ystod mis Balchder, gan gynnwys gwybodaeth am y Rhwydwaith LGBTQ+ Gwledig. Nod y Rhwydwaith yw rhoi llais i bobl LGBTQ+ a'u cynghreiriaid, gyda'r nod cyffredinol o gael sefydliadau gwledig, colegau a busnesau i wneud yn hysbys eu bod yn lleoedd croesawgar i bobl LGBTQ+.<br><br>Fel rhan o Hanes Du 365, menter blwyddyn o hyd a drefnwyd gan Gyngor Hil Cymru i ddathlu cyfraniad y gymuned Ddu at hanes Cymru; rhoddodd Cadeirydd Hanes Du 365 gyflwyniad i Seminar Parciau Cenedlaethol Cymru 2024, a oedd â thema Tirweddau i Bawb. Yn ogystal, rhannwyd amrywiol adnoddau eraill ymhlith y staff hefyd. Gobeithir, trwy ehangu'r ffocws y tu hwnt i Fis Hanes Du traddodiadol, y bydd y rhaglen yn anelu at gynnig llwyfan ar gyfer ymgysylltu, cydnabod a dathlu tapestri cyfoethog hanes a diwylliant Du ar draws amrywiol ranbarthau Cymru drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Yn ogystal, mae Hwb Adnoddau – Agored i Bawb ar gael i'r holl staff, sy'n cynnwys canllaw digwyddiadau hygyrch, canllawiau datganiadau mynediad, cymorth hawdd ei ddarllen, llyfrgell ddelweddau i gynyddu cynrychiolaeth, astudiaethau achos ac arfer gorau.<br><br>Lansiwyd Tirlun hefyd yn 2024 – adnodd dysgu i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddysgu am dirweddau a'r awyr agored drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o dirwedd a natur. |

| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
|---|---|---|---|
| Darparu cefnogaeth a (lle bo hynny'n berthnasol) hyfforddiant i staff ar sicrhau bod eu Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb yn gadarn. | Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

| |
|---|
| <u>**Adroddiad Diweddaru 2024/25**</u>:<br><br>Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fel arfer yn gweithio gydag aelodau staff unigol perthnasol ar ddatblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun, y Polisi, neu'r Strategaeth sy'n cael ei adolygu neu ei ddatblygu ac ar unrhyw Benderfyniad Strategol sy'n cael ei wneud. Mae hyn yn sicrhau cyn belled ag y bo modd, bod yr asesiadau mor gadarn ag y gallant fod, a lle bo'n berthnasol hefyd yn cynnwys asesiad cadarn o effaith economaidd-gymdeithasol ar Benderfyniadau Strategol.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, nodwyd y ffordd y mae'r Awdurdod yn cynnal yr Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg annibynnol fel arfer da gan Gomisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer roi cyflwyniad yn seminar 'Prif Linellau Ymholi: Safonau Llunio Polisi' Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2024. |

## 5. Hyfforddiant

Mae modiwlau dwyieithog ar-lein ar gael ar ELMS ar y pynciau canlynol i staff:

- Urddas a Pharch yn y Gwaith
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gwaith
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Cynhwysiant Niwroamrywiaeth
- Cyflwyniad i Iechyd a Diogelwch
- Cyflwyniad i Gymorth Cyntaf
- Bwlio ac Aflonyddu
- Ymwybyddiaeth o Straen

## 6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau ar waith i sgrinio ac asesu effaith unrhyw strategaethau, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion newydd neu ddiwygiedig neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 9 asesiad sgrinio, a dim ond 2 oedd angen asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Islaw mae crynodeb byr o'r asesiad effaith cydraddoldeb llawn a gynhaliwyd.

Prosiect Ardaloedd Gadwraeth: Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli

Mae'r prosiect yn cynnwys gwerthusiad o'r 14 Ardal Gadwraeth, a chynhyrchu 14 Cynllun Rheoli Cadwraeth wedi hynny gydag argymhellion ar gyfer gweithredu o ran cynnal a chadw, atgyweirio ac ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

Gallai'r prosiect gael effaith uniongyrchol ar bob eiddo preswyl a busnes, a fyddai yn ei dro yn cael effaith uniongyrchol ar y rhai sy'n byw ac yn gweithio o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Eryri. Oherwydd hyn, cynhaliwyd asesiad effaith llawn.

Ymysg pethau eraill, cynhaliwyd asesiad o'r broses ymgysylltu ac ymgynghori, a chanfu fod y broses ymgysylltu wedi mynd y tu hwnt i'r gofyniad deddfwriaethol. Gobeithiwyd y byddai hyn yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol a phartïon â diddordeb yn ymwybodol o'r bwriad ac yn cael digon o gyfle i leisio eu barn trwy'r dulliau priodol.

Y Gwerthiant Posibl o Blas Tan y Bwlch
Ym mis Gorffennaf 2024, rhoddwyd safle cyfan Plas Tan y Bwlch gan gynnwys Llyn Mair a'r Coedlannau ar werth ar y farchnad agored. Dilynodd hyn flynyddoedd o waith aflwyddiannus i ddod o hyd i ateb cynaliadwy hirdymor i gynnal gweithgareddau craidd a chynhyrchu incwm i sicrhau'r safle.

Bu i’r asesiad effaith adnabod yr holl unigolion a grwpiau a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y gwerthiant ac i ba raddau trwy ddadansoddiad manwl o'r data oedd ar gael. Nodwyd bod cynnwys Llyn Mair a'r coedlannau a'r llwybrau cyfagos fel rhan o'r gwerthiant â'r potensial i gael yr effaith gyffredinol fwyaf ar y gymuned leol. Gan fod perchnogaeth Llyn Mair a'r coedlannau yn cyd-fynd yn uniongyrchol nid yn unig ag Amcanion Llesiant yr Awdurdod ond hefyd â dibenion y Parc Cenedlaethol, felly nodwyd bod ei waredu â'r potensial i fod yn anghydnaws â'n dibenion ni. Cadarnhaodd yr ymatebion ymgynghori cyhoeddus dilynol yr effaith negyddol.

Daeth yr asesiad effaith i'r casgliad y dylai'r Awdurdod roi ystyriaeth bellach i'r agwedd hon ar y gwerthiant, ac ystyried hyfywedd ac ymarferoldeb yr holl opsiynau sydd ar gael i sicrhau mynediad parhaol i lwybrau troed o amgylch Llyn Mair ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## 7. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae’r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodweddion a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
    - Swydd
    - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
    - Tâl
    - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
    - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda’r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu’n llwyddiannus â’u cais a sawl un a fethodd
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â’u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau’r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu’n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn o / hi
- Gweithwyr a fu’n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â’r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

## Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2025 = 136

### Proffil oedran

| | |
|---|---|
| 24 a iau | 7 |
| 25 – 34 | 25 |
| 35 – 44 | 31 |
| 45 – 54 | 31 |
| 55 – 64 | 33 |
| 65 a throsodd | 9 |

### Dosbarthiad Benywod / Gwrywod

| | |
|---|---|
| Benywod | 73 |
| Gwrywod | 63 |

Mae 4% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl a / neu gyda nam.

Roedd 2 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Tsieineaidd).

O achos y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae’r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a’r math o gontract ar 31.03.2025 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd wahanol o fewn y graddfeydd):

| | | **Patrwm Gwaith** | | | | | | **Math o Gontract** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Amser llawn** | | **Rhan amser** | | **Hyblyg** | | **Parhaol** | | **Dros Dro** | | **Tymor Penodol** | |
| **Graddfa** | **Tâl/ Awr** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** |
| MW | £11.44 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 1 | £12.36 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2 | £12.65 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 3 | £13.05 | 1 | 1 | 6 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 6 | 2 |
| 4 | £13.26 | 1 | 3 | 13 | 4 | 0 | 0 | 9 | 7 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| 5 | £14.39 | 6 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 8 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 6 | £15.68 | 5 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 5 | 3 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| 7 | £16.88 | 9 | 10 | 2 | 1 | 0 | 0 | 6 | 10 | 0 | 0 | 5 | 1 |
| 8 | £18.72 | 6 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 14 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 9 | £20.48 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 10 | £21.52 | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 4 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 11 | £22.65 | 4 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 12 | £23.70 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 13 | £24.75 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 14 | £25.79 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 | £27.37 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prif Swyddog – Cyfarwyddwr | £35.62 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | £42.57 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Prif Swyddog – Prif Weithredwr | £46.73 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda’r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

O’r ymgeiswyr sydd wedi llenwi ffurflenni monitro:

## Ffurflenni Cais – 359

4 – Rhyw wedi'i adael yn wag
4 – Heb ateb naill ai ethnig na rhyw

## Tarddiad Ethnig

| | |
|---|---|
| 332 | Gwyn |
| 5 | Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd |
| 1 | Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd |
| 3 | Cymysg - Gwyn ac Asiaidd |
| 4 | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd |
| 4 | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd - Indiaidd |
| 2 | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd – Pacistanaidd |
| 1 | Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig |
| 3 | Gwell gennyf beidio â dweud |

## Rhyw

| | |
|---|---|
| 228 | Gwryw |
| 121 | Benyw |
| 2 | Arall |

## Anabledd

33 ymgeisydd gyda nam yr hoffent roi gwybod amdano

## Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

| | Ceisiadau | Penodiadau |
|---|---|---|
| Gwryw | 3 | 3 |
| Benyw | 5 | 3 |
| Cyfanswm | 8 | 6 |

## Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

Gwnaed 56 o geisiadau gan fenywod a oedd yn llwyddiannus wrth fynychu eu hyfforddiant.
Gwnaed 86 o geisiadau gan ddynion a oedd hefyd yn llwyddiannus wrth fynychu eu hyfforddiant (gwnaeth rhai staff gais a mynychu ar fwy nag un achlysur).

## Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi

| | |
|---|---|
| Benyw | 1 |
| Gwryw | 1 |
| Cyfanswm | 2 |

## Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Nid oedd unrhyw aelodau staff a oedd yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod y cyfnod hwn.

## Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

| | |
|---|---|
| Benyw | 17 |
| Gwryw | 15 |
| Cyfanswm | 32 |

**Eitem Rhif 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **PWRPAS** | Cynllun Archwilio Diwygiedig 2025/26 |

## 1. CYFLWYNIAD a CHYD-DESTUN

**Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Gyhoeddus y DU**

1.1 Mae Safon 9.4 Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn nodi ***"rhaid i'r prif weithredwr archwilio greu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad."***

1.2 Mae gan y Rheolwr Archwilio gyfrifoldeb am adolygu ac addasu'r cynllun archwilio mewnol, yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a rheolaethau'r Awdurdod ynghyd â chyfathrebu â'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddu a'r uwch swyddogion os oes newidiadau interim sylweddol i'r cynllun archwilio blynyddol.

## 2. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26

2.1 Mae cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 wedi ei ddatblygu ar sail y Siarter Archwilio Mewnol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar ran yr Awdurdod.

2.2 Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun ar gyfer 2025/26 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2025, mynegwyd gan yr aelodau "*er bod y cynllun gwaith am 25/26 yn hawlio ei fod wedi ei seilio ar ddadansoddiad o risgiau, nad oedd sôn yn yr adroddiad am unrhyw ddefnydd o ymgynghorwyr, ac awgrymwyd y gellid plethu rhai o risgiau uchel Proffil Risg yr Awdurdod i'r adroddiad yma.*"

2.3 Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2025, cyfarfu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol â'r Pennaeth Archwilio Mewnol i ail-ymweld, trafod a chytuno'r cynllun gwaith.

2.4 Yn seiliedig ar y drafodaethau am Broffil Risg yr Awdurdod ymysg aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth, cynigiwyd y risgiau isod i'w plethu i waith Archwilio Mewnol am 2025/26:

- Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod
- Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch

2.5 Gweler yn y tabl isod y Cynllun Archwilio Diwygiedig ar gyfer 2025/26:

| Archwiliad | Cynllun (Dyddiau) | Rheswm |
|---|---|---|
| Rheoli Prosiectau | **13** | Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod a risg o gyfleoedd ariannol yn cael eu colli. |
| Plas Tan y Bwlch | **13** | Gallai dyfodol Plas Tan y Bwlch (boed hynny ar gyfer gwerthu neu gadw) greu risg ariannol sylweddol uwch a niwed i enw da. |
| Gwaith Dilyniant | **2** | Dilyniant i archwiliadau 2024/25. |
| *Eraill:* | | |
| Rheolaeth a Phwyllgorau | **2** | Amser wedi ei neilltuo i swyddogion Archwilio Mewnol fynychu pwyllgorau'r Awdurdod ac i reoli gwaith. |
| ***Cyfanswm*** | **30** | |

2.6 Bydd y cynllun archwilio yn parhau i fod yn hyblyg i adlewyrchu unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Awdurdod . Bydd unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau i'r Cynllun yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

## 3. GOBLYGIADAU ADNODDAU

3.1 Ni fydd oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad yma.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Cynllun Archwilio Addasedig ar gyfer cyfnod cyfrifo 2025/26, ac unai ddarparu argymhellion penodol perthnasol a/neu dderbyn y cynllun

**Eitem Rhif 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Iechyd a Diogelwch: Adroddiad Blynyddol 2024-25** |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog Iechyd a Diogelwch |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ynghylch rheoli iechyd a diogelwch o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

## 1. CEFNDIR a CHYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu sut y bu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rheoli iechyd, diogelwch a lles o Ebrill 2024 i Fawrth 2025. Mae'n rhoi sicrwydd fod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu staff, gwirfoddolwyr, contractwyr a'r cyhoedd. Mae'r Awdurdod yn dilyn fframwaith HSG65 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ('Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu') i wreiddio diogelwch fel rhan o ddiwylliant a llywodraethu'r sefydliad.

## 2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- Mynychodd 131 aelod o staff hyfforddiant; cwblhawyd 426 cwrs e-ddysgu.
- Dim digwyddiadau RIDDOR i'w hadrodd; 26 digwyddiad i gyd.
- 1,279.5 diwrnod gwaith wedi'u colli yn 2024; 47% oherwydd iechyd meddwl.
- Parhau i ariannu Iechyd Galwedigaethol, y Rhaglen Cymorth Gweithwyr (360 Wellbeing) ac e-ddysgu dwyieithog.
- Angen adnoddau ychwanegol i ddatblygu rhaglen archwilio fewnol ac i wella systemau adrodd data absenoldeb drwy 'My Options.'

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod yr Aelodau'n:

- Nodi'r perfformiad cryf parhaus ym maes iechyd, diogelwch a lles.
- Cefnogi'r camau gwelliant canlynol:
  - Datblygu fframwaith archwilio fewnol.
  - Gwella defnydd o systemau data absenoldeb.
  - Gweithredu canfyddiadau Arolwg yr Offeryn Dangosydd Straen, yn enwedig o ran llwyth gwaith a chyfathrebu.
  - Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a chefnogaeth lles staff.

## 4. PAPURAU CEFNDIROL

- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSG65) – *Rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch*
- System Rheoli Iechyd a Diogelwch Awdurdod Eryri (HSMS)
- Arolwg Offeryn Dangosydd Straen (SIT) 2025
- Data Absenoldeb AD

# Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2024-25

## Cynnwys

1. Diben ........ 3
2. Dull Rheoli Iechyd a Diogelwch ........ 3
3. Llywodraethu a Chyfrifoldebau ........ 4
4. Grŵp Iechyd a Diogelwch ........ 4
5. System Rheoli Iechyd a Diogelwch (SRhUD) ........ 4-5
6. Hyfforddiant Staff ........ 5
    6.1 Crynodeb ........ 5
    6.2 E-ddysgu (Platfform ELMS) ........ 5-6
7. Data Digwyddiadau ........ 6
    7.1 Crynodeb ........ 6
    7.2 Categorïau Digwyddiadau ........ 7-8
    7.3 Digwyddiadau yn ôl Lleoliad ........ 8-9
    7.4 Data Ymwelwyr ........ 9
8. Absenoldebau a Iechyd ........ 9
    8.1 Cyfanswm y Dyddiau Gwaith a Gollwyd (Cyfanswm) ........ 9
    8.2 Diwrnodau Gwaith a Gollwyd Oherwydd Iechyd Meddwl (Straen, Pryder, Anhwylder ac Iselder) ........ 10
    8.3 Mewnwelediadau Allweddol ........ 10
    8.4 Camau Gweithredu a Gwelliannau ........ 10
9. Arolwg Offeryn Dangosydd Straen (ODS) ........ 11
10. Casgliad ........ 11

## 1. Diben


Diben yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau o sut y mae iechyd, diogelwch a lles wedi cael eu rheoli o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystod y flwyddyn adrodd Ebrill 2024 – Mawrth 2025, a rhoi sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i amddiffyn staff, gwirfoddolwyr, contractwyr ac aelodau'r cyhoedd.

## 2. Dull Rheoli Iechyd a Diogelwch

Mae Iechyd a Diogelwch yn fater llywodraethu corfforaethol ac yn rhan annatod o ddiwylliant, gwerthoedd a safonau perfformiad yr Awdurdod.

Mae System Rheoli Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod yn cynnwys elfennau allweddol o ddogfen ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch *HSG65 – Rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch*.

Mae fframwaith 'Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu' yn cyflawni cydbwysedd rhwng rheolaethau systematig a diogelwch ymddygiadol, gan ymgorffori rheoli iechyd a diogelwch fel rhan o arfer sefydliadol da yn hytrach nag fel swyddogaeth annibynnol.



## 3. Llywodraethu a Chyfrifoldebau

Y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros iechyd a diogelwch o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn staff, gwirfoddolwyr, contractwyr ac ymwelwyr.

Mae’r gwaith cydlynu o ddydd i ddydd yn rhan o'r Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n cynnwys AD, TG, Gweinyddiaeth, Eiddo, Cyllid, Cyfreithiol a Chyfathrebu. Mae hyn yn sicrhau bod iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys ym mholisïau'r Awdurdod, rheoli pobl, a rheoli ystadau.

Mae'r Swyddog Iechyd a Diogelwch yn darparu cyngor, canllawiau a monitro ar draws pob adran, gan gefnogi rheolwyr i gynnal systemau gwaith diogel a hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol.

Darperir goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, sy'n derbyn diweddariadau rheolaidd a'r adroddiad blynyddol hwn i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ac yn ysgogi gwelliant parhaus.

## 4. Grŵp Iechyd a Diogelwch

Cyfarfu'r Grŵp bob chwarter drwy gydol y flwyddyn a chynhaliodd gynrychiolaeth drawsadrannol dda. Cafodd camau gweithredu a gododd o gyfarfodydd blaenorol eu holrhain gan ddefnyddio log camau gweithredu byw.

## 5. System Rheoli Iechyd a Diogelwch (SRhID)

Yn ystod 2024–25, parhaodd yr Awdurdod i gryfhau ei ddull o reoli iechyd a diogelwch. Er nad oes rhaglen arolygu ffurfiol wedi'i chyflwyno eto, mae llwybr adrodd clir a dealladwy ar waith i staff a rheolwyr godi pryderon diogelwch, digwyddiadau a materion cynnal a chadw yn brydlon.

Mae'r llwybr hwn yn sicrhau bod unrhyw beryglon neu amodau anniogel a nodwyd yn ystod gweithrediadau dyddiol yn cael eu cyfleu i'r rheolwr perthnasol neu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch, a bod camau cywirol yn cael eu holrhain hyd at eu cwblhau.


Yn ogystal, mae'r adolygiadau asesu risg tân parhaus yn rhoi cyfle strwythuredig i ymweld â safleoedd, adolygu amodau'r gweithle, a nodi arsylwadau diogelwch ehangach. Ar hyn o bryd, yr adolygiadau hyn, ynghyd â'r system adrodd digwyddiadau, sy'n darparu'r prif fecanwaith monitro ar gyfer diogelwch yn y gweithle.

Gan edrych ymlaen, mae'r Awdurdod yn bwriadu adeiladu ar y sylfaen hon drwy ddatblygu fframwaith arolygu mewnol cymesur yn ystod 2025–26, a fydd yn ategu'r broses adrodd bresennol ac yn dangos gwelliant parhaus ymhellach.

# 6. Hyfforddiant Staff

## 6.1 Crynodeb

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mynychodd **131** aelod o staff gyrsiau hyfforddi mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch.




## 6.2 E-ddysgu (Platfform MS)

Mae'r Awdurdod yn parhau i wneud defnydd da o blatfform e-ddysgu ELMS y Parciau Cenedlaethol. Mae'r system yn cynnig ystod eang o gyrsiau iechyd a diogelwch y gall staff eu cwblhau ar amser sy'n addas i'w rôl a'u patrwm gwaith.

Mae e-ddysgu yn parhau i fod yn ffordd werthfawr a chymesur o lenwi bylchau hyfforddi, yn enwedig lle mae hyfforddiant mwy ffurfiol, yn yr ystafell ddosbarth, yn anodd ei drefnu neu na ellir ei gyfiawnhau'n llawn oherwydd pwysau gweithredol, patrymau gwaith tymhorol neu lefelau risg isel.

Yn ystod 2024-25, cwblhaodd staff yr Awdurdod gyfanswm o **426** o gyrsiau ELMS yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles. Mae'r platfform yn parhau i gefnogi dysgu ar sail gloywi a hyfforddiant ar lefel ymwybyddiaeth ar draws pynciau allweddol, gan gynnwys *cyflwyniad i iechyd a diogelwch, offer sgrin arddangos, gweithio ar eich pen eich hun,* a *rheoli straen yn y gwaith*.
Yn unol ag ymrwymiad yr Awdurdod i Safonau'r Iaith Gymraeg, mae pob cwrs yn cael ei gyfieithu a'i ddarparu'n fewnol yn y Gymraeg, gan sicrhau y gall staff gwblhau hyfforddiant iechyd a diogelwch hanfodol trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol. Mae'r dull hwn yn cefnogi cynhwysiant, hygyrchedd a nod ehangach yr Awdurdod i hyrwyddo darparu gwasanaethau dwyieithog.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod e-ddysgu yn gweithio orau pan gaiff ei ategu gan hyfforddiant ymarferol a goruchwyliaeth barhaus. Fel rhan o'r adolygiad parhaus o anghenion hyfforddi staff, bydd modiwlau ELMS yn parhau i gael eu defnyddio i atgyfnerthu ac adnewyddu dysgu rhwng cyrsiau mwy ffurfiol.


## 7. Data Digwyddiadau

### 7.1 Crynodeb


Yn ystod cyfnod adrodd 2024–25, cofnodwyd cyfanswm o 26 o ddigwyddiadau iechyd a diogelwch. O'r rhain, roedd 46% yn ddigwyddiadau, 31% yn ddamweiniau, a 23% yn ddamweiniau a fu bron a digwydd.

Yn bwysig, ni ddigwyddodd unrhyw ddigwyddiadau y dylid eu hadrodd o dan RIDDOR yn ystod y flwyddyn.

Mae'r siart isod yn dangos y dadansoddiad cyfrannol o fathau o ddigwyddiadau, gan amlygu bod adrodd ar ddigwyddiadau bron â digwydd yn parhau'n gryf, gan gefnogi rheoli risg rhagweithiol ac ymyrraeth gynnar.



## 7.2 Categorïau Digwyddiadau




Roedd y 26 digwyddiad iechyd a diogelwch a gofnodwyd yn 2024–25 yn cwmpasu ystod o gategorïau, gyda Pheryglon Llithro, Baglu a Chwympo a Methiant Eiddo ac Offer yn gyfrifol am 19% o'r holl ddigwyddiadau.

Roedd digwyddiadau ymdrin â llaw, tân a larwm yn cynrychioli 30% pellach, gan adlewyrchu anafiadau mân ac actifadu systemau yn hytrach na niwed difrifol.


Roedd digwyddiadau diogelwch a diogelwch amgylcheddol/diogelwch y cyhoedd gyda'i gilydd yn cyfrif am tua 24% o'r cyfanswm, tra bod diogelwch a lles staff yn cyfrif am 8%.

Mae lledaeniad y mathau o ddigwyddiadau yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal trefn da, archwiliadau eiddo rheolaidd, ac ymwybyddiaeth barhaus staff – yn enwedig mewn lleoliadau anghysbell ac yn y maes.

| Categori | Cyfrif | % o'r Cyfanswm | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| *Peryglon Llithro, Baglu a Chwympo* | **5** | 19% | Cadw Tŷ / Rhwystr, Llithro/Baglu, Troi ffêr, Anaf i'r pen-glin |

| Categori | Nifer | % o'r Cyfanswm | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| *Ymdrin â Llaw ac Anaf Corfforol* | 4 | 15% | Anaf i'r cefn, Ysgwydd wedi'i dadleoli, Anaf gwasgu, Taro gan wrthrych |
| *Digwyddiadau Tân a Larwm* | *4* | *15%* | *Gweithrediadau larwm, Larwm tân, Tân cerbyd* |
| *Diogelwch a Diogelu* | *3* | *12%* | *Deunydd amheus, Bioberygl, Dilyniant larwm* |
| *Diogelwch Amgylcheddol a Chyhoeddus* | *3* | *12%* | *Achub dŵr, Bygythiad anifeiliaid, Ansawdd dŵr* |
| *Methiant Eiddo ac Offer* | **5** | 19% | Difrod strwythurol, Llifogydd, Methiant offer, Difrod i gerbydau |
| *Diogelwch / Llesiant Staff* | **2** | 8% | Diogelwch Staff (gwaith maes, gweithgareddau safle o bell) |
| ***Cyfanswm*** | **26** | **100%** | — |

## 7.3 Digwyddiadau yn ôl Lleoliad





Digwyddodd y nifer uchaf o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2024–25 ym Mhlas Tan y Bwlch a Lleoliadau Maes, pob un â saith digwyddiad.

Dilynodd Pencadlys Penrhyn a Llyn Tegid gyda phedwar a thri digwyddiad yn y drefn honno, tra bod yr holl safleoedd eraill wedi cofnodi llai na dau.
Mae'r dosbarthiad yn adlewyrchu graddfa'r gweithgaredd mewn safleoedd gweithredol ac anghysbell a'r diwylliant adrodd rhagweithiol ymhlith timau yn y maes.

### 7.4 Data Ymwelwyr

Mae'r siart isod yn dangos nifer bras yr ymwelwyr a fynychodd y tair Canolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol a'r Ysgwrn yn 2024–25 . Yn ystod y cyfnod hwn, adroddwyd am 2 ddigwyddiad a fu bron â digwydd, heb unrhyw ddigwyddiad anaf personol ar gyfer y safleoedd.




## 8 Absenoldebau ac Iechyd

Mae'r data canlynol yn cwmpasu'r cyfnod adrodd 1 Ionawr i 31 Rhagfyr, gyda'r tair blynedd ddiweddaraf wedi'u darparu at ddibenion cymharu.

### 8.1 Cyfanswm y Dyddiau Gwaith a Gollwyd (Yn ei gyfanrwydd)

| Blwyddyn | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Diwrnodau Gwaith a Gollwyd (Cyfanswm) | **1591** | **1838** | **1279.5** |

Ar hyn o bryd dim ond adroddiad absenoldeb sylfaenol y mae system rheoli absenoldeb yr Awdurdod (*Fy Opsiynau / My Options) yn ei gynhyrchu. Nid yw'r system yn cael ei defnyddio i'w llawn allu eto, gan nad yw rhesymau penodol dros absenoldeb yn cael eu cofnodi'n gyson.*

### 8. 2 Ddiwrnod Gwaith a Gollwyd Oherwydd Iechyd Meddwl (Straen, Pryder, Hwyliau Isel ac Iselder)

| Blwyddyn | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Diwrnodau Gwaith a Gollwyd (Iechyd Meddwl) | **204** | **716** | **608** |

### 8.3 Mewnwelediadau Allweddol

Yn 2024, Straen, Pryder ac Iselder (SPI) oedd prif achos absenoldeb o'r gweithle o hyd, gan gyfrif am 47% o gyfanswm y dyddiau gwaith a gollwyd, o'i gymharu â 39% yn 2023 a 13% yn 2022.

O'r cyfanswm hwn, priodolwyd 197 diwrnod i straen sy'n gysylltiedig â gwaith, sy'n cynrychioli 15% o'r holl absenoldebau ar gyfer y flwyddyn.

### 8.4 Camau Gweithredu a Gwelliannau

Fe wnaeth y cynnydd a welwyd rhwng 2022 a 2023 ysgogi'r Awdurdod i gymryd mesurau rhagweithiol, gan gynnwys:

- Cynnig atgyfeiriad i Iechyd Galwedigaethol i staff sy'n absennol oherwydd straen.
- Cefnogi rheolwyr, drwy Adnoddau Dynol, i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Llesiant (CGLlau) ar gyfer gweithwyr sy'n dychwelyd ar ôl absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen.
- Gweithredu asesiadau risg straen ar draws yr Awdurdod i nodi a lliniaru ffactorau straen posibl yn y gweithle.
- Parhau i gynnig mynediad i'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr – **Llesiant 360 Wellbeing** *(a gyflwynwyd yn 2023),* sy'n darparu cefnogaeth gyfrinachol i staff ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd meddwl, lles ariannol, materion teuluol, a phryderon yn y gweithle. Mae'r gwasanaeth ar gael 24/7 ac yn ategu mecanweithiau cymorth mewnol fel Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Llesiant Galwedigaethol.
- O fis Ebrill 2025 ymlaen, optimeiddio'r defnydd o'r system *Fy Opsiynau/My Options* i gasglu rhesymau cywir dros absenoldeb, gan alluogi dadansoddi tueddiadau a chymhariaeth hirdymor yn fwy effeithiol.

Mae'r camau gweithredu hyn yn tanlinellu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i hyrwyddo lles meddwl a defnyddio data i arwain atal.

## 9 Arolwg Offeryn Dangosydd Straen (ODS) 2025

Yn ystod 2024–25, cynhaliodd yr Awdurdod Arolwg **Offeryn Dangosydd Straen (ODS)** yr *Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID/HSE)* i asesu lefelau straen sy'n gysylltiedig â gwaith ar draws y sefydliad. Cymerodd cyfanswm o 67 aelod o staff ran, yn cynrychioli trawsdoriad eang o rolau, adrannau a lleoliadau gwaith.

Mesurodd yr arolwg saith ffactor allweddol y gwyddys eu bod yn dylanwadu ar straen yn y gwaith: ***Gofynion, Rheolaeth, Cefnogaeth (Rheolwr a Chyfoedion), Perthnasoedd, Rôl, a Newid*.**

Ar y cyfan, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol, gyda sgoriau cryf iawn ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid, perthnasoedd yn y gweithle, ac eglurder rolau, sy'n dangos bod staff yn gyffredinol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr a bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau.

Nodwyd meysydd i'w gwella o ran y Galw ar weithwyr (pwysau llwyth gwaith ac amser) a Newid (cyfathrebu ac ymgynghori yn ystod newid sefydliadol), a sgoriodd y ddau ychydig islaw'r meincnod ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus cymharol.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau, mae'r Awdurdod wedi sefydlu Grŵp Ffocws trawsadrannol i adolygu'r canlyniadau'n fanylach, nodi achosion sylfaenol, a datblygu camau gweithredu ymarferol i gryfhau lles a chydnerthedd ar draws y sefydliad.

## 10 Casgliad

Drwy gydol 2024–25, mae'r Awdurdod wedi cynnal ffocws cryf ar iechyd, diogelwch a lles staff, gan gyflawni:

- Dim digwyddiadau y mae angen eu hadrodd o dan RIDDOR.
- Cyfranogiad cynyddol mewn dysgu am iechyd a diogelwch.
- Dull sy'n seiliedig ar ddata o ddeall ac ymdrin ag absenoldeb a straen.

Mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu ymdrechion parhaus i adeiladu gweithle diogel, iach a chefnogol i'r holl staff a gwirfoddolwyr.

Eitem Rhif 9

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Adroddiad cynnydd Chwarter Cyntaf a'r Ail (Ebrill – Medi) 2025 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter cyntaf a'r ail o 2025 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

1.3 Er gwybodaeth, mae Amcan AC 1.10 [Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategeth Gyfathrebu'r Awdurdod sy'n weithredol ar gyfer 2026-203] wedi'i farcio'n goch gyda llithriad posibl ond bydd y Strategaeth yn cael ei fabwysiadu a'i weithredu erbyn canol 2026 fan bellaf.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Gorfforaethol ynghlwm.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26: Adroddiad Cynnydd ar y Chwarter Cyntaf a'r Ail yn 2025.

# AMCANION LLESIANT 2025-26 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Chwarter 1 a 2 : Ebrill – Medi 2025**

**Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi**

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.1 | (gwyrdd) | **Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2025** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1-2** | **Yr Awdurdod wedi arwain ar ymgyrch tymor ymwelwyr lwyddiannus gyda chymorth gan swyddogion tim Eryri Mynyddoedd a Mor Cyngor Gwynedd. Trefniadau mewn lle i gomisiynu fideos a lluniau allanol ar gyfer y gaeaf.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.2 | Ch. 1-2 | **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn Pen y Pass trwy uwchraddio'r cyfleusterau a dehongli i ymwelwyr:**<br>➢ Cwblhau a gosod gwelliannau i gyfleusterau dehongli Pen y Pass<br>**Dyluniad wedi ei gynllunio a'i osod.** | Ebrill 2025 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu Pen. Gwas. Wardeinio a Mynediad (WaM)<br>Swyddog Cyfathrebu |
| AC 1.3 | Ch. 1-2 | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2024**<br>**Adroddiad wedi ei chyhoeddi ac ar gael ar safle We'r Awdurdod** | Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Meh./Gorff. 2025 | Cyf. PaP<br>Pen. Partneriaethau |
| AC 1.4 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol**<br>**Uwchwardeiniaid yn y broses o flaenoriaethu gwaith mynediad ar draws Eryri** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas. WaM |
| AC 1.5 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri**<br>**Gwaith wedi'i ohirio i Chwarter 4.**<br>**-** | Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas. WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.6** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri**<br>**Bydd y gwaith yma'n cael ei gynllunio fel rhan o'r Strategaeth yn 1.5 uchod.** | Hydref. 2025 | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas.<br>WaM |
| **AC 1.7** | **Ch. 1 – 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn**<br>**Mae'r gwaith hwn yn digwydd yn rheolaidd drwy raglenni gwaith y Wardeiniaid Ardal a'r Swyddog Cefnogi Wardeiniaid. Bydd y gwasanaeth yn cyflwyno eitem i'r Tim Arweinyddiaeth yn Chwarter 4.**<br>**-** | Parhaus<br>Rhagfyr<br>2025 | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas.<br>WaM |
| **AC 1.8** | **Ch. 1 - 4** | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol**<br>**Gwaith yma'n parhau ac yn cael eu cynllunio yng nghynlluniau ardal Wardeniaid** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. WaM |
| **AC 1.9** | **Ch. 1- 4** | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid**<br>**Mae pob warden gyda cynllun ardal sy'n cael ei arolygu gyda'r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae'r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Mae'r gwaith hyn yn barhaus.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.10** | | **Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-2030** | Rhagfyr 2025 | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1 – 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Dim cynnydd hyd yn hyn, disgwylir i'r gwaith gychwyn yn Chwarter 4.** | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.1** | | **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd. Sicrhau bod newyd yn yr hinsawdd yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri** | **Adroddiad blynyddol** | Cyf. Rheoli Tir *Pen. RhDaCh Pen. Polisi Cynllunio |
| Adroddiad Blynyddol | | **Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLl presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLl i'r Aelodau ac yna i Lywodraeth Cymru bob Hydref, ac mae hyn wedi dod i'r casgliad y cydymffurfiwyd yn fras â'r polisiau hyn. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn yr adolygiad o'r CDLl yn 2025.** | | |

* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC)

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 2.2 | | Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Rhagfyr 2024) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel<br>➢ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau newydd o Rhagfyr 2024+ ymlaen | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Eiddo |
| | **Ch. 1- 2** | **Is-Grwp Asedau i gwrdd yn ystod Chwarter 3 i drafod y drafft ac adolygu portffolio. Dyddiadau wedi eu cylchu, angen argaeledd llawn y grwp gan bod nifer o aelodau newydd** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 2.3** | | **Adolygu'r Strategaeth Carbon ac ail gyflwyno i'r Aelodau yn diweddaru ar unrhyw gynnydd/newid** | 2025 | Pen. Cynllunio a Phartner.<br>Pen. Partn.<br>Swyddog Carbon |
| | **Ch. 1- 2** | **Mae Strategaeth Carbon yn cael ei gynhyrchu ar ran yr Awdurdod – bydd papur yn mynd gerbron y Tim Arweinyddiaeth i gytuno cyfeiriad gwaith y Swyddog Carbon.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.4** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i**<br>➢ Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri<br>➢ Cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd<br>➢ Diweddaru Strategaeth Mawndiroedd | Parhaus | Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau (CaP); Pennaeth Partneriaethau; Swyddog Carbon |
| | **Ch. 1 - 2** | **Bydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o adolygiad Cynllun Eryri, adolygiad CDLl ac yn waith parhaus Swyddog Carbon.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |
| **AC 2.5** | | **Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero" drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolath gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PC yDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Swyddog Carbon Isel |
| | **Ch. 1-2** | **Mae hyn yn waith parhaus y Swyddog Carbon** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.6** | | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru** | Parhaus | PW |
| | **Ch. 1- 2** | **Dim diweddariad penodol – swyddog wedi sefydlu yn Awdurdod Arfordir Penfro yn gweithredu'n ar draws yr 8 tirwedd ar yr amcan yma.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.1** | | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir. Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Ch. 1-2** | **Cwblhawyd gwaith ymgysylltu o fewn yr Awdurdod a llunio blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth. Gohiriwyd cyflwyno'r adroddiad i Weithgor Aelodau Hydref 2025, er mwyn ymblethu'r strateaeth gydag adolygiad Cynllun Eryri. Bydd diweddariad pellach yn Chwarter 4.** | | |
| | Ch. 3 | - | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.2 | | **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2026.**<br>➢ **Paratoi adroddiad yn diweddaru i'r Aelodau**<br>➢ **Mabwysiadu cynllun gwaddol ar gyfer ardal y Carneddau** | Gwannwyn 2025<br>Mawrth. 2026 | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd |
| | **Ch. 1+2** | **Mae swyddogion yn blaenoriaethu cynllun gwaddol y Carneddau ac yn cydweithion agos gyda phartneriaid i'w ddatblygu.** | | |
| | Ch. 3 | **Bydd swyddogion yn cyflwyno adroddiad cwblhau cynllun i Aelodau yn fuan yn 2026, gan gynnwys y cynllun gwaddol llawn.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| AC 3.3 | | **Symud ymlaen a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy gyda arian grant y Loteri** | Parhaus hyd at Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir Pen TDd Swyddog Prosiect TDd |
| | **Ch. 1-2** | **Cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus, gyda chyllid Llywodraeth Cymru.** | | |
| AC 3.4 | | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd (STB) Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| | **Ch. 1- 2** | **Mae swyddogion yn mynychu ac yn cyfrannu at strwythur reoli Llechi Cymru**<br>**Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn llwyddiannus ar y cyd a Llechi Cymru ym Mhlas Tan y Bwlch, sef darlith "Pedoli'r Ponciau" a gweithdy blaenoriaethu marchnata.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

(Green) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(Amber) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(Red) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.5 | Ch. 1 - 4 | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol**<br>**Mae'r gwaith hwn yn parhau yn llwyddiannus.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| AC 3.6 | Ch. 1-2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau**<br>**Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod, Haf 2025. Cwblhawyd rhaglen weithgareddau'r Ysgwrn yn llwyddiannus.**<br>**Mae swyddogion yn gweithio ar gais adnewyddu achrediad amgueddfa'r Ysgwrn, i'w gyflwyno ar ddechrau 2026.** | Rhag. 2025 | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| AC 3.7 | Ch. 1-2<br>Ch. 3 - 4 | **Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd**<br>**Cwblhawyd gwerthusiad o'r gwaith sgiliau traddodiadol cychwynnol, a fydd yn hysbysu datblygiad y prosiectau nesaf. Trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda darparwyr lleol.**<br>**Bydd cynllunio manwl yn digwydd yn ystod Gaeaf 2025/26.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| AC 3.8 | Ch. 1-2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynllunio buddsoddiad newydd yn ardal gadwraeth Dolgellau, gan ymhelaethu ar brosiectau blaenorol yn y dref.**<br>**Mae'r cynllun gwreiddiol wedi'i ohirio, oherwydd prosiectau strategol eraill sy'n flaenoriaeth uwch. Derbyniwyd cyllid Llywodraeth Cymru i gynnal prosiect 18 mis Dadgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol a gaiff ei gwblhau erbyn Mawrth 2027. Mae proses recriwtio rheolwr prosiect ar y gweill.** | Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 4.1** | (gwyrdd) | **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol** | Parhaus | Cyf.Rheoli Tir Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA) |
| | **Ch. 1-2** | **Mae swyddogion PC Eryri wedi chwarae rôl blaenllaw yn natblygiad cynllun Ffermio Bro (2025-28) ac yn parhau i gynorthwyo gyda datblygiad cynllun SFS.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |
| **AC 4.2** | (gwyrdd) | **Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. CCA |
| | **Ch. 1- 2** | **Gwaith parhaus a rheolaidd o drafod ac ymgysylltu gyda'r gymuned amaethyddol.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |
| **AC 4.3** | (gwyrdd) | **Darparu Adroddiad Blynyddol ar gynllun Ffermio Bro** | Adroddiad Blynyddol | Cyf. Rheoli Tir Pen. CCA |
| | Adroddiad blynyddol | **Mae rhaglen y cynllun yn edrych yn addawol iawn ar hyn o bryd, cyllideb llawn wedi ei neilltuo ac mae'r gwaith ar y ddaear ar fin dechrau, bydd adroddiad blynyddol yn cael ei chynhyrchu ar gyfer chwarter 4.** | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.1** | | **Cyflawni cynllun gweithredu Cynllun Adfer Natur**<br>➢ **Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol** | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. CCA |
| Adroddiad blynyddol | | | | |
| **AC 5.2** | | **Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru** | Adroddiad Blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh |
| Adroddiad blynyddol | | | | |
| **AC 5.3** | | **Unwaith bydd canllawiau LIC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu** | Mawrth 2026 | Cyf. CaP<br>Pen. Polisi Cynllunio |
| | **Ch.1-2** | **Parhau i ddisgwyl am ganllawiau pellach gan Llywodraeth Cymru.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.4** | **Ch. 1-2** | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau a datblygu rhaglenni pellach**<br><br>**Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Gorffennaf yn nodi'r holl brosiectau ymlaen gan yr Awdurdod, ceisiadau am arian grant yn aros am ganlyniadau a phrosiectau newydd sydd ar fin dechrau. Bydd adroddiad pellach yn mynd gerbron y Pwyllgor ym mis Mawrth 2026.** | Adroddiad diweddaru 2 waith y flwyddyn | Cyf. Rheoli Tir Rheolwyr Prosiectau |
| **AC 5.5** | **Ch. 1-2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)**<br><br>**Gwaith wedi cychwyn ar arolygon 2025 a rhaglen waith cyfalaf hefyd wrthi yn cael ei gosod ar gyfer y gaeaf.** | Mawrth 2026 | Cyf. Rheoli Tir Pen CCA |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

## 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.1 | Gwyrdd | **Datblygu adnodd digidol sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas.<br>Wardeinio +<br>Swyddog Cynnwys Digidol |
| | **Ch. 1-2** | **Gwaith ar y cyd rhwng yr adrannau cyfathrebu a wardeinio yn parhau yn gyson.** | | |
| | Ch 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.2** | **Ch. 1 -2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol**<br>**Adroddiad blynyddol wedi ei gynhyrchu gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles yn nodi'r holl gyfleoedd ac achlysuron gwirfoddoli.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partner.<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **CC 1.3** | **Ch. 1-2** | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig**<br>**Adroddiad blynyddol wedi ei gynhyrchu gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles yn cydnabod cyfleoedd. Hefyd, mae paratoadau ar weill i gynnal simposiwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gynnar yn 2026 fel rhan o waith paratoadol adolygu Cynllun Eryri.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partner.<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **CC 1.4** | | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen P |
| Adroddiad blynyddol | | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.5 | | **Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i ohirio cynhyrchu Adolygiad CDLI Eryri tan 2025 er mwyn canolbwyntio ar gyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4: Symud ymlaen â bwriad yr Awdurdod i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i newid cartref preswyl parhaol i llety gwyliau neu ail gartref, gyda cherrig milltir allweddol yn cynnwys:**<br>➢ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar cynnwys CCA ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd<br>➢ Mabwysiadau CCA fel ystyriaeth cynllunio i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau<br>➢ Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym i Fehefin 2025: Gweithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithiol yn y broses rheoli datblygu | ➢ Gwanwyn 2025<br>➢ Haf 2025<br>➢ Mehefin 2025 ymlaen | Cyf. CaP<br><br>Pen. Polisi Cynllunio |
| | Ch. 1- 2 | ➢ **Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei ddrafftio. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y CCA drafft yn ystod Gwanwyn 2025. Cafodd y sylwadau eu hystyried a'u adrodd i aelodau yr Awdurdod.**<br>➢ **Daeth y cyfarwyddyd Erthygl 4 i rym 1af o Fehefin 2025**<br>➢ **Mabwysiadwyd y CCA fel ystyriaeth cynllunio i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar 25ain o Fehefin 2025**<br>➢ **Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 bellach yn cael ei weithredu drwy'r broses rheoli datblygu.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.6 | | Yn amodol ar dderbyn arian grant cynllun Tirweddau Cynaliaday Llefydd Cynaliadwy LIC ar gyfer 2025-27, parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economiau lleol drwy Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) gan ffocysu ar ddatgarboneiddio. Bydd ffenestr ariannu newydd ar gyfer 2025-27 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo cyn gynted ag y bydd cadarnhad wedi'i dderbyn | Parhaus Ebrill 2025 – Mawrth 2027 | Cyf. CaP Pennaeth Partneriaethau Swyddog Prosiect CCE |
| | **Ch. 1-2** | **Derbyniwyd arian grant LIC am ddwy mlynedd 2025-27 ac agorwyd ffenestr ceisiadau ar ddechrau'r haf. Bu i'r Panel gwrdd a chytuno/cefnogi 9 prosiect i'w datblygu yn ystod 2025-26 gyda'r ffocysu ar ddad-garboneiddio.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 2.1 | | Gweithredu Maniffesto Ieuenctid | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. CaP Pen. Partn. Swyddog Pobl Ifanc |
| | **Ch. 1-2** | **Mae Swyddog Pobl Ifanc wedi bod yn y swydd ers mis Mai 2025 ac yn gweithredu ar y Maniffesto fel anghenion y swydd ddisgrifiad.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 2.2** | | **Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun** | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. CaP<br>Pen. Partn.<br>Swyddog Pobl Ifanc |
| | **Ch. 1-2** | **Mae Cynllun Ceidwad Ifanc wedi ei ail lansio a chyfleodd eang yn cael eu cynnig drwy waith partneriaethol. Mae gwaith ar y cyd gyda Pharciau Cenedlaethol y DU yn symud ymlaen i geisio sicrhau cyllid tymor canolig er mwyn cynnal y cynllun.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.1** | | **Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | **Ch. 1-2** | **Mae'r Cynllun gweithredu yn ei ail flwyddyn – targedau a dangosyddion yn cael ei datblygu ar y cyd drwy'r Partneriaeth Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.2** | Ch. 1-2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:**<br>➢ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafnidiaeth a pharcio Gogledd Eryri<br>➢ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafnidiaeth yn ardal Nantgwynant.<br>➢ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen<br>**Gwaith parhaus. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth bellach yn cael ei reoli gan is Bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol y Cyd Bwyllgor Corfforedig sydd wedi datblyu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.** | Parhaus hyd at Ebrill 2026 | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| **CC 3.3** | **Ch. 1-2** | **Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Cymru a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethau a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy llwyddiannus.**<br>**Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun.**<br>**Sicrhau ein bod yn cydweithio â thim y CDLl fel rhan o'r broses CDLl mewn perthynas a pholisiau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.**<br>➢ Cynorthwyo'r Grŵp cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni<br>**Mae'r Grŵp Cyflawni bellach wedi dod i ben wrth i Drafnidiaeth Cymru gamu'n ôl.**<br>**Bydd Is Bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol y CBC yn arwain ar y gwaith hyn.**<br>**Mae Pen. Partneriaethau APCEryri wedi ei henwebu i eistedd ar yr Is-Bwyllgor Trafnidiaeth.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.4** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.**<br>**Gwaith parhaus – mae'r Cynllun yn cael ei adolygu'n blynyddol, modiwlau newydd ar gael a modiwl ail gymhwyso yn cael ei ysgrifennu pob blwyddyn. Mae'r Cynllun yn parhau i ddenu Llysgenhadon newydd gyda bron 1500 wedi cymhwyso erbyn diwedd 2025.**<br>**Mae Modiwlau ar y cyd wedi'i cynhyrchu gyda Cyngor Gwynedd ar ran Mentra'n Gall a Twristiaeth Gynaliadwy.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau |
| **CC 3.5** | | **Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol. Yn ogystal, sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy gyda budd gymunedol yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| Adroddiad blynyddol | | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.1 | | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>➢ **Cyflwyno cais adnewyddu statws achrediad Yr Ysgwrni LC**<br>➢ **Creu arddangosfa dros dro newydd, Cadeiriau Eugene Van Fleteren** | Parhaus<br><br>Hyd. 2025<br>Haf 2026 | Cyf. Rheoli Tir<br><br>Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1-2 | **Mae'r arddangosfa cadeiriau wedi'i chynllunio a bydd yn digwydd o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Comisiyniwyd artistiaid a grwpiau ar gyfer y prosiect. Comisiyniwyd ymgynghorydd llawrydd i gynghori ar elfennau casgliad adnewyddiad achrediad amgueddfaol Yr Ysgwrn.**<br>**Mae'r gwaith yn parhau ar adnewyddiad achrediad amgueddfa'r Ysgwrn. Cynhaliwyd sesiynau arddangosfa cadeieirau yn Ysgol Bro Hedd Wyn.** | | |
| | Ch. 3 - 4 | | | |
| CC 4.2 | | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| | Ch. 1- 2 | **Casglwyd dros 6,000 o enwau tirweddol hyd yma. Comisiynwyd arddangosfa gelf i ddehongli arwyddocâd yr enwau, a fydd yn teithio gogledd Cymru o Ionawr 2026 ymlaen. Cynhaliwyd sesiynau i gofnodi enwau tirweddol ardaloedd Yr Wyddfa, Abergynolwyn, Llanuwchllyn, Corris, Maentwrog.** | | |
| | Ch. 3 - 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.3** | Ch. 1-2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:**<br>➢ **Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.**<br>**Mae gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru gyda rhai syn rhugl ac mae holl wybodaeth a deunydd ar gyfer gwirfoddolwyr ar gael yn y ddwy iaith.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Part.<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **CC 4.4** | Ch. 1- 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli**<br>**Cynhaliwyd dwy sesiwn cofnodi enwau lleoedd yn ardal y Carneddau.** | Parhaus hyd at Rhag. 2025 | Cyf. Rheoli tir<br>Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| **CC 4.5** | Adroddiad blynyddol | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu**<br>**Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu'n effeithiol.** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 5.1 | Gwyrdd<br>Adroddiad Blynyddol | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC**<br>**Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiau uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd y broses o baratoi CDLI Eryri 3 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| CC 5.2 | Gwyrdd<br>Adroddiad Blynyddol | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol**<br>**Adroddiad Monitro 2025 wedi ei gyflwyno i aelodau yr Awdurdod Medi 2025 i'w gyflwyno i llywodraeth Cymru cyn diwedd Hydref 2025.**<br>**Cytundeb Cyflawni wedi ei baratoi a bu ymgynghoriad ar y cynnwys rhwng yr 16eg o Fai 2025 a'r 27ain o Fehefin 2025.**<br>**Yn dilyn yr ymgynghoriad cafodd y Cytundeb Cyflawni ei addasu ai gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod Medi 2025 a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru i gael ei gytuno.**<br>**Mae'r broses o baratoi CDLI 3 i ddechrau yn ffurfiol Tachwedd 2025. Mae'r tim yn bwriadu mynychu Gwyl Fach Eryri yn Dolgellau a Betws y Coed yn ystod yr Hydref i ddechrau ar y broses o dderbyn mewnbwn trigolion lleol yn ogystal a paratoi holiadur trigolion lleol i Gynhgorau Cymuned ac ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Oren: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 5.3** | **Ch. 1- 2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy**<br><br>**Gwaith parhaus trawsadrannol. Bydd gwaith yn chwarter 3 a 4 yn ffocysu ar adrannau cadwraeth a threftadaeth er mwyn rhoi'r un sylw i bob adran.** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

## 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 1.1 | Gwyrdd | Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:<br>➢ Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis<br>➢ Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis | Parhaus Mawrth 2026 | Pen. Adnoddau Dynol (AD) |
| Parhaus | Ch. 1- 4 | ➢ Diwygio'r Broses Asesiad Perfformiad: Mae'r Awdurdod yn symud o'r model blynyddol traddodiadol i system adolygiadau chwarterol gyda dangosyddion statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd). Bydd yr adolygiad chwarterol olaf yn gweithredu fel yr asesiad ffurfiol, gan roi mwy o bwyslais ar ddatblygiad gyrfa, lles a chyfleoedd hyfforddi. Lansiad arfaethedig: Hydref 2026.<br>➢ Newid Diwylliant Cefnogaeth Perfformiad: Cyflwyno 'Cynllun Llwyddo' i newid y drefn cynlluniau gwella ffurfiol, gan hyrwyddo dull cadarnhaol a rhagweithiol o gefnogi datblygiad staff.<br>➢ Adborth 360° – 'Myfyrio i Dyfu': Mae'r offeryn hwn bellach ar gael i annog hunanymwybyddiaeth a gwelliant parhaus, gan sicrhau bod adborth adeiladol yn rhan o'r broses rheoli perfformiad.<br>➢ Fframwaith Hyfforddiant Gorfodol: Mae pob aelod staff yn cael mynediad at fodiwlau e-ddysgu dwyieithog (e.e. Parch a Dyledswydd yn y Gwaith, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, ac ati) i gefnogi trafodaethau asesiad a dadansoddi anghenion hyfforddi. | | |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Ambr: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **W 1.2** | ● (gwyrdd) | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus Mawrth 2026 | Pen. AD<br>Pen. Gwasanaeth |
| Parhaus | **Ch. 1 - 4** | ➢ **Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid. Mae llawer mwy o gyrsiau wedi ei hychwanegu i ELMS, ein system hyfforddi ar-lein sy'n darparu nifer o gyrsiau hyfforddi dwyieithog i gynorthwyo staff a'u hysbrydoli i symud ymlaen a dysgu disgyblaethau newydd.**<br>➢ **Grwp Cydweithio: Mae'r Awdurdod yn parhau i hyrwyddo diwylliant o gydweithio drwy'r grwp Fforwm Lles a Ymgysylltiad Staff sy'n gyrru mentrau lles ac yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau polisi.**<br>➢ **Adborth 360° – 'Myfyrio i Dyfu': Mae'r dull hwn yn annog trafodaeth agored a rhannu profiadau rhwng cymheiriaid, gan gryfhau cysylltiadau a dealltwriaeth o werthoedd craidd yr Awdurdod.**<br>➢ **Mentrau Lles a Chyfathrebu: Offer digidol fel PWLS yn galluogi staff i fyfyrio ar eu lles a chyfrannu at drafodaethau cymheiriaid mewn ffordd gadarnhaol.** | | |



● Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

● Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

● Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.3** | ● | **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol** | Parhaus Mawrth 2026 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |
| Parhaus | **Ch. 1 - 4** | ➢ **Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol.**<br>➢ **Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol.**<br>➢ **Rhwng y cyrsiau hyfforddi allanol sydd wedi ei trefnu a'r nifer sydd ar gael dros ELMS (portal dysgu arlein) mae llawer mwy o gyfleon hyfforddiant ar gael i staff. Mae polisi dysgu a datblygu wedi'i greu sy'n amlinellu cefnogaeth yr Awdurdod i staff i wella eu gallu ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'w cynorthwyo.**<br>➢ **Fframwaith Hyfforddiant Gorfodol: Mae modiwlau e-ddysgu dwyieithog bellach ar gael i bob aelod staff trwy ELMS, gan gynnwys Urddas yn y Gwaith, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, ac ati.**<br>➢ **Hyfforddiant Arweinyddiaeth: Mae nifer o staff wedi cwblhau cyrsiau ILM Lefel 3, 4 a 5, gan gryfhau sgiliau rheoli a chynllunio strategol.**<br>➢ **Cyrsiau Allanol Arbenigol: Mynediad i hyfforddiant technegol ac arbenigol (e.e. Rheoli'n Ddiogel, Gofal Cyntaf, Rheoli Asbestos, NEBOSH).**<br>➢ **Polisi Sabbothol: Yn cynnig cyfle i staff gymryd cyfnod o absenoldeb estynedig ar gyfer datblygiad personol neu broffesiynol, gan gefnogi dysgu gydol oes.**<br>➢ **Polisi Addasiadau Gweithle a Phasbort: Yn galluogi staff i weithio'n effeithiol drwy ddarparu addasiadau rhesymol, gan hyrwyddo cynhwysiant a datblygiad.**<br>➢ **Diwygio'r Broses Asesiad Perfformiad: Bydd y model newydd yn cynnwys ffocws cryfach ar ddatblygiad gyrfa a chyfleoedd hyfforddi fel rhan o'r adolygiadau chwarterol.** | | |



● Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

● Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

● Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.4** | | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Strategaeth Ddigidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ein systemau technegol** | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. SG<br>Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1 - 2** | **Sgyrsiau cychwynnol a pharatoi at y gwaith wedi cychwyn.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |
| **CW 1.5** | | **Datblygu llawlyfr cyfathrebu mewnol newydd ar gyfer holl staff** | Rhag. 2025 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu<br>Pen. SG<br>Pen. GCaG |
| | **Ch. 1 - 2** | **Gwaith wedi ei raglennu at Chwarter 4.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 2.1 | Gwyrdd<br>Ch. 1- 4 | **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach** | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Eiddo |
| | | **Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo a Swyddog Carbon yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru ac yn adnabod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio gyda phartneriaid.** | | |



Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 2.2** | (gwyrdd)<br><br>**Ch. 1-2**<br><br>Ch. 3 | **Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:**<br>➢ Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau: byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br>➢ Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb<br>➢ Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu<br>**Fforwm Ymgysylltiad a Lles Staff: Yn parhau i yrru mentrau newydd i gefnogi lles, gan gynnwys:**<br>➢ **Pecynnau mislif am ddim mewn holl doiledau'r Awdurdod.**<br>➢ **Parcio am ddim i staff yn eu hamser hamdden, i annog defnydd o'r parc ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.**<br>➢ **Wal Diolchgarwch yn y swyddfeydd i rannu negeseuon cadarnhaol ac annog diwylliant cydnabyddiaeth.**<br>➢ **Siart Gwirio Lliw Wrin: Wedi'i osod mewn toiledau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hydradiad a lles corfforol.**<br>➢ **PWLS – Teclyn Lles Digidol: Yn galluogi staff i wirio eu lles emosiynol yn rheolaidd trwy sgrin eu cyfrifiadur. Mae data dienw yn helpu'r Awdurdod i fonitro tueddiadau ac addasu strategaethau lles.**<br>➢ **Polisi Cam-drin Domestig: Yn darparu cefnogaeth a chanllawiau clir i staff sy'n profi cam-drin, gan gryfhau diwylliant diogelwch a chydraddoldeb.**<br>➢ **Gwerthoedd Craidd APCE: Lansiwyd i feithrin diwylliant parch, cydweithio a chymreictod, gan gryfhau cysylltedd a lles yn y gweithle.** | Mawrth 2026 | Pen. AD |



(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

(oren) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| | Ch. 4 | |
|---|---|---|

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.1** | (gwyrdd)<br>**Ch. 1 - 2**<br>**Ch. 3** | **Adolygu Cynllun Eryri i adlewyrchu blaenoriaethau Adroddiad Cyflwr y Parc**<br>**Cyhoeddwyd Adroddiad Cyflwr y Parc ym mis Ebrill eleni ac mae'r broses ar gyfer adolygu Cynllun Eryri wedi dechrau a bydd yn parhau drwy 2026.** | Mehefin 2026 | Cyf. CaPh<br>Pen. Partner. |
| | **Ch. 4** | | | |
| **CW 3.2** | (gwyrdd)<br>**Ch. 1- 4** | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru**<br>**Mae ymarfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd.** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.3** | (gwyrdd)<br>**Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br>**Bydd y PW yn mynychu'r holl gyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae cyfleoedd cydweithredol yn cael eu datblygu gan wahanol wasanaethau'r Awdurdod wrth i gyfleoedd godi.** | Parhaus | PW |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.4** | **Ch. 1- 4** | **Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br><br>**Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwer yn parhau i fynychu cyfarfodydd yr CBC. Mae'r Cadeirydd wedi ei gyf-ethol i eistedd ar Is-bwyllgor Economi a Lles a swyddogion APCEryri wedi eu cyf-hethol ar Is-Bwyllgor Strategol Trafnidiaeth Gogledd Cymru, a'r Is-bwyllgor Cynllunio.** | Parhaus | PW<br>Cyf. CaPh<br>Pen. Partn. |
| **CW 3.5** | **Ch. 1- 2**<br><br>Qtr. 3<br>Ch. 4 | **Cyhoeddi a chyfathrebu'r data wedi'i gasglu o dan Adroddiad Cyflwr y Parc**<br><br>**Lansiwyd meicrowefan ar gyfer rhannau data Adroddiad Cyflwr y Parc. Bydd trafodaethau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adroddiad wrth adolygu Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, Cynllun Eryri, trwy gydol 2025 ac i mewn i 2026.** | Gwanwyn 2025 | Cyf. CaPh<br>Pen. Partneriaethau |

Tud. 33

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.1** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod**<br>**3 x cyfarfod Awdurdod Llawn – Ebrill, Mehefin a Medi – Presenoldeb: 81.7%**<br>**4 x cyfarfod Pwyllgor Cynllunio – Ebrill, Mai, Mehefin, medi – Presenoldeb: 78%**<br>**1 x cyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnodau – Gorffennaf – Presenoldeb: 100%** | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas, Corff. Swyddog Gwas. Democrataidd |
| **CW 4.2** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu**<br>➢ **Parhau i gefnogi LlC i fireinio a darparu rhaglen hyfforddiant ar egwyddorion arfer llywodraethu da ac atebolrwydd i Aelodau'r Awdurdod**<br>➢ **Cynhaliwyd sesiwn anwytho aelodau newydd wedi'i hethol gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Gorffennaf ynghyd a sesiynau hyfforddiant megis Cynllunio a Llywodraethu.**<br>➢ **Trefnwyd diwrnod datblygu aelodau ym mis Mehefin i Ddolgellau ar gyfer Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau.**<br>➢ **Mae trefniadau wedi eu cadarnhau i 2 aelod fynychu cwrs anwytho aelodau newydd Parciau Cenedlaethol y DU yn Northumberland mis Tachwedd.**<br>➢ **Mae trefniadau ar weill i gynnal Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn Eryri yn gynnar yn yr Hydref.** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corfforaethol |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 5.1 | | Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr. | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + |
| | Ch. 1- 4 | Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gynnal sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grwp a gan ysgolion ac mae nifer o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd. Mae denu rhagor o wirfoddolwyr cyson yn parhau yn her. Llwyddwyd i ddenu 3 gwirfoddolwr newydd i wirfoddoli yng ngerddi'r Ysgwrn eleni. | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.2** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod**<br>**Dim cynnydd hyd yn hyn ond cyfarfodydd wedi eu pennu er mwyn ei gyflawni erbyn chwarter 4.** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu |
| **CW 5.3** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned**<br>**Mae Fforwm Cymunedau Eryri wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill hefyd yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl. Mae swyddogion wedi rhoi cyflwyniad i aelodau Fforwm Cymunedau Eryri mis Mai ar Gytundeb Cyflawni y CDLl, Adolygiad o Gynllun Eryri a Ffermio Bro.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Part.<br>Pen. Polisi |
| **CW 5.4** | **Ch. 1- 4** | **Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri**<br>**Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad y De a'r Gogledd a gynhelir dair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau yng ngogledd a de'r PC. Cynhelir y cyfarfodydd yn y gwanwyn yr haf a'r gaeaf.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Part.<br>Rheolwr Mynediad |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.5**<br>Cyfarfod Blynyddol | 🟢 | **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol**<br>**Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu i'w gynnal Tachwedd 2025.** | Cyfarfod Blynyddol | Cyf. Rheoli Tir<br>Pennaeth CCA |
| **CW 5.6** | 🟡<br>**Ch. 1- 2** | **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>➢ **Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod**<br>➢ **Bydd Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod cyn ddiwedd 2025.**<br>➢ **Mae trefniadau ar weill i gynnal Gwyl Fach Eryri fydd yn dechrau'r broses o gynnwys y cymunedau yn adolygiad y Cynllun Rheoli.**<br>➢ **Mae Fforwm Cymunedau Eryri wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen.**<br>➢ **Mae Swyddogion wedi rhoi cyflwyniad i aelodau Fforwm Cymunedau Eryri ynglyn a Cytundeb Cyflawni y CDLl, Adolygiad o Gynllun Eryri a Ffermio Bro yn ystod Mai 2025.**<br>➢ **Paratowyd Cynllun Cynnwys Cymunedau fel rhan o Gytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn gosod allan sut a pryd gall cymunedau lleol gyfrannu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun.**<br>➢ **Bu ymgynghoriad ar gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau rhwng yr 16eg o Fai 2025 a'r 27ain o Fehefin 2025. Yn dilyn yr ymgynghoriad cafodd ei addasu ai gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod Medi 2025 a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru i gael ei gytuno. Mae'r Tim Polisi Cynllunio yn bwriadu mynychu Gwyl Fach Eryri yn Dolgellau a Betws y Coed yn ystod yr Hydref i ddechrau ar y broses o dderbyn mewnbwn trigolion lleol yn ogystal a paratoi holiadur trigolion lleol i Gynhgorau Cymuned ac ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol** | Parhaus<br><br>Gwanwyn 2025 | Cyf. CaP<br>Pen. Partn.<br>Pen.PC<br>Swyddog Ymg. Cymunedol |



🟢 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

🟡 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

🔴 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| | | |
|---|---|---|
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 6 | CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 6.1** | Ch. 1- 2 | **Adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol**<br>**Adrodd i Weithgor:**<br>**Mabwysiadau gan:**<br>**Adroddwyd i Weithgor Aelodau a mabwysiadwyd yn ystod cyfarfod Awdurdod Medi.** | 06.25.<br>APCE Medi | PW<br>Pen. Cyllid |
| **CW 6.2** | Ch. 1- 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Yn amodol ar benderfyniad(au) terfynol yr Awdurdod 30.04.25. ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch, adrodd ar gynnydd unrhyw benderfyniad(au)**<br>**Yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod, mae Ymgynghorwyr allanol wedi'u comisiynu i baratoi cais yr Awdurdod i'r Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – byddwn yn anelu i gyflwyno'r cais erbyn Chwefror 2026.** | Mawrth 2026 | PW<br>Cyf. Rheoli Tir |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 6.3** | | **Casglu data yn ystod tymor 2025 ar gyfer hysbysu adolygiad ffioedd meysydd parcio yr Awdurdod ac, os yn berthnasol, symud ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer addasu tariff ac adolygu ffioedd yn unol â darparwyr meysydd parcio eraill yn yr ardal** | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Eiddo |
| | **Ch. 1- 2** | **Gwaith casglu data wedi ei gwblhau ac adroddiad wedi ei chyflwyno i Weithgor Aelodau. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan yr Awdurdod mis Rhagfyr.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 6.4** | | **Symud ymlaen i adolygu potensial masnachol Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod, gan gynnyws:**<br>➢ Mabwysiadu cynllun ar gyfer ail ddatlygiad Canolfan Betws y Coed<br>➢ Cyflwyno cais am gefnogaeth ariannol i Croeso Cymru<br>➢ Trwy fuddsoddi yn y siop, casglu data yn ystod tymor 2025 ar gyfer adolygu defnydd Canofan Pen y Pass | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Cyfathrebu Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |
| | **Ch. 1- 2** | ➢ **Mae Donald Insall Associates yn llunio cynlluniau ar gyfer safle'r Ganolfan.**<br>➢ **Derbyniwyd cefnogaeth ariannol ar gyfer gwaith allanol gan Croeso Cymru.**<br>➢ **Mae cynlluniau ar y gweill i uwchraddio darpariaeth Pen y Pass yn ystod Gaeaf 2025 er mwyn uchafu elw.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

## CANLYNIADAU

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

**CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)

**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)***

***CW6:** Byddwn yn cyflawni o dewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

*Amcan newydd Mawrth 2024.



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

## LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/ Gwaith APCE |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4 |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | CC 3.3<br>CW 2.3 |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | AC 5.5 (PAWS) |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | AC 5.1 - AC 5.5 |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4 |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas | AC 5.1 |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | CW 3.2 |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | AC 1.10 |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.1** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | **-** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5**<br>**CW 5.3** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | **-** |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol | **-** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.9** |
| Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.7** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2**<br>**CW 5.1** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.2 CW 3.3** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau ariannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | **AC 2.5** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |

**Eitem Rhif 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru ar osod Amcanion Llesiant (Cyhoeddwyd Medi 2025)** |
| **ADRODDIAD GAN** | Y Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo ymateb yr Awdurdod i'r argymhellion yn yr adroddiad uchod |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ddiweddar, cwblhaodd Archwilio Cymru (AC) asesiad o'r graddau y mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant – ynghyd â sut y gellir gwella hyn yn y dyfodol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

## 2. CEFNDIR BYR AR YR AMCANION LLESIANT PRESENNOL

2.1 Ni fydd pob Aelod wedi bod yn rhan o'r broses o osod yr amcanion llesiant. Mabwysiadwyd y rhain ym mis Mawrth 2021 – yn dilyn ymgynghoriad helaeth – fel rhan o Ddatganiad Llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac maent wedi ffurfio'r sylfaen ar gyfer strategaeth a chyfeiriad cyffredinol yr Awdurdod ers hynny. Cânt eu hadolygu'n flynyddol, gyda newid yn cael ei wneud iddynt yn 2024, i adlewyrchu'r cyd-destun ariannol heriol yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu ynddo.

2.2 Noder hefyd, er gwybodaeth, fy mod wedi cyflwyno adroddiad i'r Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin eleni, yn gofyn am oedi o 12 mis cyn adolygu'r Amcanion Llesiant er mwyn caniatau i Gynllun Eryri gael ei gynhyrchu. Y rhesymeg oedd y byddai'n rhesymegol cynhyrchu'r Amcanion Llesiant ar ôl i Gynllun Eryri gael ei fabwysiadu. Mae swyddogion wedi cael trafodaethau pellach ar y mater hwn (yn ogystal â sesiwn hyfforddiant gyda staff Swyddog Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), ac rydym bellach o bosibl yn edrych ar integreiddio'r Amcanion Llesiant yn llawn â Chynllun Eryri (yn hytrach nag un ddogfen yn arwain y llall. Mae'n rhy gynnar i adrodd ar oblygiadau union yr amserlen ar hyn o bryd – ond gallaf godi hyn ar lafar yn y cyfarfod, a bydd adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar hyn.

## 3. CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU

3.1 Adroddodd AC eu bod yn fodlon ar y cyfan fod yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymhwyso ei Amcanion Llesiant.

3.2 Gwnaed 2 argymhelliad:

a. cryfhau trefniadau ar gyfer asesu ei berfformiad yn erbyn amcanion llesiant, a

b. sicrhau ein bod yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i sicrhau bod yr amcanion yn parhau i fod yn briodol.

3.3 Cyflwynwyd y templed ar gyfer sut y bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r ddau argymhelliad i Weithgor Aelodau mis Hydref.

3.4 Trafodwyd yr ymateb drafft yn ystod Gweithgor Aelodau Hydref a cytunwyd ei gyflwyno i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar gyfer ei gytuno'n ffurfiol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 I'r Aelodau gymeradwyo'r ymateb yn Atodiad 2 fel ymateb ffurfiol yr Awdurdod i adroddiad ac argymhellion Archwilio Cymru**

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Pennu Amcanion Llesiant – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5005A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant | 4 |
| Cynnal ein harchwiliad yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 5 |
| Sut a phryd y pennodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion llesiant | 5 |
| Yr hyn a ganfuom: Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant | 7 |
| Argymhellion | 8 |
| Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano | 10 |

# Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 56 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf.[1] Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant.[2] Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025.[3]

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogiad, cydweithredu, ac atal.[4]

4 Gwnaethom gynllunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi mwy o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut y gallai 'da' edrych .

5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, fe wnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar hyn o bryd. Dylai cyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyriaeth o sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd a sut y gallant wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau blwyddyn cyn etholiad y Senedd ac yn dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

[4] Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Cynnal ein harchwiliad yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- esbonio sut mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant;
- rhoi sicrwydd i'r graddau y gweithredodd yr Awdurdod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i'r Awdurdod ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth adolygu amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Aethom ati i ateb y cwestiwn cyffredinol **'I ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant?'** Gwnaethom hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau adolygu ac adrodd blynyddol priodol ar waith, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ac fel y cynghorir mewn canllawiau statudol?
- A yw'r Awdurdod wedi ystyried gwybodaeth briodol a fyddai'n ei alluogi i benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

8 Gwnaethom drafod amseriad yr archwiliad gyda'r Awdurdod, ac fe wnaethom drefnu'r cyflwyniad i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol. Gwnaethom gyflwyno'r gwaith hwn rhwng Rhagfyr a Chwefror 2024.

9 Gwnaethom gasglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- adolygu dogfennau allweddol;
- cynnal nifer fach o gyfweliadau.

## Sut a phryd y pennodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion llesiant

10 Dechreuodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) weithio ar adolygu amcanion llesiant newydd yn ystod 2024 ac yna cytunodd ar ei amcanion newydd ym mis Mawrth 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r amcanion llesiant hynny.

11 Yn flaenorol, rhoddodd yr Awdurdod drefniadau ar waith ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori i gefnogi ei waith o fabwysiadu eu hamcanion llesiant. Mae amcanion llesiant Eryri wedi'u nodi yn Natganiad Llesiant yr Awdurdod 2021-26[5].

[5] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Snowdonia gynt), Datganiad Lles 2021-2026 (Mabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2021)

**Arddangosyn 1: Amcanion llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Amgylcheddau cydnerth:

1. Gwella rheoli hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden
2. Ymateb i heriau newid hinsawdd
3. Gwella rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd rheoli tir yn y cyd-destun ôl-Brexit
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau cydnerth:

1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd trigolion
2. Cefnogi pobl ifanc
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth at gymunedau lleol
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodi Eryri fel Parc Cenedlaethol a'i rheolaeth.

Ffyrdd cydnerth o weithio:

1. Datblygu gweithlu medrus,
2. Datblygu a hyrwyddo arferion gorau,
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth,
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu,
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol.
6. Cydbwyso adnoddau ac ymdrechion yr Awdurdod

# Yr hyn a ganfuom

12 Yn gyffredinol, canfuom fod **yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant ond gall wella'r sylfaen dystiolaeth y mae'n ei defnyddio ar gyfer hyn a sut mae'n monitro eu cynnydd wrth eu cyflawni.** Fe wnaethom nodi isod pam y gwnaethom ddod i'r casgliad hwn.

## Trefniadau adolygu ac adrodd

13 Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i adolygu ei amcanion llesiant ac mae wedi cynllunio adolygiadau cymesur o'i amcanion llesiant. Er enghraifft, mae tîm rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod yn flynyddol i drafod a oes angen newidiadau i'w hamcanion llesiant. Yn 2022 a 2023 trafododd y tîm a chytunodd nad oedd angen unrhyw newidiadau. Yn 2024, newidiodd yr Awdurdod ei amcan yn ymwneud â chydbwyso adnoddau mewn ymateb i heriau i'w sefyllfa ariannol. Mae cael y trefniadau hyn ar waith yn helpu'r Awdurdod i asesu mewn ffordd wedi'i chynllunio a yw amcanion yr Awdurdod yn dal i fod yn briodol.

14 Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd tuag at ei amcanion llesiant ac adrodd arnynt. Mae'r Awdurdod yn adrodd ar ei amcanion llesiant yn flynyddol yn ei Adroddiadau Blynyddol. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi gwerthusiad yr Awdurdod o gynnydd gan gynnwys dangosyddion perfformiad, y canlyniadau sydd yn nod iddynt neu a gyflawnwyd ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd. Gwnaethom ganfod bod yr adroddiadau blynyddol yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer pob un o'r amcanion llesiant gyda throsolwg o'r gweithgareddau a gynhaliwyd i gefnogi cyflawni pob amcan. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn erbyn pob amcan gyda sgôr Coch, Oren, Gwyrdd (RAG). Mae Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod yn cael diweddariadau bob chwarter ac un adroddiad blynyddol sy'n dod â'r adroddiadau chwarterol at ei gilydd. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd yn erbyn yr amcanion. Maent hefyd yn helpu i alluogi aelodau i herio a chraffu ar berfformiad yn erbyn yr amcanion llesiant.

15 Mae'r Awdurdod yn nodi ei werthusiad o'r cynnydd tuag at ei amcanion Llesiant yn ei Adroddiad Blynyddol. Mae'r Awdurdod yn nodi rhai canlyniadau ac mae llawer o'i ddangosyddion perfformiad yn gysylltiedig â 'Cynllun Eryri', ei gynllun rheoli statudol a'i ganlyniadau. Fodd bynnag, canfuom ei bod yn ymddangos bod rhai o'r dangosyddion perfformiad a nodir yn Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod yn disgrifio gweithgaredd yn hytrach na'r canlyniadau neu'r effaith arfaethedig dros y tymor hwy. Er enghraifft, o dan yr amcan o gefnogi pobl ifanc a datblygu'r cynllun ceidwaid ifanc, mae'r Awdurdod yn disgrifio yn ei ddangosydd perfformiad ei fod wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon ar gyfer iaith a diwylliant yr ardal (sy'n gysylltiedig â chanlyniad Cynllun Eryri). Disgrifir y canlyniadau yn erbyn yr amcan hwn o ran y nifer yn bresennol mewn sesiynau ceidwaid ifanc, gwaith ymgynghori, maniffesto, digwyddiadau, cynlluniau ar gyfer cyfnewid â pharciau

cenedlaethol eraill yng Nghymru a chyllid naill ai a dderbyniwyd neu y gwnaethpwyd cais amdano. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi nodi'r effaith tymor byrrach na'r tymor hwy a geisiwyd o'r gweithgaredd hwn. Trwy beidio â monitro effaith tymor byr a thymor hwy gweithgareddau, mae'n anodd i'r Awdurdod fonitro a gwerthuso cynnydd tuag at ei ganlyniadau arfaethedig.

## Sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygu'r amcanion llesiant

16 Defnyddiodd yr Awdurdod amrywiaeth o wybodaeth wrth adolygu ei amcanion llesiant. Er enghraifft, defnyddiodd yr Awdurdod wybodaeth ariannol ac ystyriodd sut y gallai newidiadau i'w adnoddau effeithio ar gyflawni ei amcanion llesiant. Nododd yr Awdurdod risgiau ariannol fel ystyriaeth allweddol ar gyfer gwneud y newid i'w amcanion yn 2024 a diweddarodd yr amcanion o ganlyniad i'r risgiau ariannol.

17 Defnyddiodd yr Awdurdod rai ffynonellau gwybodaeth allanol wrth adolygu ei amcanion llesiant. Roedd y ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth a gasglwyd yn ystod rhyngweithio â phartneriaid yn 'Fforwm Eryri'. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwneud nodau a pholisïau trafnidiaeth leol a rhanbarthol yn gydnaws gyda phartneriaid. Mae ffynonellau gwybodaeth eraill nad oedd yr Awdurdod yn eu hystyried yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw ddata demograffig perthnasol. Nid oes gan yr Awdurdod drefniadau i sicrhau ei fod yn ystyried barn ei gymunedau wrth adolygu ei amcanion llesiant. Er bod yr Awdurdod wedi ymgymryd â gweithgareddau cynnwys eraill wrth osod ei amcanion llesiant. Mae cynnwys amrywiaeth lawn y rhai sydd â buddiant mewn cyflawni ei amcanion llesiant yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu hanghenion.

18 Mae'r Awdurdod yn ystyried rhai newidiadau yn yr amgylchedd allanol a blaenoriaethau rhanddeiliaid. Er enghraifft, mae'r Awdurdod yn ystyried llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru wrth adolygu ei amcanion llesiant. Ond nid yw'n ystyried goblygiadau amcanion cyrff eraill y sector cyhoeddus fel rhan o waith adolygu ei amcanion llesiant ei hun, gan gynnwys pan fydd amcanion cyrff cyhoeddus eraill wedi newid neu pan fydd yn gweithio gyda phartneriaid newydd. Trwy beidio â sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau ehangach ei amcanion llesiant i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn wynebu risg o ddyblygu neu golli cyfleoedd i sicrhau buddion lluosog.

# Argymhellion

A1 Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau ar gyfer asesu ei berfformiad yn erbyn ei amcanion llesiant. Mae hyn yn cynnwys gosod mesur perfformiad strategol i gyd-fynd â'i amcanion llesiant sy'n casglu'r effaith tymor byr a hirdymor y mae'n anelu ati.

A2 Wrth adolygu ei amcanion llesiant yn y dyfodol, dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth i helpu i benderfynu a yw'r amcanion yn parhau i fod yn briodol. Gallai ffynonellau o'r fath ymwneud â newidiadau yn ei amgylchedd mewnol ac allanol. Gallai enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Deddfwriaeth[6] a pholisi newydd, gan gynnwys newidiadau i'r amcanion llesiant.
- Gwybodaeth am dueddiadau, gan gynnwys, er enghraifft, adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.
- Cyngor a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru – Asesiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar Ardal.
- Unrhyw weithgaredd ymgysylltu perthnasol a ymgymerir gan eraill a allai fod yn ddefnyddiol neu'n berthnasol.
- Amcanion llesiant cyrff eraill y sector cyhoeddus

[6] Er enghraifft, mae adran 20 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cyflwyno newid i amcan llesiant 'Cymru Lewyrchus' a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd hyn yn golygu y bydd gwaith 'teg' yn cymryd lle gwaith 'gweddus'. Daeth y newid hwn i rym ar 1 Ebrill 2024. Mae newidiadau o dan y ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff adrodd ar y ddyletswydd bob blwyddyn. Mae newidiadau eraill gan gynnwys yr iaith o geisio consensws gyda phartneriaid cymdeithasol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio'i ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i lywio ein proses o gasglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ein harchwiliadau egwyddorion datblygu cynaliadwy, a ddatblygwyd drwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac wedi'u llywio gan gyngor a chanllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set enghreifftiol o nodweddion sy'n disgrifio sut y gallai 'da' edrych.

| | |
|---|---|
| **I ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant?** | |
| **1. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau adolygu ac adrodd blynyddol priodol ar waith, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ac fel y cynghorir mewn canllawiau statudol?** | |
| | **Dangosyddion cadarnhaol** |

| I ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant? | |
|---|---|
| **1.1 A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau adolygu ac adrodd blynyddol priodol ar waith, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ac fel y cynghorir mewn canllawiau statudol?** | • Mae'r Awdurdod yn adrodd ar ei amcanion llesiant yn flynyddol, gan nodi asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol.<br>• Mae'r Awdurdod wedi cynllunio trefniadau adolygu priodol a chymesur sy'n adlewyrchu ei gylch cynllunio. Gall hyn gynnwys adolygu'r amcanion i raddau amrywiol ar draws cylchoedd blynyddol.<br>• Lle bo angen, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi newidiadau i'w amcanion llesiant. |
| **2. A yw'r Awdurdod wedi ystyried gwybodaeth briodol a fyddai'n ei alluogi i benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **2.1 A yw'r Awdurdod wedi ystyried ffynonellau gwybodaeth mewnol i benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | • Mae'r Awdurdod yn ystyried sut y gallai newidiadau i'w adnoddau effeithio ar ei amcanion llesiant ac unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen o ganlyniad.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio'i wybodaeth am berfformiad, gan gynnwys ei berfformiad yn erbyn ei amcanion llesiant ond hefyd gwybodaeth ehangach fel monitro gwasanaethau.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio canlyniadau gweithgaredd cynnwys eraill, neu a allai fod ar gael gan ei bartneriaid. – p'un ai'n gynradd, yn eilradd neu'n gyfuniad - i adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae'r Awdurdod yn cynnwys pobl allweddol o bob rhan o'r sefydliad yn y broses. |

| I ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant? | |
|---|---|
| | • Mae gwybodaeth am berfformiad ac unrhyw newidiadau i'r amcanion llesiant yn cael eu herio ac yn destun craffu priodol, ac mae hynny'n cael ei ystyried mewn unrhyw ddiwygiadau. |
| **2.2 A yw'r Awdurdod wedi ystyried ffynonellau gwybodaeth allanol wrth benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | • Mae'r Awdurdod yn ystyried gwybodaeth allanol berthnasol am newidiadau yn yr amgylchedd allanol i'w helpu i ddeall anghenion, risg a chyfleoedd newydd a phosibl a allai effeithio ar ei amcanion llesiant. Mae hon yn debygol o ddod o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Gwybodaeth am dueddiadau, gan gynnwys adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol.<br>– Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol,<br>– Adroddiad Llesiant Cymru<br>– Adroddiad ar gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2012 - Asesiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar ardal<br>– Asesiadau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – asesiadau poblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – canlyniadau ymarferion cyfranogi/ymgynghori lleol<br>• Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei gysylltiadau a threfniadau cydweithredu i benderfynu a yw'r amcanion llesiant yn dal i fod yn briodol. Gallai hyn gynnwys blaenoriaethau Gweinidogol, y Rhaglen Lywodraethu a llythyrau cylch gwaith, lle bo hynny'n berthnasol.<br>• Mae'r corff yn ystyried newidiadau i'r amcanion llesiant yn ôl y gofyn. |

| I ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant? | |
|---|---|
| | • Mae'r Awdurdod wedi ystyried sut y bydd yn mynd i'r afael â gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a'i newidiadau i amcanion llesiant cenedlaethol. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence in English and Welsh.

| At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig | |
|---|---|
| Corff a archwilir | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Enw'r archwiliad | Pennu Amcanion Llesiant |
| Dyddiad cyhoeddi | Medi 2025 |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau ar gyfer asesu ei berfformiad yn erbyn ei amcanion llesiant. Mae hyn yn cynnwys gosod mesur perfformiad strategol i gydfynd â'i amcanion llesiant sy'n casglu'r effaith tymor byr a hirdymor y mae'n anelu ati. | Bydd mesurau'n cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o amcanion llesiant yn 2026. Wrth ddatblygu'r amcanion hyn, rhoddir pwyslais ar ganlyniadau (yn hytrach na gweithgareddau) ar gyfer y tymor byr a'r hir dymor.  Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried integreiddio ei Gynllun Rheoli (Cynllun Eryri) â'r amcanion llesiant. Bydd hyn yn cryfhau'r gallu i fonitro perfformiad – mae gan Gynlluniau Rheoli ganllawiau helaeth ar asesu data/tystiolaeth sylfaenol a gofynion monitro parhaus. Felly, dylai hyn hepu'r broses fonitro gyffredinol. | 2026 ymlaen | Prif Weithredwr | |

# Ffurflen ymateb rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **A2** | Wrth adolygu ei amcanion llesiant yn y dyfodol, dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth i helpu i benderfynu a yw'r amcanion yn parhau i fod yn briodol. Gallai ffynonellau o'r fath ymwneud â newidiadau yn ei amgylchedd mewnol ac allanol. Gallai enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:<br>▫ Deddfwriaeth[1] a pholisi newydd, gan gynnwys newidiadau i'r amcanion llesiant. | Trefnwyd sesiwn ddechrau mis Hydref 2025 gyda Chynghorydd Datblygu Cynaliadwy Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Sesiwn i atgoffa'r Tîm Arweinyddiaeth o'r Ddeddf. Mae'n debygol y cynhelir sesiwn hyfforddi bellach gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod yn gynnar yn 2026.<br><br>Er mwyn ffurfioli'r broses flynyddol bresennol o adolygu'r amcanion lles:<br>➢ Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn asesu os bydd angen adolygu'r amcanion llesiant gan ystyried dogfennau perthnasol (fel sydd wedi'u rhestru gan AC). | 2026 ymlaen | Prif Weithredwr | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ☐ Gwybodaeth am dueddiadau, gan gynnwys, er enghraifft, adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.<br>☐ Cyngor a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>☐ Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru – Asesiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar Ardal.<br>☐ Unrhyw weithgaredd ymgysylltu perthnasol a ymgymerir gan eraill a allai fod yn ddefnyddiol neu'n berthnasol. | ➢ Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i Aelodau'r Awdurdod yn rhestru'r dogfennau ac ati sydd wedi'u hystyried fel rhan o adolygiad blynyddol ac yn cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer adolygu'r amcanion lles.<br><br>Bydd integreiddio cynhyrchu Cynllun Eryri â'r Amcanion Llesiant hefyd yn sicrhau mecanweithiau pellach i sicrhau bod ystod eang o wybodaeth yn cael ei defnyddio – gan sicrhau bod yr amcanion yn parhau i fod yn briodol. Bydd swyddogion yn sicrhau bod fframwaith priodol ar waith i ganiatáu asesiad cynhwysfawr a pharhaus o wybodaeth a thystiolaeth.<br><br>Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd ac yn trafod gydag Aelodau yn ystod cyfarfod o Weithgor ac yn derbyn penderfyniad terfynol naill ai yn ystod cyfarfod o'r Awdurdod llawn neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. | | | |

**Eitem Rhif 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Targedau Monitro Perfformiad Llywodraeth Cymru Ebrill – Medi 2025** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | I ddarparu ymateb cychwynnol i'r targedau uchod |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio Eitem 10 o gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi, lle cyflwynais dargedau monitro perfformiad newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u sefydlu i sicrhau asesiad a chyflawniad cyson yn erbyn blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Dylid monitro ac adrodd ar y data perfformiad bob 6 mis, gydag asesiad canol blwyddyn byrrach (yr un hon) ac adroddiad diwedd blwyddyn mwy cyflawn (a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf).

## 2. PERFFORMIAD

2.1 Mae'r tabl sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A yn cynnwys asesiad yr Awdurdod yn erbyn y targedau perfformiad hyn. Gan mai dim ond 6 mis sydd ers i'r targedau hyn gael eu sefydlu, ac mae'r setiau data yn dal i esblygu, rydym wedi dibynnu'n eithaf helaeth ar naratif i ddisgrifio perfformiad ar yr achlysur hwn. Fodd bynnag, rwy'n credu bod hyn yn darparu llinell sylfaen ddefnyddiol, a bydd adrodd yn y dyfodol yn haws nawr bod y llinell sylfaen wedi'i sefydlu.

2.2 Yn bwysig, gan mai dyma'r set ddata gyntaf yn erbyn y targedau perfformiad hyn, ychydig iawn o ddata hanesyddol cymharol sydd ar gael, felly nid oes llawer o bwynt darparu dadansoddiad perfformiad manwl ar hyn o bryd. Efallai y bydd mwy o le i ddarparu rhywfaint o ddadansoddiad cychwynnol pan gyflwynir y set ddata lawn ar ddiwedd 2025/26 (bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2026).

## 3. CASGLIAD

3.1 Mae Atodiad A yn rhoi ymateb yr Awdurdod i dargedau monitro perfformiad newydd Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cam cynnar hwn yn y broses monitro perfformiad hon, ni ragwelir dadansoddiad manwl o'r data. Fodd bynnag, gall yr Aelodau, wrth gwrs, godi unrhyw ymholiadau ynghylch y data neu'r enghreifftiau naratif a ddarperir.

4. **ARGYMHELLIAD:**

**4.1 I'r Aelodau gymeradwyo ymateb canol blwyddyn cychwynnol yr Awdurdod i dargedau rheoli perfformiad newydd Llywodraeth Cymru.**

**4.2 I'r Aelodau nodi y bydd asesiad manwl pellach yn dilyn ym mis Gorffennaf 2026.**

ATODIAD 1.

## 2025-26

# BLAENORIAETHAU STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU: TEMPLED ADRODD

**Awdurdod Parc Cenedlaethol: ERYRI**

**Cyfeiriwch at y canllawiau ar wahân cyn llenwi.**

**RHAN A: Yr Amgylchedd**

| Cyf | Blaenoriaethau Craidd | Tystiolaeth 6 mis | Tystiolaeth Flynyddol | Dangosyddion (uned) (mesuriad) |
|---|---|---|---|---|
| EN1 | Cefnogi ymrwymiad LIC i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy waith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr | Data a ddarparwyd ym mis Medi y flwyddyn ganlynol + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | **Cyfanswm allyriadau'r Awdurdod:**<br><br>**2024/25**<br>**779,123 kg$CO_2$e *(Cwmpas 1, 2 a 3) o allyriadau* a 1,005,213 kg$CO_2$e o ddileadau (land based removals) *(y tu allan i'r cwmpasau)***<br><br>**2023/24**<br>**814,188 kg$CO_2$e *(Cwmpas 1, 2 a 3) o allyriadau* a 1,041,334 kg$CO_2$e o ddileadau *(y tu allan i'r cwmpasau)***<br>**Ers 2023/24: gostyngiad o 4.3% yn yr allyriadau**<br>**Ers 2023/24: gostyngiad o 3.5% yn y dileadau**<br><br>**Mae'r data'n dangos bod y carbon a dynnir trwy'r tir yn fwy nac allyriadau'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn gweithio i wella ar hyn o ran gwaith dydd i ddydd.**<br><br>**£107,253 wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau datgarboneiddio cymunedol** |
| EN2 | Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd pan fo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr (e.e. drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP)) | Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | Cyfanswm creu coetir a gyflawnwyd (hectarau) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).<br>**24.9ha yn 2024.**<br><br>**19.75 ha wedi ei gynllunio/ar weill yn 2025**<br><br>Arwynebedd o Fawn sy'n bresennol yn y Parc (N.B. mae hyn ar gyfer cyd-destun).<br>**"Unified Peat Map" (hen) 24,273ha (26.5%)**<br>**"Unified Peat Map (2022) 16,743ha (20%)**<br><br>Gwaith adfer mawndiroedd a gyflawnwyd (hectarau) (% -/+ o' gymharu â'r flwyddyn flaenorol) drwy NPAP neu waith arall<br>**2024: 2,891ha o fewn y PC a 960ha tu allan i ffin y PC**<br>**Arolygu 1106ha yn y PC a 682ha tu allan i ffin y PC**<br>**2025: Arolygu 1074ha yn y PC.**<br>**Arolygu 44ha tu allan i ffin y PC** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Dim data adfer hyd yn hyn, y gwaith newydd ddechrau.**<br><br>Hyd (metrau) o berthi/gwrychoedd a blannwyd (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>**2024: 6,515m o wrychoedd wedi eu plannu**<br>**2025: 10,325m wedi eu cynllunio hyd yn hyn**<br><br>Nifer y coed a blannwyd (Noder: coed safonol/mewn caeau, ac eithrio coed a blannwyd mewn perthi/gwrychoedd neu goetir) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) **2024: 1,370. 2025: 4,085 wedi eu cynllunio**<br><br>Arwynebedd (hectarau) o ddolydd a blannwyd (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) **2024: 1.23ha** |
| EN3 | Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â pherchnogion tir preifat (hectarau) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>**2024: 242.7ha 53 perchennog**<br>**2025: 408.95ha 65 perchennog (wedi eu cynllunio hyd yn hyn)**<br><br>tir sy'n eiddo i'r Awdurdod neu sy'n cael ei lesio gan yr Awdurdod a reolir ar gyfer bioamrywiaeth (hectarau) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma]<br>**90ha. Dim newid** |
| EN4 | Cyflawni'r Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Natur a Charbon a chynlluniau eraill LIC i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | 2024-25 Cyfanswm y buddsoddiad ariannol mewn mentrau Natur a Charbon (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>Allbynnau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy pan fo hynny'n berthnasol<br>**2024: Natur £577,181.00 Carbon: £155,500 (Ystad APCE)**<br>**£107,253 (Cymunedau)** |
| | **<u>Blaenoriaethau Ategol:</u>**<br>Cefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau ymhlith staff, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaeth | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | **EN5**<br><br>• **Mae coeden benderfyniadau teithio yn cael ei chreu i arwain staff trwy'r hierarchaeth teithio cynaliadwy a'r cynlluniau perthnasol (megis Cycle 2 Work) er mwyn cefnogi dewisiadau teithio i'r gwaith a theithio busnes sy'n fwy eco-gyfeillgar.**<br>• **Mae'r Awdurdod yn archwilio cynlluniau ceir aberthu cyflog, gyda phwyslais ar gerbydau hybrid a thrydanol (EV).**<br>• **Mae fideo tiwtorial ar gyfer car pwll trydanol (EV) wedi'i greu ar gyfer staff ac wedi'i hyrwyddo ar fewnrwyd yr Awdurdod.** |
| EN6 | Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun wedi'i dargedu i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas. | | | • **Cyfrannu'n ariannol ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy tuag at rwydwaith Sherpa'r Wyddfa sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y teithwyr yn dilyn: gwelliannau i'r rhwydwaith, ail-frandio ag ymgyrchoedd marchnata.**<br>• **Grŵp Ogwen yn cynnwys: NMWTRA, Traffic Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd, APCE, Cyngor Conwy, Heddlu Gogledd Cymru, ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion parcio a theithio. Y grŵp wedi gweithio'n llwyddiannus ac wedi gweithredu gwelliannu fel: llinellau dwbl melyn, arwyddion digidol, a gwell rheolaeth sydd wedi cael effaith bositif ar yr ardal.**<br>• **Grŵp Ogwen yn edrych ar bosibiliadau o gynnal peilot parcio a theithio yn yr ardal, gan ddefnyddio safle Bryn Cegin – gyda'r gobaith i'r peilot fod yn weithredol erbyn Pasg 2026.**<br><br>**EN6: dim**<br><br>**EN7**<br>• **Mae'r proses o adolygu'r Cynllun Eryri (2026-2031) a'r LDP yn mynd i ymnghyngori ar gofynion y cyhoedd ac wahanol sector am anghenion egni.**<br><br>**EN8**<br>• **Mae Polisi Plastig Untro ar waith yn yr Awdurdod, ynghyd â'r Polisi Caffael Gwyrdd (a fydd yn cael ei adolygu'n fuan).**<br>• **Mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu'r Cynllun Busnesau Di-Blastig, gyda dros 40 o fusnesau yn cymryd rhan ac wedi ymrwymo i leihau gwastraff, gwella dulliau ailgylchu ac annog ymwelwyr i weithredu fel stiwardiaid amgylcheddol wrth ymweld ag Eryri.**<br>• **Mae prosiect SLSP ar y gweill i ddatblygu platfform twristiaeth gynaliadwy tebyg i CopenPay, a fydd yn gwobrwyo ymwelwyr am gymryd camau cynaliadwy megis prynu'n lleol, defnyddio eitemau ailddefnyddiadwy a chasglu sbwriel.**<br>• **Mae'r Awdurdod hefyd wedi bod yn dileu biniau gwastraff cymysg o safleoedd ac yn annog y cyhoedd i fynd â'u sbwriel adref er mwyn ei ailgylchu'n briodol.** |
| EN7 | Ymwneud â Chynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteision i'ch cymunedau | | | |
| EN8 | Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastigau untro drwy annog pobl i beidio â'u defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl. | | | |

**RHAN B: Pobl a Lleoedd**

| Cyf | Blaenoriaethau Craidd: | Tystiolaeth 6 mis | Tystiolaeth flynyddol | Dangosyddion posibl (uned) (mesuriad) |
|---|---|---|---|---|
| PP1 | Cyfrannu at weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Bro | Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | Daliadau fferm a gefnogwyd (niferoedd) **41**<br><br>Grwpiau ffermwyr a gefnogwyd (grwpiau neu gydweithrediadau presennol neu newydd. **14**<br><br>Dylid adrodd am fanteision ecolegol o fewn EN3 |
| PP2 | Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | **Mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at ariannu'r Barteriaeth Hwyluswr Tai Gwledig yn ardal Y Parc Cenedlaethol ar y cyd gyda Cynghor Gwynedd a Cymdeithasau Tai lleol sydd yn weithredol yn yr ardal. Mae'r Hwyluswur Tai Gwledig yn cydweithio gyda Awdurdodau Tai Conwy a Gwynedd. Rol yr Hwylusywr Tai Gwledig yw codi ymwybyddiaeth am brinder tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol mewn ardaloedd gwledig, casglu gwybodaeth er mwyn deall yr angen am dai fforddiadwy o fewn y cymunedau gwledig, rhoi grym i'r cymunedau fel gallant ymchwilio i opsiynau arloesol a cynnig cefnogaeth i breswylwyr i fyw mewn cymunedau cynaliadwy. Yn ystod y flwyddyn bu'r Hwylusywr yn cynnal arolygon anghenion tai lleol yn Ninas Mawddwy a Llanbedr, ac bydd rhaglen o arolygon yn parhau. Defnyddiwyd canfyddiadau arolwg anghenion tai lleol gan Gymdeithas Tai i ddylanwadu ar y math o dai yn natblygiad tai Fforddiadwy yn Harlech, a chwblhawyd yn 2025.**<br><br>**Mae yr Awdurdod hefyd yn gweithio i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o unrhyw symiau cymudo tai fforddiadwy a dderbyniwyd i gynorthwyo gyda darparu tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.**<br>**Yn dilyn gwaith cymunedol yn ardal Penmachno a trafodaethau rhwng Menter Iaith Conwy a'r Awdurdod, mae'r Awdurdod wedi ariannu swyddog tai dan arweiniad y Gymuned rhan amser yn ardal Penmachno i geisio gwireddu yr amcan o "*Archwilio datrysiadau arloesol i ddiwallu angen dan arweinyddiaeth y gymuned, gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cynlluniau byddai'n gwneud defnydd o dai ac adeiladau gwag yn y pentref*". Mae'r Prosiect yma ar y cyd gyda Menter Iaith Conwy. Mae'r swyddog yn gyflogedig gan y Fenter gyda'r fenter yn cynnig cefnogaeth weinyddol a lleoli'r Swyddog rhwng Penmachno a Prif Swyddfa'r Fenter yn Llanrwst. Mae y swyddog yn atebol yn i Brif Weithredwr Menter Iaith Conwy ac yn derbyn ei raglen waith trwy bwyllgor llywio Partneriaeth Tai** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Penmachno. Ni fyddai y Prosiect wedi bod yn bosib heb arian symiau cymudo gan yr Awdurdod. Swydd 3 diwrnod ydi'r swyddog ar hyn o bryd ond mae'r Awdurdod wedi cefnogi y Fenter i roi cais am arian i'r Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU i ymestyn y swydd i ddau ddiwrnod ychwanegol.**<br><br>**Mae'r Awdurdod mewn trafodaethau gyda Cyngor Gwynedd i ddefnyddio arian symiau cymudo ar gyfer Cynllun Prynu i Osod Cyngor Gwynedd i anelu at gynyddu'r nifer o dai rhent fforddiadwy yn y Sir. Byddai'r buddsoddiad yn galluogi ac yn hwyluso pryniannau mewn ardaloedd sydd tu hwnt i'n cyrraedd yn ariannol ar hyn o bryd ac yn arwain at gynyddu'r stoc o dai fforddiadwy. Gall cyfraniad symiau cymudo gefnogi'r pryniant a/neu'r gwaith atgyweirio.**<br><br>**Mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at waith peilot ardal Dwyfor, Llywodraeth Cymru pan fod angen.**<br><br>**Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn trafod yn rheolaidd gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu lle bo angen.**<br><br>**Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel rhan o ymdrechion i reoli stoc tai Eryri yn well drwy atal unrhyw leihad pellach yn y stoc tai bresennol sydd ar gael i gymunedau lleol. Mae'n ceisio sicrhau bod mwynderau trigolion yn cael eu gwarchod gan warchod cymunedau sy'n cynnig cyfleoedd i bobl fyw a gweithio ynddynt.**<br><br>**Mae'r Awdurdod ar fin dechrau ar y broses o ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol ac am fynd ati i sefydlu Partneriaeth Dai Eryri lle bydd yn edrych i ddatblygu polisiau ar y cyd gyda rhanddeiliaid i ymateb i heriau tai o fewn y Parc Cenedlethol.** |
| PP3 | Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | • **Cyfrannu'n ariannol ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy tuag at rwydwaith Sherpa'r Wyddfa sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y teithwyr yn dilyn: gwelliannau i'r rhwydwaith, ail-frandio ag ymgyrchoedd marchnata.**<br>• **Grŵp Ogwen yn cynnwys: NMWTRA, Traffic Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd, APCE, Cyngor Conwy, Heddlu Gogledd Cymru, ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion parcio a theithio. Y grŵp wedi gweithio'n llwyddiannus ac wedi gweithredu gwelliannu** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | fel: llinellau dwbl melyn, arwyddion digidol, a gwell rheolaeth sydd wedi cael effaith bositif ar yr ardal.<br>• Grŵp Ogwen yn edrych ar bosibiliadau o gynnal peilot parcio a theithio yn yr ardal, gan ddefnyddio safle Bryn Cegin – gyda'r gobaith i'r peilot fod yn weithredol erbyn Pasg 2026.<br>• Creu cynnwys digidol ar y cyd ar wefannau cymdeithasol y Parc gyda'r partneriaid yn rhannu er eu platfformau eu hunain. Cynnwys negeseuon am ymweliadau cyfrifol , gan gynnwys parcio a theithio yn gynaliadwy.<br>• Cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i gael Swyddog o'r Heddlu ar leoliad o fewn gweithlu'r Awdurdod, i wella dealltwriaeth yr Heddlu o'r heriau yn wynebu'r Awdurdod (e.e. cynnydd sylweddol mewn galwadau i'r timau achub mynydd, ymddygiad anghymdeithasol a'r bygythiad i ddiogelwch ar y ffyrdd o ganlyniad i barcio anghyfreithlon).<br>• Fan hysbysebion 'ADVAN' Heddlu Gogledd Cymru wedi bod o gwmpas safleoedd prysur ar benwythnosau a gwyliau banc yn arddangos negeseuon ynglŷn ag ymweld yn gyfrifol (Mentra'n Gall a pharcio cyfrifol).<br>• Wedi ymgynghori â chymuned Llangywer, sydd wedi arwain at y Cyngor yn gosod llinellau dwbl melyn yr ardal ac yn creu clirffordd i rwystro ceir barcio'n anghyfrifol.<br>• Treialu camerâu ANPR yn safle Llyn Tegid, Llangywer a Betws y Coed gan edrych ar opsiynau gorfodaeth.<br>• Yr Awdurdod yn parhau i annog ymwelwyr a thrigolion i gynllunio ymlaen llaw ac i ddefnyddio bysiau cyhoeddus e.e. dal yr S4 o Borthmadog i Nantgwynant i leihau'r pwysau ar yr ardal. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PP4 | Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, diwylliant a threftadaeth. | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | **Hawliau Tramwy:**<br>**Mae prosiectau i gael gwared ar rwystrau mynediad ffisegol neu eu gwella yn seiliedig ar ethos 'mynediad lleiaf cyfyngol' yn mynd rhagddynt yn gyson, sy'n cynnwys rhaglen gynnal a chadw wedi'i chynllunio. Dyma rai enghreifftiau diweddar o waith wedi'i gwblhau:**<br><br>**Pont Lôn Gwyrfai, Rhyd Ddu: Amnewid y byrddau decio a'r trawstiau eistedd pren ar hyd y bont aml-ddefnyddiwr boblogaidd hon.**<br><br>**Hen A5 – Capel Curing: Mae Tîm Llwybr Troed Mynediad wedi treulio amser yn atgyweirio'r lefelau uchel o erydiad a difrod dŵr ar y llwybr aml-ddefnyddiwr poblogaidd hwn. Roedd difrod stormydd y gaeaf wedi arwain at sianeli dwfn yn ffurfio yn y llwybr, a gafodd effaith ar addasrwydd a dymunoldeb y llwybr fel llwybr aml-ddefnyddiwr. Y cynnyrch gorffenedig yw llwybr ag arwyneb agregau eithaf llyfn a gwastad, sy'n cynnal ei lefelau disgwyliedig o hygyrchedd.**<br><br>**Llwybrau Ceffylau Cwm Pennant: Amnewid gatiau diffygiol a thoredig ar hyd sawl llwybr ceffylau ym mhen draw Cwm Pennant. Y canlyniad terfynol yw cyfres o gatiau metel hunan-gau, sydd nid yn unig yn gwasanaethu i wella mynediad, ond hefyd yn cynorthwyo'r tirfeddianwyr i reoli da byw.**<br><br>**Ymwelwyr i safleoedd diwylliannol**<br><br>**Mae’r Ysgwrn yn safle diwylliannol o arwyddocad cenedlaethol sy’n gwireddu blaenoriaethau diwylliannol Llywodraeth Cymru drwy ofal adeiladau, casgliadau ac ymgysylltu pobl mewn treftadaeth ddiwylliannol cyffyrddiol ac anniriaethol. Cynhaliwyd rhaglen o hyfforddiant sgiliau traddodiadol amrywiol (gyda chefnogaeth cronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy) ac mae gwerthusiad y peilot hwn wedi ffurfio sail prosiectau sgiliau traddodiadol pellach fel rhan o brosiect Dadgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol ac yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Lechi Gogledd Orllewin Cymru.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PP5 | Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu, gan gyflawni yn unol â *Cymraeg 2050*: *Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | **Tystiolaeth 6 mis:**<br>**Er gwaethaf anawsterau recriwtio mewn rhai meysydd gwaith, mae'r Awdurdod yn llwyddo i gynnal ei ganran uchel o siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu. Ar 01.04.25, roedd gan yr Awdurdod 136 o staff ac roedd 130 neu 95.6% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg i'r lefel ddisgwyliedig o fewn eu rôl. Mae polisïau mabwysiedig ar ddefnydd mewnol o'r iaith Gymraeg a fframwaith iaith Gymraeg ar gyfer asesu lefelau sgiliau ar gyfer swyddi wedi ffurfioli'r gofynion. Mae hyn, ynghyd â chreu swyddi hyfforddeion i 'feithrin ein harbenigwyr ein hunain', yn sicrhau, trwy arwain trwy esiampl, y gall yr iaith Gymraeg barhau i ffynnu yn Eryri.**<br><br>**Y newid mwyaf yn ystod y cyfnod adrodd oedd cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar 1.06.25, gyda'r prif amcan o greu ymyrraeth gyda'r disgwyliad y gall yr Awdurdod, dros y tymor hwy, gyfrannu at ddiogelu'r iaith Gymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg. Nod yr ymyrraeth yw creu a chynnal cymunedau cynaliadwy trwy stoc ddigonol a fforddiadwyedd tai preswyl prif breswyl i drigolion Eryri.**<br><br>**Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Eryri. Mae datblygu polisïau a gweithredu prosiectau arloesol yn parhau trwy Is-grŵp Iaith Gymraeg BGC Gwynedd a Môn sydd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu prosiect 'Chwalu Mythau' sydd wedi'i anelu at bobl ifanc yn bennaf.**<br><br>**Mae gwaith yr Awdurdod ym maes enwau tirweddol Cymraeg yn cael ei nodi fel 'exemplar' yn y maes hwn. Rydym ar hyn o bryd yn cydweithio gydag Arolwg Ordnans, Prifysgol Caerdydd, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar waith strategol yn y maes enwau tirweddol a gyda chymunedau ardal y Parc Cenedlaethol i gasglu a chofnodi enwau.** |
| PP6 | Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych yn eu rheoli | Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr | Data + Naratif, tueddiadau hirdymor | **Gwasanaeth llogi tramper**<br>**Mae'r gwasanaeth yn fenter rymusol sy'n galluogi pobl ag anableddau corfforol i gysylltu'n annibynnol gyda natur. Gyda 44 o archebion hyd yma yn 2025, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi ystod eang o ddefnyddwyr, o'r rhai sydd newydd ddod yn anabl i ddefnyddwyr cadair olwyn hirdymor.**<br><br>**Y gobaith yw y bydd y fenter yn datblygu law yn llaw a'r defnyddwyr.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Adborth defnyddwyr y tramper:**<br>**"Dim ond ers blwyddyn yr wyf wedi bod yn anabl ac yn hiraethu am fyd natur. Mae gan y tramper allu anhygoel - roeddwn wedi fy siomi o'r ochr orau o'r hyn oedd yn gallu ei wneud."**<br>**"Dyma'r unig ffordd y gallwn ymuno â'm teulu ar y daith gerdded hon."**<br>**"Roedd Robat fel chwa o awyr iach."**<br>**"Roedd Etta yn wych ac yn hynod gymwynasgar."**<br><br>**Gweithio gyda GISDA**<br>**Ein gweledigaeth drwy gydweithio gyda GISDA a'r Bartneriaeth Awyr Agored oedd cynnig cyfleoedd amrywiol i bobl ifanc digartref a / neu fregus yng Ngwynedd.**<br>**Mae GISDA yn elusen sy'n darparu llety, cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc 16-25, gan feithrin eu datblygiad tuag at annibyniaeth a bywydau hapus a diogel yn rhydd o annhegwch ac anfantais. Dros gyfnod o ddeufis, fe gynhaliwyd 4 gweithgaredd, gyda 4-6 yn mynychu pob sesiwn.**<br>**Roedd y sesiynau yn cynnwys:**<br>**– gwaith cadwraeth i ymdrin â rhywogaethau ymledol;**<br>**– ymgysylltiad treftadaeth ar ardal lechi drwy ddangos ffilm o dan ddaear i'r bobl ifanc;**<br>**– sesiwn codi sbwriel tra'n padl fyrddio;**<br>**– gweithgaredd cerdded afon mewn ceunant sydd â statws gwarchodfa natur o bwys cenedlaethol;**<br>**– taith danddaearol i un o safleoedd chwareli Gogledd Cymru yng Nghwm Penmachno;**<br>**– profiad o ddysgu sgil newydd drwy geufadau; a**<br>**– phwysigrwydd diogelwch dŵr.**<br><br>**Gobeithiwn ddatblygu rhaglen hirdymor fydd yn datblygu'r sgiliau a'r cyfleoedd ymhellach drwy hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli, cymwysterau o fewn y sector gadwraeth a gweithgareddau awyr agored.**<br><br>**Mae Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol wedi nodi'r flaenoriaeth lefel uchel o "annog mynediad diogel a chyfriol at natur a lles i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd ac yn berthnasol hefyd mae Amcan Llesiant LIC i "ddathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb yn mhob un o' ffurfiau". Gyda'r bwriad o greu polisi newydd ar gyfer Cynllun Rheoli PC Eryri bydd symposiwm yn cael ei gynnal Ionawr 2026 er mwyn mapio allan partneriaid posib, a chydnabod grwpiau targed yn Eryri.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Llysgenhadon Eryri**<br>**Lansiwyd y cynllun llysgenhadon ym mis Tachwedd 2020, gan roi cyfle unigryw i ddysgu am Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol a'r hyn sy'n gwneud Eryri yn lle eithriadol. Mae llysgenhadon yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfoethogi profiad ymwelwyr a lleol Eryri. Mae'r cynllun Llysgenhadon hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran darparu negeseuon a gwybodaeth gyson a chywir am Eryri. Mae ffigurau presennol y Llysgenhadon ym mis Hydref 2024 fel a ganlyn:**<br>**Efydd 1200**<br>**Arian 944**<br>**Aur 8**<br><br>**Ceidwad Ifanc (gweler PP7)** |
| PP7 | Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr | Data + Naratif, tueddiadau hirdymor | **1 x Hyfforddai Coed a Choetiroedd (+50%)**<br><br>**Mae'r Awdurdod yn parhau i fuddsoddi a chydlynu hyfforddiant arwyddocaol i wirfoddolwyr - gan sicrhau bod eu profiad yn un gwerth chweil sydd yn unol â nodau strategol ehangach yr Awdurdod.**<br><br>**Trwy raglenni fel Caru Eryri a'r Cynllun Wardeiniaid Gwirfoddol, mae unigolion o bob oed a chefndir yn rhoi eu hamser ac egni i gefnogi gwaith yr Awdurdod ym meysydd cadwraeth, mynediad, ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r rolau hyn yn cynnig profiad ymarferol mewn rheoli cefn gwlad, cynnal llwybrau, a chefnogi ymwelwyr – gan gynnig profiadau gwerthfawr a chyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol sydd yn ehangu cyfleoedd cyflogaeth.**<br><br>**Hyd yma yn ystod 2025, mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu 5832 awr o wasanaeth ar draws amrywiaeth eang o leoliadau a gweithgareddau yn Eryri. Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchiad o gyfraniad ag ymrwymiad dwfn unigolion sy'n dychwelyd dro ar ôl tro ac sy'n ymfalchïo yn eu gwaith.**<br>**Mae'r rhaglenni gwirfoddoli hyn yn meithrin ymdeimlad o falchder a pherthyn wrth ofalu am Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**<br><br>**Ceidwad Ifanc**<br>**Yn ystod haf 2025 cynhaliwyd sesiynau blasu fel rhan o gynlluniau'r APCE i ail lansio Cynllun Ceidwaid Ifanc Eryri. Cynhaliwyd dwy sesiwn, un yn ne Gwynedd gyda 15 o bobl ifanc rhwng 13-17 mlwydd oed wedi mynychu, a sesiwn yng ngogledd y Parc mewn partneriaeth â Chanolfan Awyr Agored** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cenedlaethol Plas y Brenin gyda 17 o bobl ifanc wedi mynychu. Fe gofrestrwyd dros 40 o bobl ifanc eu diddordeb yn y cynllun, gydag ymrwymiad gan ein partneriaethau i ddatblygu'r cynllun yn ehangach. Rydym wedi recriwtio 9 o bobl ifanc i fod yn arweinyddion i'r cynllun.<br><br>Rydym nawr yn datblygu rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd yn canolbwyntio ar ystod o brosiectau cadwraethol gwirfoddol. Byddem hefyd yn cynnig sesiynau cymdeithasol i'r Ceidwaid Ifanc megis: sgyrsiau gan lysgenhadon sydd yn arloesi mewn meysydd awyr agored, sgiliau cefn gwlad neu gadwraeth, sesiynau cymdeithasol dringo o dan do, a phrofiadau gweithgareddau treftadaeth ddiwylliannol.<br><br>Hyfforddiant Sgiliau Traddodiadol - ffigyrau a manylion<br>Hyd yma:<br>Mai a Mehefin 2024: Cynhaliwyd tri cwrs gosod crawiau / pileri Llechi. Roedd pob cwrs yn llawn a 24 o bobl wedi derbyn hyfforddiant. Cafwyd adborth gadarnhaol gyda nifer yn awyddus i fynychu rhagor o hyfforddiant yn y dyfodol.<br>Medi 2024: Cynhaliwyd un cwrs Effeithlonrwydd mewn Adeiladau Traddodiadol i 20 o bobl a un cwrs Plastro'r calch a phwyntio i 8 person.<br>Mae'r hyfforddiant yma'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, er mwyn gwella cyflwr ardaloedd cadwraeth Eryri. Bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei gynnig cyn diwedd Mawrth 2025 (i'w gadarnhau):<br>Walio (dry stone walling)<br>Uwchsgilio o leiaf un contractwr walio, i'w gymhwyso i fod yn hyfforddwr<br>Triniaethau ffenest a thoi traddodiadol<br>Cwblhawyd gwerthusiad o'r prosiect hwn, sy'n sylfaen ar gyfer gwaith pellach yn y maes yn Nolgellau ac o fewn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Lechi Gogledd Orllwein Cymru.<br><br>Addysg<br>Mae Eryri yn cynnig llwyfan addysgol wych, gan feithrin dysgu trwy brofiadau ymarferol. Mae cynlluniau prentisiaeth o fewn y Parc yn darparu cyfleoedd amhrisiadwy i unigolion ymgysylltu â natur, hanes ac arferion cadwraeth yn uniongyrchol. Drwy weithio ochr yn ochr â wardeiniaid, haneswyr a gwyddonwyr, mae'r uniogolion yma yn ennill sgiliau ymarferol wrth ddyfnhau eu dealltwriaeth o stiwardiaeth amgylcheddol a threftadaeth ddiwylliannol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau sef partneriaeth o sefydliadau yn gweithio ar gynllun 5 mlynedd i helpu i warchod treftadaeth y Carneddau yn cynnig Prentisiaethau. Gweler mwy o wybodaeth am y prosiect fan hyn gan gynnwys Gair gan ein Prentis – blog wedi'i ysgrifennu gan Eleri Turner (2021/22) a Sophie Davies (2022/23).**<br><br>**Drwy'r cynllun yma, mae yna hefyd raglen hyfforddiant sgiliau traddodiadol gan gynnwys walio traddodiadol, plannu gwrych a gwaith crawiau. Mae cynllun y Carneddau hefyd yn cynnig hyfforddiant pladuro yn ystod 2024.** |
| PP8 | <u>**Blaenoriaethau Ategol:**</u><br>Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | **PP8: bosib byddwn yn datblygu rhaglen ar y cyd gyda cynhyrchwyr lleol fel rhan o'n dathliadau penblwydd 75 y Parc – mwy i ddod ar hwn flwyddyn nesaf.**<br><br>**PP9:**<br>**Heb ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir.**<br><br>**Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC): Cyngor Gwynedd a Cyngor Conwy yw'r Cyrff Cymeradwyo SDC a mae'n rhaid i gynlluniau SDC gael eu cymeradwyo gaddynt cyn i waith adeiladu ddechrau. Mae'r broses o gymeradwyo cynlluniau draenio ar wahân i dderbyn caniatâd cynllunio, er hyn mae'r Awdurdod yn annog datblygwyr i ystyried y ddwy broses ar y cyd gan y gall y naill effeithio'r llall.**<br><br>**PP10 – dim dros y 6 mis diwethaf** |
| PP9 | Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy | | | |
| PP10 | Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol | | | |

**RHAN C: Llywodraethiant a Chydweithredu**

| Cyf | Blaenoriaethau Craidd: | Tystiolaeth 6 mis | Tystiolaeth flynyddol | Dangosyddion (uned) (mesuriad) |
|---|---|---|---|---|
| GC1 | Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethiant, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill yn rhannu arferion gorau a hyfforddiant â'i gilydd | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | **Tystiolaeth 6 mis:**<br>**Mae'r amserlen adolygu polisïau wedi'i hadolygu a'i ffurfioli i sicrhau bod polisïau llywodraethu yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol. Rhan o'r broses o adolygu pob polisi fydd rhannu arfer gorau cyfredol gyda'r 2 APC arall yng Nghymru.**<br><br>**Cynhaliodd yr adran Gadwraeth weithdai blynyddol Grwpiau arbenigol Ecolegwyr a Choetiroedd PC y DU yn Eryri yn ystod y flwyddyn. 2 gyfarfod, 50 o gynrychiolwyr.** |
| GC2 | Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | **Tystiolaeth 6 mis:**<br>**Er mai dim ond dylanwad ymylol sydd gan yr Awdurdod ar ddewis ein Haelodau, gallwn sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu ceisio a'u bwydo i'n prosesau gwneud penderfyniadau. Mae Strategaeth Ymgysylltu gynhwysfawr yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a fydd yn sail i'r gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf.**<br><br>**Oed Cyfartaledd cymedrig Awdurdod gyfan: 60**<br><br>**Awdurdod gyfan:**<br>**Benywaidd: 10 [56%]**<br>**Gwrywaidd: 8 [44%]** |
| GC3 | Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd ragweithiol i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | • **Mae APCE yn cyfrannu at cyfarfodydd a rhaglen waith TC.**<br>• **Mae’r Tim Arweinyddiaeth y 3 Parc wedi cyfarfod eleni i drafod rhaglen waith strategol a prosiectau cyd-weithio;**<br>• **Prosiect Nos**<br>• **Ffwermio Bro** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| GC4 | Ymgorfforі'r adnoddau a grëwyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu Aelodau, darpariaeth hyfforddi a phecynnau cymorth, mewn trefniadau cynefino a datblygu aelodau | Data ar hyfforddiant Llywodraethu, naratif byr | Data ar ymgysylltu â hyfforddiant Llywodraethu, Enghreifftiau naratif, tueddiadau hirdymor | **Tystiolaeth 6 mis:**<br>**% o aelodau sydd wedi mynychu pob un o'r pedwar sesiwn hyfforddi ar-lein ar Lywodraethu neu wedi gwylio'r recordiadau – Mae'r data presenoldeb yr Aelodau yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru ac nid Eryri, gan fod sesiynau hyfforddi ar-lein wedi'u trefnu'n uniongyrchol. Cynhaliwyd sy esiynau hyfforddi hyn yn ystod 2024/25 ac felly nid ydynt yn berthnasol ar gyfer y cyfnod adrodd hwn pryn bynnag.**<br><br>**Mae pob Aelod wedi derbyn copi o Lawlyfr Llywodraethu'r Aelodau. Mae Aelodau newydd yn derbyn copi fel rhan o'u Pecyn Anwytho, ac ymdrinnir â materion llywodraethu yn eu Sesiwn Anwytho.**<br><br>**Yn ystod y cyfnod 01.04.25 – 30.09.25 derbyniodd cyfanswm o 4 Aelod newydd y llawlyfr ynghyd â mynychu'r Sesiwn Anwytho.**<br><br>**Mae Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r gymuned ffermio.**<br><br>**Yn ogystal, drwy Bwyllgor Safonau'r Awdurdod, mae ymchwiliadau perthnasol yr Ombwdsmon i dorri Cod Ymddygiad mewn cyrff cyhoeddus eraill yn cael eu rhannu ag Aelodau i ledaenu pwyntiau dysgu o bob achos ac i godi ymwybyddiaeth o wahanol agweddau ar y Cod Ymddygiad a'u rhwymedigaethau. Mae hyn yn cyd-fynd â chynnig hyfforddiant Cod Ymddygiad un-i-un pellach gan y Swyddog Monitro.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| GC5 | Rhannu profiad ac arferion gorau wrth i'r broses ddynodi ar gyfer creu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddi. | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | **Tystiolaeth 6 mis:**<br>**Rhoddwyd cyngor a chymorth cychwynnol a rhannwyd arfer da i staff Cyfoeth Naturiol Cymru ar y ffordd orau o gynnal Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer cyflwyno arfaethedig y Parc Cenedlaethol newydd.**<br><br>**Mi fydd yr Awdurdod yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad yn awgrymu ardaloedd gallwn cydweithio ar faterion natur, newid hinsawdd, rheoli pobl ayb (er fydd rhybuddion yn cael ei wneud ar risgiau cyllid a'r iaith Gymraeg – ond gobeithiwn bydd modd i liniaru'r risgiau yma).** |
| GC6 | **<u>Blaenoriaethau Ategol:</u>**<br>Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a thrwy gydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyniad i gynnal rhwydweithiau ecolegol gwydn a seilwaith gwyrdd). | Naratif byr | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | **Mae'r Cyd Bwyllgor Corfforedig bellach wedi dechrau gweithio ar drydedd elfen ei gylch gorchwyl, sef cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (SDP) ar gyfer Gogledd Cymru. Y cam cyntaf yn y broses yw i'r CBC baratoi Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol a bu yn destun ymgynghoriad yn ystod Haf 2025. Mae aelod wedi ei benodi ar ran yr Awdurdod i eistedd ar yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC). Yn ogystal, bydd swyddogion yr Awdrudod yn parhau i gyd-weithio yn agos gyda Tim y Cynllun Dablygu Strategol gan rannu sail tystiolaeth yn gyson. Mae Eryri yn y broses o ddiwygio y Cynllun Datblygu Lleol hefyd a cafodd y Cytundeb Cyflawni ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru Mis hydref 2025. Bydd amserlen y ddau gynllun fely yn cyd-redeg gan roi cyfle i rannu gwybodaeth a dylanwadu ar gynnwys y ddau gynllun.** |

Eitem Rhif 12

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Cyllid Grant Tair Blynedd Llywodraeth Cymru Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy 2022-25** |
| **ADRODDIAD GAN** | Y Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Adrodd ar y cyllid a ddyfarnwyd a'r prosiectau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyllido grant tair blynedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri |

## 1. CEFNDIR:

1.1 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy grant refeniw blynyddol. O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mae gan y Parciau Cenedlaethol y pŵer i godi ardoll ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ar y cynghorau y mae aelodau'r awdurdod lleol yn cael eu penodi ganddynt – mewn perthynas ag Eryri, Cynghorau Gwynedd a Chonwy.

1.2 Telir cyllid grant arall pan fydd cyllid ar gael ar ffurf grantiau na ellir eu codi ar gyfer prosiectau penodol y cytunwyd arnynt y mae'n rhaid iddynt gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru fel y'u cynhwysir yn Rhaglen Lywodraethu'r Llywodraeth.

1.3 Rhaid i brosiectau o'r fath gyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn gweithio mewn ffordd ataliol, integredig, hirdymor a chydweithredol.

## 2. TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY (TCLIC), Grant Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru

2.1 Un ffynhonnell ariannu o'r fath fu grant ariannu cyfalaf TCLIC. Yn 2022, dyfarnwyd £2,500,000 gan Lywodraeth Cymru i Barc Cenedlaethol Eryri am y cyfnod o dair blynedd rhwng 01 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2025.

2.2 Y themâu strategol a'r dyraniad grant ar gyfer y cyllid oedd:

- Twristiaeth Gynaliadwy £897,000
- Cefnogi Cymunedau £480,000
- Dadgarboneiddio £553,000
- Adfer Natur £570,000

**ENGHREIFFTIAU O BROSIECTAU A YMGYMERWYD Â NHW, A'U CWBLHAU YN ERYRI YN YSTOD Y CYFNOD O DAIR BLYNEDD**

**3. TWRISTIAETH GYNALIADWY: £897,000**

3.1 Cwblhawyd cyfres o welliannau mynediad yng ngogledd a de'r Parc Cenedlaethol:

- Cwblhawyd atgyweiriadau ar lwybrau mynediad ar lwybr Cwm Dyli, llwybr y Mwynwyr a Nant Peris:
- Darparwyd gwell mynediad at a gosod gatiau mynediad ar Taith Eryri, Trawsfynydd:
- Gan weithio mewn partneriaeth â CNC, gosodwyd arwyddion addysg i ymwelwyr oherwydd cynnydd yn y defnydd gan wersyllwyr dros nos yng Nghrawcell, Graigddu a Cwrt.
- Gwell mynediad at Lyn Tegid o Lanycil.
- Uwchraddio pont droed ar lwybr Tŷ Nant, Cader Idris i ganiatáu llif naturiol i'r afon a lleihau erydiad y llwybr troed. Gosod pont newydd ar HTC aml-ddefnyddwyr Lôn Gwyrfai.
- Darparu gwell mynediad ar Lwybrau Stad Nannau, Bodilan Fach a Chwm Ffynnon mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a'r cymunedau lleol. Uwchraddio gatiau a darparu gatiau hunan-gau ac uwchraddio pont droed sy'n cysylltu cymunedau Cwm Cynllwyd a Llanymawddwy.

3.2 Standiau gwefru e-feiciau ym meysydd parcio APC Eryri yn Nyffryn Ogwen a Beddgelert a gosod standiau beiciau safonol yng Nghwellyn, Rhyd Ddu a Phen-y-pass.

3.3 Gosodwyd cownteri ar lwybrau troed y Mwynwyr, Maesgwm a Phen y Gwryd.

3.4 Prynwyd system Rheoli Mynediad i reoli data ar ddefnydd hamdden y Parc Cenedlaethol. Mae'r system yn caniatáu rhannu data ledled y sir – mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'r un system – mae mwy o lwybrau troed yn cael eu harolygu a gwella effeithlonrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau.

Darperir tablau unigol i Wardeiniaid y PC sydd wedi'u llwytho â system ddwyieithog “CAMS Mobile” sy'n eu galluogi i gwblhau gwaith arolygu a llwytho data yn fyw o'r ffynhonnell.

Mae’r wefan ar gael i'r cyhoedd i gynnwys manylion neu sylwadau perthnasol ar lwybrau troed a fydd ar gael i'r warden lleol ymateb ac ymdrin â nhw.

4. **CEFNOGI CYMUNEDAU: £480,000**

4.1 Sefydlwyd Cronfa Gymunedol Eryri i gynorthwyo cymunedau ledled Eryri i fynd i'r afael â materion mewn perthynas â mynediad ar gyfer dibenion hamdden, iechyd a lles, sbwriel ac ailgylchu, asedau cymunedol, cynhyrchu ynni a chadwraeth ynni, seilwaith gwyrdd, gwelliannau amgylcheddol lleol a chynigion perthnasol i iaith a diwylliant Cymru.

Mae enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd yn cynnwys:

- Gosod paneli solar ar adeiladau cymunedol – clwb rygbi’r Bala, canolfan gymunedol Prysor, Trawsfynydd, neuadd gymunedol Llanfeirfechan, Menter Gymunedol Llanuwchllyn.
- Gosod ffenestri a drysau newydd i wella cadwraeth ynni yng Nghanolfan Gymunedol Ysbyty Ifan

- Gwell Mynediad i adeiladau cymunedol, mynediad i gadeiriau olwyn ac ati.

4.2 Arbed a chynhyrchu ynni o fewn Ardaloedd Cadwraeth a gerllaw Adeiladau Rhestredig ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

- Mesurau effeithlonrwydd ynni a ymgymerwyd â nhw yn Nhŷ Glaslyn, Beddgelert, Tŷ Cambrian a swyddfeydd Undeb Amaethwyr Cymru, Dolgellau.
- Cynhaliwyd dyddiau hyfforddi sgiliau traddodiadol gan gynnwys gweithio gyda chalch a ffensys crawiau llechi. Mae swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri a chontractwyr gosod waliau cerrig sych a gwrychoedd wedi cael eu cymeradwyo gan LANTRA.

4.3 Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Ardudwy:

- Cefnogwyd 2 sesiwn cofnodi tirwedd ym Maentwrog a Thalsarnau.
- Cwblhawyd arolwg a chynnal gwaith cloddio archaeolegol yn Ngwerncaernyddion, Llanbedr, gyda 4 ysgol gynradd ac yn Aberdeunant, Llandecwyn gyda 2 ysgol gynradd.
- Cyflwynwyd prosiect archaeoleg cymunedol yn llwyddiannus gyda thua 20 o wirfoddolwyr a 6 ysgol gynradd yn cymryd rhan.

## 5. DADGARBONEIDDIO: £553,000

5.1 Effeithlonrwydd Ynni'r Ystâd:

Mae'r gwaith cynhyrchu a chadwraeth yn cynnwys cyflwyno paneli solar / heulol ar adeilad glannau Llyn Tegid, Y Bala a gwaith yn adeilad pencadlys Parc Cenedlaethol Eryri, Penrhyndeudraeth.

Ymgymerwyd â mesurau arbed ynni drwy osod gwell inswleiddio ym Mhen-y-pass a Phlas Tan y Bwlch.

5.2 Cerbydau Trydan: Ehangu ymhellach argaeledd pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym mhrif safleoedd APC Eryri gyda gwefrwyr wedi'u gosod ym meysydd parcio'r Parc Cenedlaethol ym Meddgelert a Betws y coed.

## 6. ADFER NATUR: £570,000

6.1 Comisiynwyd Arolygon a Manylebau i ddiffinio canlyniadau a manylebau i gyflawni gwelliannau yn y prif fathau o gynefinoedd yn Eryri.

- Cwblhawyd 17 o arolygon coed a choetiroedd hynafol
- Cwblhawyd 27 o brosiectau gwaith cyfalaf, gan gynnwys gwaith ffiniau, rheoli rhywogaethau ymledol a gwaith coedyddiaeth.

6.2 Gwaith ar rywogaethau a chynefinoedd wedi'u targedu.

- Cwblhawyd arolwg bridio gylfinirod yng Nghwm Tir Mynach. Prosiect ar y cyd â'r RSPB oedd hwn.
- Dadansoddi DNA y Boplysen Ddu a'r Aethnen. Gwaith i adnabod coed cynhenid ar gyfer yr ardal a pharatoi DNA i ehangu'r stoc. Gellid plannu'r Boplysen Ddu mewn ardaloedd yn lle Coed Ynn – sy'n goeden â nodweddion tebyg.
- Prosiect cnydau aberthol ar gyfer adar Melyn yr Eithin yn nyffryn Dysynni i ehangu ardal fwydo dalgylch Melyn yr Eithin.

6.3 Rheoli Glannau Afonydd a Llifogydd, gan adeiladu ar arfer da a sefydlwyd trwy brosiect CRhC ac NFM ar afon Wnion.

- 2740m o wrychoedd wedi'u plannu, sy'n cyfateb i tua 19,000 o goed yn cael eu plannu
- 471 o goed wedi'u plannu ar hyd y cyrsiau dŵr
- 2 fan caled wedi'u hadeiladu i leihau dŵr llygredig sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr
- 2 danc dŵr 10,000L a phecynnau dŵr glaw wedi'u gosod i leihau effeithiau stoc yn sathru mewn cyrsiau dŵr
- 4 cafn dŵr wedi'u gosod i atal da byw rhag mynd i'r afon.

## 7. **PROSIECTAU CYDWEITHREDOL: £217,250**

7.1 Roedd y cynllun Cydweithredol Ffiniau Traddodiadol rhwng y Parciau Cenedlaethol a 3 AHNE yn y Gogledd yn brosiect syml ac effeithiol i gryfhau’r berthynaswaith rhwng y Tirweddau Dynodedig wrth ddarparu nodweddion tirwedd syn cael eu rhannu gan bob ardal. Mae wedi gweithio fel man cychwyn i hwyluso gweitho gyda rheolwyr tir ac ymgysylltu â deialog sydd wedi caniatau cyflwyno Ffermio Bro yn effetihiol ym mhob tirwedd ddynodedig.

## 8. **CASGLIAD:**

8.1 At ei gilydd, darparodd Llywodraeth Cymru fwy na £1.1m o gyllid grant cyfalaf i Dirweddau Dynodedig Cymru i gyflawni ystod eang o brosiectau o wella bioamrywiaeth, lleihau'r defnydd o garbon, hyrwyddo twristiaeth fwy cynaliadwy a gwella cydnerthedd cymunedol.

8.2 Yn 2024 adolygwyd y Gronfa gan Lywodraeth Cymru, gyda Gweinidogion yn cytuno ar argymhellion y dylai'r cyllid barhau.

8.3 Er y cedwir nifer o nodweddion llwyddiannus y rhaglen gychwynnol, bydd y Tirweddau Dynodedig bellach yn derbyn 60% o'u dyraniad cyfalaf drwy gyfrwng y Gronfa Tirwedd, Natur a Charbon newydd TCLIC. Y bwriad yw gwneud y gorau o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru – gan ymateb i argyfngau newid hinsawdd a natur.

Bydd y 40% sy'n weddill yn cael ei ddarparu ar ffurf cyfalaf cyffredinol, sy'n rhoi hyblygrwydd i ni yn Eryri i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol.

8.4 Mae'r prosiectau canlynol wedi cael eu cymeradwyo i'w hariannu drwy gyfrwng y gronfa Tirwedd, Natur a Charbon TCLIC ar gyfer 2025-27:

- £170k: Eryri Nosol, gwella cynefinoedd allweddol ar gyfer bywyd gwyllt nosol
- £300k: Dŵr Gwyllt Eryri, i wella bioamrywiaeth dŵr croyw
- £170k: Coed a Choetiroedd Hynafol, arolygon cyflwr a gwaith gwella
- £160k: Cynhyrchu trydan adnewyddadwy ar y safle ar safleoedd APCE.
- £200k: Datgarboneiddio ac adfer Natur ar gyfer Dolgellau Hanesyddol.

8.5 Yn ogystal, mae cronfa gyfalaf gyffredinol o £330k y flwyddyn dros y ddwy flynedd wedi'i dyrannu i ganiatáu i brosiectau cymunedol ddigwydd sy'n cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn caniatáu i Gronfa Gymunedol Eryri barhau yn ogystal â phrosiectau llai eraill.

8.6 Mae cronfa gydweithredol hefyd wedi'i chynnal.

## 9. GWYBODAETH YCHWANEGOL:

9.1 Gellir gweld rhaglen fuddsoddi cyfalaf TCLIC ar draws wyth Tirwedd Dynodedig Cymru yma:

Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy - Tirweddau Cymru

9.2 Atodiad 1. Inffograff – Prosiectau arian TCLIC ar draws yr wyth Tirwedd Dynodedig.

## 10. ARGYMHELLIAD:

**10.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r amrywiol brosiectau sydd wedi'u cwblhau o dan gyllid TCLIC rhwng 2022-25, a darparu unrhyw adborth os o gwbl.**

# Tirweddau Cymru Landscapes Wales

**Ein gweledigaeth** Mae Tirweddau Cymru Landscapes Wales yn datgloi potensial y Tirweddau Dynodedig i gyflawni mwy o ran yr hinsawdd, o ran natur, o ran diwylliant a threftadaeth ac o ran pobl. Mae'r Tirweddau Dynodedig yn esiamplau o ran ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur; lle mae dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl yn sicrhau bod pob llais yn cael ei gynrychioli a bod pob cam radical yn cael ei gymryd ar y cyd.

**Amdanom ni** Mae Tirweddau Cymru Landscapes Wales yn bartneriaeth o'r pump AHNE yng Nghymru: Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Penrhyn Llŷn, Gŵyr, a Dyffryn Gwy; a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru: Bannau Brycheiniog, Eryri a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.




## Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy 2022-2025

Mae Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy wedi darparu **£11.7 miliwn** i gefnogi **rhaglen tair** blynedd a gynhelir yn yr wyth Tirwedd Ddynodedig yng Nghymru.

Mae cronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy yn cefnogi camau o weithredu ar draws yr wyth tirwedd ddynodedig gan ganolbwyntio ar y canlynol

**Cyflymu datgarboneiddio**

**Hyrwyddo bioamrywiaeth ac adfer byd natur**

**Cefnogi cymunedau cydnerth a gwyrdd**

**Darparu twristiaeth gynaliadwy**

**Rhwng 2022 a 2025 mae'r gronfa yn cefnogi:**

### 6 rhaglen sy'n cyflymu datgarboneiddio

**gan gynnwys:**

- Cludiant cymunedol cynaliadwy a mannau gwefru cerbydau trydan.
- Cefnogi gweithgaredd a arweinir gan y gymuned ar ddatgarboneiddio.
- Gosod golau newydd i leihau'r defnydd o ynni a gwella bywyd gwyllt nosol.
- Gweithredu'n gyd-drefnedig i leihau'r defnydd o ynni o fewn sefydliadau, yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygon a dadansoddi cynhwysfawr yn 2022.
- Uwchraddio'r seilwaith Technoleg Gwybodaeth a'r grid.

### 13 rhaglen ar ddeg sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth ac adfer byd natur **gan gynnwys:**

- Gwaith wedi'i dargedu ar rywogaethau a chynefinoedd, gan wella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd a'u gwneud yn fwy cydnerth.
- Creu a rheoli cynefinoedd, gan gynnwys plannu coed a chreu cynefinoedd morol o ddolydd morwellt.
- Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol.
- Datblygu ein planhigfeydd coed i gynorthwyo plannu rhywogaethau brodorol.
- Creu a rheoli cloddiau caeau traddodiadol.
- Ffocws Cymru gyfan ar wella a chyfathrebu ar ein bioamrywiaeth yn ystod y nos.
- Adfer a gwarchod y mawndir.

### 6 rhaglen sy'n cefnogi cymunedau cydnerth a gwyrdd **gan gynnwys:**

- Cronfeydd cymunedol ar gael i gefnogi gweithredu ar natur, yr hinsawdd, ynni, ac ar hamdden yn y Tirweddau Dynodedig.
- Cefnogi dysgu a mwynhad yn yr awyr agored drwy wella mynediad a'r cyfleusterau.
- Rhandiroedd cymunedol.
- Gwella a datgarboneiddio mannau cymunedol.
- Datblygu rhaglen addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gan ennyn ymwybyddiaeth o'n Tirweddau Dynodedig.

### 7 rhaglen twristiaeth gynaliadwy **gan gynnwys:**

- Gwella mynediad a chyfleoedd hamdden, gan gynnwys gwella llwybrau troed a llwybrau mynediad.
- Cyfleusterau dehongli ac addysg i ymwelwyr.
- Meistr-gynllunio ar gyfer trafnidiaeth mwy cynaliadwy yn y dyfodol i'r Tirweddau Dynodedig ac oddi mewn i'r tirweddau hyn.
- Uwchraddio'r amwynderau i ymwelwyr ac i'r cymunedau gan gynnwys meysydd parcio a thoiledau cynaliadwy.
- Gwella safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a safleoedd allweddol eraill i ymwelwyr.

Mae **Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy** yn gronfa gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Eitem Rhif 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Datganiad Polisi Cyflog 2024/25 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Cyflog ar gyfer 2023/24** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2024/25 a derbyn yr Adroddiad Polisi Cyflog ar gyfer 2023/24 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Gosododd Adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl. Er bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn, ystyriwyd ei bod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath.

1.2 Mae datganiad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru o'r enw 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Uwch yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'.

1.3 Gellir dod o hyd i Ddatganiad Polisi Cyflog yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 yn Atodiad 1.

1.4 Mae Atodiad 2 yn dangos cyflogau'r Prif Swyddogion. Cytunwyd ar y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2023/24 yn ddiweddar.

1.5 Mae Atodiad 3 yn dangos cyflogau'r holl staff eraill. Cytunwyd ar y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2023/24 yn ddiweddar hefyd.

1.6 Atodiad 4 yw'r Adroddiad Blynyddol sy'n ofynnol gan y nodiadau canllaw y cyfeirir atynt yn y datganiad ysgrifenedig ym mharagraff 1.2 uchod.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25.

2.2 Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Bolisi Cyflogau ar gyfer 2023/24.

**Atodiad 1**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**Datganiad Polisi Cyflog 2024/25**

**1. Cyflwyniad**

Gosododd Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn.

Rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisïau Awdurdod ei hun tuag at ystod o faterion sy'n ymwneud â chyflog ei weithlu, yn enwedig ei staff uwch neu ('brif swyddogion') a'i weithwyr sy'n cael y cyflog isaf. Rhaid paratoi datganiadau polisi cyflog ar gyfer pob blwyddyn ariannol (dechreuodd hyn gyda 2012/13). Rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor (a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol).

Mae hyn wedi'i ddilyn gan Ddatganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Rhagfyr 2015 ar 'Dryloywder Cydnabyddiaeth Uwch yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'. Mae'r canllawiau cysylltiedig yn nodi'r cynnwys a argymhellir ar gyfer y Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol a'r Adroddiadau Blynyddol.

**2. Polisi Cyflog ar gyfer Prif Swyddogion**

Mae'r Awdurdod yn diffinio ei Brif Swyddogion fel y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) a'r Cyfarwyddwyr. Mae'r Awdurdod yn cyflogi Prif Swyddogion o dan delerau ac amodau'r Cyd-bwyllgor Trafodaethau (CT/JNC). Mae'r Cyd-bwyllgor Trafodaethau (CT/JNC) ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi ar gynnydd cyflog costau byw blynyddol cenedlaethol (DU) ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir o dan delerau ac amodau'r CT hawl gytundebol i unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol a bennir gan y CT ac felly bydd yr Awdurdod yn talu'r rhain pan fyddant yn cael eu penderfynu.

O ganlyniad i'r cytundeb a wnaed ar 1af Tachwedd, 2024 mewn perthynas â'r Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol ('Y Llyfr Gwyrdd'), cynyddwyd cyflog yr holl staff o 2 gynnydd. Mae'r dyfarniad cyflog wedi cael ei ddyddio yn ôl i'r 1af o Ebrill, 2024.

Ym mis Awst 2024, cytunodd yr Awdurdod y dylid cymhwyso'r un 2 gynnydd i gyflogau'r ddau gyfarwyddwr, a chafodd hyn ei ôl-ddyddio hefyd i 1af Ebrill 2024.

Ym mis Awst 2024, cytunodd yr Awdurdod y dylid cymhwyso'r un 2 gynnydd i gyflog y Prif Weithredwr. Cafodd y dyfarniad cyflog ei ôl-ddyddio i 1af Ebrill 2024.

Nid yw'r Awdurdod yn talu unrhyw daliadau bonws i'w Brif Swyddogion. Fodd bynnag, mae cynnydd cynyddrannol drwy'r strwythur cyflog yn ddarostyngedig i werthusiad perfformiad blynyddol a gadarnheir gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad a Pherfformiad ac Adnoddau.

Bydd pecyn cyflog Prif Swyddogion yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn recriwtio i unrhyw swydd o'r fath.

Gellir gweld cyflogau’r Prif Swyddogion yn Atodiad 2 i’r adroddiad sy’n cyd-fynd â’r Datganiad hwn.

Y berthynas rhwng y pwynt cyflog uchaf (£104,319) a'r pwynt cyflog isaf (£23,656) yw 1:4.41 (adroddwyd y gymhareb hon ddiwethaf yn 1:4.40).

Mae un swydd uwch o fewn yr Awdurdod yn denu pecyn cyflog o fwy na £100,000.

**3. Staff eraill**

Caiff rolau staff eraill eu gwerthuso'n fewnol yn erbyn y Cyngor Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol – Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Gwyrdd). Gellir gweld y cysylltiad rhwng y sgoriau gwerthuso swyddi a'r golofn gyflog genedlaethol yn Atodiad 4 i'r adroddiad sy'n cyd-fynd â'r Datganiad hwn.

**4. Rheoli Doniau Mewnol**

Yn gyffredinol, hysbysebir swyddi gwag yn fewnol ac yn allanol ar yr un pryd.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cyflogi 2 aelod o staff ar Gynllun Hyfforddi Graddedigion i feithrin talent ‘adref’ fel petai a gwella cadernid o fewn y tîm cynllunio.

**5. Cyflog sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad**

Mae hyn ar waith ar gyfer ein Prif Swyddogion – mae cynnydd o fewn eu gradd gyflog yn dibynnu ar rai cyflawniadau yn eu hadolygiadau perfformiad a datblygiad. Dylid nodi bod y swyddogion hyn ar bwynt uchaf eu gradd erbyn hyn.

Nid oes unrhyw elfen o gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad i staff eraill.

**6. Cymorth a ddarperir i Staff ar Dâl Is**

Y Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2025 ar gyfer pobl 23 oed a hŷn yw £12.21 yr awr.

Mae canlyniad y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2024/25 yn rhoi cyflog o £12.26 yr awr ar y pwynt cyflog isaf.

**7. Diswyddo ac Ymddeoliad**

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol yr Awdurdod yn cael eu cymhwyso'n gyfartal ac yn deg i bob aelod o staff, waeth beth fo'u gradd, oedran neu ryw ac yn cael eu gweithredu yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol.

**Atodiad / Appendix 2**

## Datganiad Polisi Tâl APCE 2024/25

**Cyflogau Prif Swyddogion 2021/22**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £82,825 - £91,881 |
| Cyfarwyddwyr | £57,580 - £64,353 |

.

**Cyflogau Prif Swyddogion 2022/23**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £82,825 - £91,881 |
| Cyfarwyddwyr | £57,580 - £64,353 |

**Cyflogau Prif Swyddogion 2023/24**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £84,750 - £93,881 |
| Cyfarwyddwyr | £59,505 - £69,666 |

**Cyflogau Prif Swyddogion 2024/25**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £89,910-£104,319 |
| Prif Weithredwr Dros-Dro | £79,911 |
| Cyfarwyddwyr / Directors | £63,128 - £73,908 |

**Cyflogau Prif Swyddogion 2025/26**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £89,910-£104,319 |
| Prif Weithredwr Dros Dro | £79,911 |
| Cyfarwyddwyr | £63,128 - £73,908 |

**Atodiad / Appendix 3**

**Cyflogau Swyddogion 2024/25 Officer Salaries**

| Graddfa / Grade | Pwyntiau Gwerthuso Swyddi / Job Evaluation Points | Pwyntiau Cyflog / Salary Points | Cyflog / Salary o’r 01.04.24 | Misol / Monthly w.e.f. 01.04.24 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Hyd at /Up to 250 | **2 - 3** | **£23,656- £24,027** | **£1,971.33 - £2,002.25** |
| 2 | 251-280 | 2 - 4 | £23,656- £24,404 | £1,971.33 - £2,033.67 |
| 3 | 281-310 | 3 - 6 | £24,027- £25,183 | £2,002.25 - £2,098.58 |
| 4 | 311-340 | 5 - 8 | £24,790- 25,992 | £2,065.83 - £2,166.00 |
| 5 | 341-370 | 7 - 13 | £25,584 - £28,163 | £2,132.00 -£2,346.92 |
| 6 | 371-400 | 13 - 19 | £28,163- £31,067 | £2,346.92- 2,588.92 |
| 7 | 401-430 | 19 - 25 | £31,067- £35,235 | £2,588.92- £2,936.25 |
| 8 | 431-460 | 23 - 29 | £33,366- £38,626 | £2,780.50- £3,218.83 |
| 9 | 461-495 | 28 - 32 | £37,938 - £41,511 | £3,161.50-£3,459.25 |
| 10 | 496-530 | 30 - 34 | £39,513- £43,693 | £3,292.75- £3,641.08 |
| 11 | 531-565 | 32 - 36 | £41,511- £45,718 | £3,459.25- £3,809.83 |
| 12 | 566-600 | 34 - 38 | £43,693 - £47,754 | £3,641.08- £3,979.50 |
| 13 | 601-635 | 36 - 40 | £45,718- £49,764 | £3,809.83- £4,147.00 |
| 14 | 636-670 | 38 - 42 | £47,754- £51,802 | £3,979.50- £4,316.83 |
| 15 | 671 ac uwch /and above | 40 - 43 | £49,764- £52,805 | £4,147.00- £4,400.42 |

**ATODIAD 4**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**ADRODDIAD POLISI CYFLOG 2023/24**

1. **Cyflwyniad**
   Mae'r adroddiad hwn yn dilyn canllawiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei datganiad ysgrifenedig 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Uwch yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'.

2. **Polisi Cyflog ar gyfer Prif Swyddogion**
   Mae'r Awdurdod yn diffinio ei Brif Swyddogion fel y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) a'r ddau Gyfarwyddwr (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir).

3. **Graddfeydd Cyflog**
   Mae'r swyddogion hyn wedi derbyn cyflogau yn unol â Datganiad Polisi Cyflog 2023/24 ac Atodiad 2 i'r adroddiad cysylltiedig.

   **Cyflogau Prif Swyddogion 2023/24**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £84,750 - £93,881 |
| Cyfarwyddwyr | £59,505 - £69,666 |

4. **Pensiwn**
   Mae'r holl swyddi hyn wedi bod yn destun talu cyfraniadau pensiwn gweithwyr ar y gyfradd briodol y cytunwyd arni'n genedlaethol o 8.5% i 9.9%.

5. **Buddion mewn nwyddau a buddion di-dreth**
   Ni ddyfarnwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau na buddion di-dreth.

6. **Cyfansoddiad rhywedd y Tîm Hŷn**
   Mae'r Tîm Uwch yn cynnwys dau ddyn.

7. **Manylion pecynnau diswyddo, gan gynnwys achosion busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r trefniadau ymadael ac yn cynrychioli gwerth gwirioneddol am arian**
   Yn 2023/24, ni dderbyniodd unrhyw ddeiliad swydd uwch becyn diswyddo.

Eitem Rhif 14

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 26 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |
| **PWRPAS** | I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd y Canolfannau Croeso |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gan yr Awdurdod dair Canolfan Groeso, yn Aberdyfi, Beddgelert a Betws-y-coed. Mae Canolfan Aberdyfi yn dymhorol, Betws-y-coed ar agor trwy gydol y flwyddyn a Beddgelert yn gyfuniad o'r ddau gydag oriau agor cyfyngedig dros y gaeaf.

1.2 Fel y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy, rwyf wedi bod yn gyfrifol am y cynnig manwerthu yn Yr Ysgwrn a'r Hwb ym Mhen-y-pass. Mae hyn yn gwneud synnwyr masnachol gan fod y cynnydd o ran grym prynu wedi golygu elw gwell o bosibl ar eitemau a werthir. Y flwyddyn ariannol hon, cefais gyfrifoldeb cyffredinol am yr Hwb ym Mhen-y-pass.

## 2. TROSOLWG O'R FLWYDDYN 2025-26 HYD YN HYN (CANOLFANNAU CROESO)

2.1 Agorodd y tair canolfan groeso yn brydlon ac roeddent ar agor am y tymor llawn.

2.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o heriau gyda lefelau staffio. Bu recriwtio ar gyfer 2025 yn llwyddiannus. Mae lefelau staffio llawn wedi bod yn ei le ym mhob canolfan ar gyfer y tymor llawn a dim ond llond llaw o ddyddiau a gollwyd oherwydd diffyg staff cyflenwi.

2.3 Mae gwerthiannau ar-lein ychydig yn is na 2024. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gytundebau gwerthu a dosbarthu gyda phartneriaid lle mae gwerthiannau nwyddau yn cael eu gyrru trwy ein gwefan ond yn cael eu dosbarthu trwy gyfrwng trydydd parti.

Ionawr 2025 – Diwedd Hydref 2025 - £2751

Ionawr 2024 – Diwedd Hydref 2024 - £3368

Ionawr 2023 – Diwedd Hydref 2023 - £3149

Ionawr 2022 – Diwedd Hydref 2022 - £2049

## 3. CANOLFAN ABERDYFI

3.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1. Cynhwysir tueddiadau Tymor byr gyda chymariaethau â 24/25 a thueddiadau Tymor hir o 2016.

3.2 Yn 2024 cynyddodd trosiant Aberdyfi 25% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Eleni gostyngodd y trosiant 3.2% ynghyd â gostyngiad bach yn nifer yr ymwelwyr o'i gymharu â 2024-25.

3.3 Wrth edrych ar y gymhariaeth hirdymor, gallwn weld bod yr elw y pen wedi gostwng i lefelau cyn 2023. Fodd bynnag, mae'r gwariant cyfartalog ar drafodion yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn golygu bod llai o'r bobl sy'n dod i mewn i'r Ganolfan yn gwario, ond mae'r rhai sy'n gwneud hynny yn tueddu i wario mwy. Mae hyn yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd bresennol gyda phobl yn canfod bod ganddynt lai o incwm gwario.

## 4. CANOLFAN BEDDGELERT

4.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.

4.2 Mae nifer yr ymwelwyr, y trosiant a'r elw ar werthiannau yn parhau'n sefydlog ym Meddgelert heb unrhyw newid sylweddol.

4.3 Wrth edrych ar y gymhariaeth o ran tueddiadau hirdymor, mae'r gwariant cyfartalog fesul trafodiad yn parhau'n uwch na'r Canolfannau eraill ond mae wedi gostwng yn ôl eleni.

## 5. CANOLFAN BETWS-Y-COED

5.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.

5.2 Mae nifer yr ymwelwyr ym Metws-y-coed wedi cynyddu 14% ar 2024/25, yr unig ganolfan sydd wedi profi cynnydd eleni.

5.3 Nid yw cynnydd yn nifer yr ymwelwyr wedi trosi'n gynnydd mewn trosiant gyda gostyngiad o 6%. Wrth edrych ar y tueddiadau hirdymor gwelwn yr un patrwm ag yn Aberdyfi, lle mae'r Gwariant Trafodion Cyfartalog wedi aros yr un fath tra bod yr elw y pen wedi gostwng.

5.4 Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio gyda Donald Insall Associates ar gynllun i ddatblygu'r Hen Stablau, gobeithio, yn fusnes mwy cynaliadwy yn ariannol i'r Awdurdod, gyda'r Ganolfan Groeso fel man angori.

## 6. HWB PEN-Y-PASS

6.1 Gweithredwyd yr Hwb ym Mhen-y-pass gyntaf drwy gyfrwng y Gwasanaeth Wardeiniaid yn 2018. Wedi'i stocio drwy'r Canolfannau Groeso, cafodd ei staffio a'i weithredu drwy gyfrwng y Gwasanaeth Wardeiniaid tan fis Ebrill 2025.

6.2 Y cysyniad cychwynnol oedd y byddai'r wardeiniaid eu hunain a gwirfoddolwyr yn ei staffio. Penodwyd un aelod o staff ar gyfer haf 2019 i fesur diddordeb. Yn ystod Covid ni phenodwyd neb i'r rôl ac roedd yr Hwb ar gau i raddau helaeth oherwydd cyfyngiadau. Penodwyd un aelod o staff yn 2023 a pharhaodd dros y tymor yn 2024.

6.3 Yn 2023/24 cyflwynwyd mwy o linellau yn benodol ar gyfer yr Hwb oherwydd y warant o oriau agor. Profodd y rhain yn llwyddiannus a chynyddodd y trosiant yn aruthrol.

6.4 Yn 2025 penderfynwyd y byddai gwasanaeth y Canolfannau Croeso yn cymryd yr awennau dros weithrediad yr Hwb a rhoddwyd cyllideb ychwanegol iddynt i staffio'r Hwb yn llawn 7 diwrnod yr wythnos ac i arbrofi gydag oriau agor i fesur diddordeb ac incwm posibl.

6.5 Nid oedd lefelau staffio yr hyn yr oeddem wedi'i obeithio, ac mae pob mis wedi gweld dyddiau lle methodd yr Hwb ag agor. Er gwaethaf hyn, mae'r trosiant ers mis Ebrill yn £47k.

6.6 Eleni nid yw'r elw ar werthiannau yn talu'r costau staffio, sy'n golygu nad yw'n broffidiol ar gyfer 2025. Credaf, fodd bynnag, fod camau y gallwn eu cymryd i sicrhau proffidioldeb. Mae'r rhain yn cynnwys –

- Dadansoddiad llawn o oriau agor yn erbyn trosiant i sicrhau bod yr Hwb ar agor ar gyfer gwireddu'r trosiant gorau posibl.
- Cynnydd mewn lle storio a rheoli stoc yn well. Dyma oedd un o'n heriau mwyaf eleni, gan fod yr Hwb mor fach, roedd storio stoc yn broblem. Gwnaethom hefyd gamamcangyrif faint o nwyddau oedd eu hangen i sichrau bod eitemau ar gael. Roedd rhai llinellau poblogaidd yn cael eu gwerthu allan yn rheolaidd cyn y gellid eu hailstocio.
- Cynyddu lle manwerthu i ehangu ar linellau poblogaidd a chyflwyno rhai newydd.

Mae'r rheolwr eiddo yn gweithio gyda ni ar hyn o bryd i ehangu'r lle yn barod ar gyfer penwythnos y Pasg yn 2026.

## 7. I GLOI

7.1 Ar y cyfan, gwelodd y tymor gynnydd o 5% mewn ymholiadau ymwelwyr (6k) ond gostyngiad o 3% mewn trosiant (£7.5k)

7.2 Gobeithio y bydd ehangu'r Hwb ym Mhen-y-pass yn golygu y bydd menter broffidiol yno ar gyfer 2026/27.

7.3 Nid yw goblygiadau cyllidebol cynnwys Pen-y-pass yn y gwasanaeth wedi'u pennu eto. Felly, ni allaf roi rhagamcan digon cywir o ganlyniadau diwedd y flwyddyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## ARGYMHELLIAD

**1. Bod yr Aelodau'n trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau y dylid eu cymryd wrth i ni edrych ar 2024-2025.**

***CANOLFAN*** **/ CENTRE: ABERDYFI**

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU*** **/ VISITORS AND ENQUIRIES**

| *MIS* / MONTH | 2025/26 | | | | *CYFANSWM* / TOTAL | | 2024/25 | | | | *CYFANSWM* / TOTAL | % + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | e. | | | | | | e. | | |
| *EBR / APR* | 3,751 | - | 19 | 7 | 3,777 | *EBR / APR* | 2,204 | 1 | 6 | - | 2,211 | 70.83 |
| *MAI / MAY* | 4,339 | - | 21 | 5 | 4,365 | *MAI / MAY* | 5,429 | - | 21 | 3 | 5,453 | -19.95 |
| *MEH / JUN* | 4,270 | - | 22 | 2 | 4,294 | *MEH / JUN* | 6,384 | - | 18 | 2 | 6,404 | -32.95 |
| *GOR / JUL* | 5,083 | - | 16 | 3 | 5,102 | *GOR / JUL* | 5,185 | - | 21 | 1 | 5,207 | -2.02 |
| *AWS / AUG* | 6,712 | - | 22 | 6 | 6,740 | *AWS / AUG* | 5,764 | - | 30 | 1 | 5,795 | 16.31 |
| *MED / SEP* | 3,755 | 1 | 11 | 2 | 3,769 | *MED / SEP* | 3,565 | - | 10 | 1 | 3,576 | 5.40 |
| *HYD / OCT* | 2,421 | - | 18 | - | 2,439 | *HYD / OCT* | 2,370 | - | 8 | - | 2,378 | 2.57 |
| *TACH / NOV* | 155 | - | - | - | 155 | *TACH / NOV* | 294 | - | - | - | 294 | -47.28 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION / JAN* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW / MAR* | 312 | - | - | - | 312 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | 30,486 | 1 | 129 | 25 | 30,641 | | 31,507 | 1 | 114 | 8 | 31,630 | -3.13 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | 30,331 | 1 | 129 | 25 | 30,486 | | 30,901 | 1 | 114 | 8 | 31,024 | -1.73 |

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** | ***GWERTHIANNAU / SALES*** | | |
|---|---|---|---|
| *MIS/MONTH* | 2025/26 | 2024/25 | % + / - |
| *EBR / APR* | £ 3,198.64 | £ 3,496.15 | -8.51 |
| *MAI / MAY* | £ 4,943.52 | £ 5,189.58 | -4.74 |
| *MEH / JUN* | £ 4,996.11 | £ 5,387.27 | -7.26 |
| *GOR / JUL* | £ 5,470.44 | £ 5,763.24 | -5.08 |
| *AWS / AUG* | £ 8,103.61 | £ 7,725.49 | 4.89 |
| *MED / SEP* | £ 5,263.81 | £ 5,722.57 | -8.02 |
| *HYD / OCT* | £ 3,582.70 | £ 3,451.72 | 3.79 |
| *TACH / NOV* | £ 316.17 | £ 480.20 | -34.16 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 102.03 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 35,875.00 | £ 37,318.25 | -3.87 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 35,558.83 | £ 36,736.02 | -3.20 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| *MIS / MONTH* | 2025/26 | 2024/25 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 1,299.91 | £ 1,391.47 | -6.58 |
| *MAI / MAY* | £ 2,021.62 | £ 2,073.60 | -2.51 |
| *MEH / JUN* | £ 2,019.73 | £ 2,156.32 | -6.33 |
| *GOR / JUL* | £ 2,233.13 | £ 2,351.67 | -5.04 |
| *AWS / AUG* | £ 3,296.29 | £ 3,118.68 | 5.70 |
| *MED / SEP* | £ 2,116.83 | £ 2,275.74 | -6.98 |
| *HYD / OCT* | £ 1,416.48 | £ 1,378.85 | 2.73 |
| *TACH / NOV* | £ 119.39 | £ 189.61 | -37.03 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 39.17 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 14,523.38 | £ 14,975.11 | -3.02 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 14,403.99 | £ 14,746.33 | -2.32 |

***CANOLFAN / CENTRE: BEDDGELERT***

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES***

| MIS MONTH | 2025/26 | | | e. | CYFANSWM TOTAL | | 2024/25 | | | e. | CYFANSWM TOTAL | % + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EBR / APR | 4,531 | - | 37 | 6 | 4,574 | EBR / APR | 3,693 | 8 | 64 | 6 | 3,771 | 21.29 |
| MAI / MAY | 5,084 | - | 47 | 2 | 5,133 | MAI / MAY | 5,539 | - | 94 | 13 | 5,646 | -9.09 |
| MEH / JUN | 4,726 | - | 21 | 3 | 4,750 | MEH / JUN | 5,572 | - | 75 | 10 | 5,657 | -16.03 |
| GOR / JUL | 6,628 | - | 27 | 5 | 6,660 | GOR / JUL | 7,096 | - | 96 | 7 | 7,199 | -7.49 |
| AWS / AUG | 9,184 | - | 64 | 7 | 9,255 | AWS / AUG | 7,994 | - | 141 | 11 | 8,146 | 13.61 |
| MED / SEP | 4,808 | - | 35 | - | 4,843 | MED / SEP | 5,054 | - | 57 | 5 | 5,116 | -5.34 |
| HYD / OCT | 3,344 | - | 27 | 1 | 3,372 | HYD / OCT | 3,215 | - | 53 | 3 | 3,271 | 3.09 |
| TACH / NOV | 123 | - | - | - | 123 | TACH / NOV | 628 | 1 | 9 | 5 | 643 | -80.87 |
| RHAG / DEC | - | - | - | - | - | RHAG / DEC | 627 | - | 4 | 2 | 633 | -100.00 |
| ION / JAN | - | - | - | - | - | ION / JAN | 600 | - | 13 | 3 | 616 | -100.00 |
| CHWE / FEB | - | - | - | - | - | CHWE / FEB | 525 | 1 | 8 | 8 | 542 | -100.00 |
| MAW / MAR | - | - | - | - | - | MAW / MAR | 1,004 | - | 13 | 9 | 1,026 | -100.00 |
| CYFANSWM / TOTAL | 38,428 | - | 258 | 24 | 38,710 | | 41,547 | 10 | 627 | 82 | 42,266 | -8.41 |
| EBR-HYD/ APR-OCT | 38,305 | - | 258 | 24 | 38,587 | | 38,163 | 8 | 580 | 55 | 38,806 | -0.56 |

| CYN. TAW / INC. VAT | GWERTHIANNAU / SALES | | |
|---|---|---|---|
| MIS/MONTH | 2025/26 | 2024/25 | % + / - |
| EBR / APR | £ 12,388.52 | £ 11,324.95 | 9.39 |
| MAI / MAY | £ 15,631.41 | £ 14,784.32 | 5.73 |
| MEH / JUN | £ 14,762.45 | £ 15,396.22 | -4.12 |
| GOR / JUL | £ 17,460.53 | £ 18,184.75 | -3.98 |
| AWS / AUG | £ 22,053.83 | £ 22,387.87 | -1.49 |
| MED / SEP | £ 16,457.99 | £ 17,170.05 | -4.15 |
| HYD / OCT | £ 12,941.62 | £ 12,448.83 | 3.96 |
| TACH / NOV | £ - | £ 2,110.42 | -100.00 |
| RHAG / DEC | £ - | £ 2,692.72 | -100.00 |
| ION / JAN | £ - | £ 1,627.28 | -100.00 |
| CHWE / FEB | £ - | £ 1,795.76 | -100.00 |
| MAW / MAR | £ - | £ 3,062.87 | -100.00 |
| CYFANSWM / TOTAL | £ 111,696.35 | £ 122,986.04 | -9.18 |
| EBR-HYD/ APR-OCT | £ 111,696.35 | £ 111,696.99 | 0.00 |

**_ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )_**

| *MIS / MONTH* | 2025/26 | 2024/25 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 4,970.40 | £ 4,505.74 | 10.31 |
| *MAI / MAY* | £ 6,275.66 | £ 5,885.26 | 6.63 |
| *MEH / JUN* | £ 5,930.01 | £ 6,123.66 | -3.16 |
| *GOR / JUL* | £ 7,003.97 | £ 7,263.02 | -3.57 |
| *AWS / AUG* | £ 8,898.91 | £ 8,982.00 | -0.93 |
| *MED / SEP* | £ 6,608.92 | £ 6,868.35 | -3.78 |
| *HYD / OCT* | £ 5,168.89 | £ 4,979.60 | 3.80 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 835.62 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 1,058.25 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 646.88 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 716.57 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 1,215.16 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 44,856.76 | £ 49,080.11 | -8.61 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 44,856.76 | £ 44,607.63 | 0.56 |

***CANOLFAN / CENTRE: BETWS Y COED***

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES***

| MIS | 2025/26 | | | | CYFANSWM | | 2024/25 | | | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MONTH | | | | e. | TOTAL | | | | | e. | TOTAL | % + / - |
| EBR / APR | 7,500 | - | 109 | 43 | 7,652 | EBR / APR | 4,283 | - | 95 | 31 | 4,409 | 73.55 |
| MAI / MAY | 7,346 | - | 110 | 28 | 7,484 | MAI / MAY | 5,411 | - | 104 | 22 | 5,537 | 35.16 |
| MEH / JUN | 7,573 | - | 95 | 18 | 7,686 | MEH / JUN | 7,081 | - | 93 | 26 | 7,200 | 6.75 |
| GOR / JUL | 8,972 | - | 116 | 37 | 9,125 | GOR / JUL | 8,094 | - | 92 | 27 | 8,213 | 11.10 |
| AWS / AUG | 9,255 | - | 119 | 30 | 9,404 | AWS / AUG | 9,595 | - | 102 | 17 | 9,714 | -3.19 |
| MED / SEP | 7,686 | 3 | 91 | 26 | 7,806 | MED / SEP | 7,497 | - | 83 | 22 | 7,602 | 2.68 |
| HYD / OCT | 6,855 | - | 65 | 29 | 6,949 | HYD / OCT | 6,257 | 1 | 100 | 23 | 6,381 | 8.90 |
| TACH / NOV | 361 | - | 1 | - | 362 | TACH / NOV | 2,966 | - | 100 | 21 | 3,087 | -88.27 |
| RHAG / DEC | - | - | - | - | - | RHAG / DEC | 2,161 | - | 62 | 2 | 2,225 | -100.00 |
| ION / JAN | - | - | - | - | - | ION / JAN | 1,611 | - | 93 | 19 | 1,723 | -100.00 |
| CHWE / FEB | - | - | - | - | - | CHWE / FEB | 2,453 | - | 86 | 18 | 2,557 | -100.00 |
| MAW / MAR | - | - | - | - | - | MAW / MAR | 3,814 | - | 100 | 26 | 3,940 | -100.00 |
| CYFANSWM / TOTAL | 55,548 | 3 | 706 | 211 | 56,468 | | 61,223 | 1 | 1,110 | 254 | 62,588 | -9.78 |
| EBR-HYD/ APR-OCT | 55,187 | 3 | 705 | 211 | 56,106 | | 48,218 | 1 | 669 | 168 | 49,056 | 14.37 |

| CYN. TAW / INC. VAT | GWERTHIANNAU / SALES | | |
|---|---|---|---|
| MIS/MONTH | 2025/26 | 2024/25 | % + / - |
| EBR / APR | £ 12,168.81 | £ 10,404.18 | 16.96 |
| MAI / MAY | £ 14,515.21 | £ 12,738.22 | 13.95 |
| MEH / JUN | £ 15,176.83 | £ 16,315.39 | -6.98 |
| GOR / JUL | £ 15,428.56 | £ 17,733.85 | -13.00 |
| AWS / AUG | £ 19,152.37 | £ 23,232.14 | -17.56 |
| MED / SEP | £ 15,829.79 | £ 18,120.56 | -12.64 |
| HYD / OCT | £ 13,013.06 | £ 13,443.04 | -3.20 |
| TACH / NOV | £ - | £ 7,595.11 | -100.00 |
| RHAG / DEC | £ - | £ 6,755.54 | -100.00 |
| ION / JAN | £ - | £ 2,807.00 | -100.00 |
| CHWE / FEB | £ - | £ 4,484.17 | -100.00 |
| MAW / MAR | £ - | £ 7,423.94 | -100.00 |
| CYFANSWM / TOTAL | £ 105,284.63 | £ 141,053.14 | -25.36 |
| EBR-HYD/ APR-OCT | £ 105,284.63 | £ 111,987.38 | -5.99 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| MIS / MONTH | 2025/26 | 2024/25 | % + / - |
|---|---|---|---|
| EBR / APR | £ 4,860.88 | £ 4,154.40 | 17.01 |
| MAI / MAY | £ 5,787.32 | £ 5,048.41 | 14.64 |
| MEH / JUN | £ 6,043.68 | £ 6,525.46 | -7.38 |
| GOR / JUL | £ 6,137.87 | £ 7,087.09 | -13.39 |
| AWS / AUG | £ 7,658.03 | £ 9,292.63 | -17.59 |
| MED / SEP | £ 6,390.83 | £ 7,288.85 | -12.32 |
| HYD / OCT | £ 5,186.21 | £ 5,430.08 | -4.49 |
| TACH / NOV | £ - | £ 3,041.01 | -100.00 |
| RHAG / DEC | £ - | £ 2,695.61 | -100.00 |
| ION / JAN | £ - | £ 1,119.36 | -100.00 |
| CHWE / FEB | £ - | £ 1,815.85 | -100.00 |
| MAW / MAR | £ - | £ 2,947.21 | -100.00 |
| CYFANSWM / TOTAL | £ 42,064.82 | £ 56,445.96 | -25.48 |
| EBR-HYD/ APR-OCT | £ 42,064.82 | £ 44,826.92 | -6.16 |

## Ystadegau Hwb Pen y Pass

**Trosiant/Turnover Yn Unig**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | £0.00 | £44.17 | £11.98 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £17.98 | £452.77 |
| **Chwefror** | £0.00 | £43.64 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £2.99 | £33.97 | £16.99 |
| **Mawrth** | £0.00 | £101.76 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £1,627.08 | £134.95 |
| **Ebrill** | £0.00 | £937.42 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £429.48 | £1,998.12 | £3,536.20 |
| **Mai** | £0.00 | £902.66 | £0.00 | £0.00 | £190.19 | £1,312.68 | £4,400.80 | £5,461.71 |
| **Mehefin** | £0.00 | £379.16 | £0.00 | £0.00 | £18.50 | £2,065.67 | £4,753.58 | £6,650.14 |
| **Gorffennaf** | £0.00 | £1,533.50 | £0.00 | £0.00 | £40.47 | £3,410.45 | £3,414.36 | £8,176.18 |
| **Awst** | £944.38 | £2,257.23 | £0.00 | £519.42 | £0.00 | £4,043.92 | £7,777.99 | £12,192.08 |
| **Medi** | £735.11 | £764.04 | £0.00 | £354.19 | £239.15 | £1,954.60 | £3,007.98 | £6,363.63 |
| **Hydref** | £475.21 | £519.64 | £0.00 | £18.47 | £47.99 | £2,137.99 | £1,815.50 | £5,066.16 |
| **Tachwedd** | £119.79 | £66.64 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £677.36 | £837.59 | |
| **Rhagfyr** | £105.64 | £2.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £405.96 | £354.86 | |
| ***Total*** | **£2,380.13** | **£7,551.86** | **£11.98** | **£892.08** | **£536.30** | **£16,441.10** | **£30,039.81** | **£48,050.81** |

## WEDI SELIO AR FLWYDDYN GALENDER YN HYTRACH NA BLWYDDYN ARIANOL

| Elw ar Werthiannau | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm |
| 2016 | | £8,705.86 | £ 18,362.32 | £30,099.03 |
| 2017 | | £7,998.18 | £ 22,643.70 | £34,699.75 |
| 2018 | | £8,752.51 | £ 25,942.14 | £39,508.29 |
| 2019 | | £9,038.85 | £ 28,235.48 | £45,322.49 |
| 2020 | | £4,530.58 | £ 13,136.96 | £13,630.91 |
| 2021 | | £8,106.29 | £ 31,194.13 | £26,967.40 |
| 2022 | | £9,667.94 | £ 38,047.94 | £40,276.89 |
| 2023 | | £11,946.27 | £ 44,639.12 | £53,558.12 |
| 2024 | | £15,331.29 | £ 50,098.92 | £56,345.95 |
| 2025 | DDIM YN GYFLAWN | £14,562.55 | £ 47,435.37 | £47,947.24 |

| Elw Y Pen | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Avarage | Avarage | Avarage |
| 2016 | | £0.23 | £0.33 | £0.22 |
| 2017 | | £0.26 | £0.36 | £0.27 |
| 2018 | | £0.27 | £0.47 | £0.35 |
| 2019 | | £0.27 | £0.65 | £0.54 |
| 2020 | | £0.53 | £0.70 | £0.63 |
| 2021 | | £0.74 | £0.76 | £0.56 |
| 2022 | | £0.41 | £1.04 | £0.60 |
| 2023 | | £0.52 | £1.09 | £0.92 |
| 2024 | | £0.54 | £1.23 | £0.93 |
| 2025 | DDIM YN GYFLAWN | £0.47 | £1.20 | £0.74 |

| Ymholiadau Ymwelwyr | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm |
| 2016 | | 40197 | 56307 | 134126 |
| 2017 | | 32824 | 56144 | 127258 |
| 2018 | | 34031 | 59634 | 123491 |
| 2019 | | 37493 | 47205 | 84678 |
| 2020 | | 8359 | 16606 | 29266 |
| 2021 | | 9692 | 33032 | 39517 |
| 2022 | | 29822 | 40759 | 74436 |
| 2023 | | 30876 | 44528 | 59348 |
| 2024 | | 31903 | 43251 | 61002 |
| 2025 | DDIM YN GYFLAWN | 30953 | 40771 | 64326 |

| Avarage Spend Per Transaction | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Avarage | Avarage | Avarage |
| 2016 | | £7.59 | £7.34 | £7.12 |
| 2017 | | £7.39 | £8.53 | £8.12 |
| 2018 | | £7.74 | £8.83 | £9.07 |
| 2019 | | £9.18 | £10.11 | £9.60 |
| 2020 | | £10.29 | £12.72 | £12.67 |
| 2021 | | £10.24 | £11.24 | £10.31 |
| 2022 | | £10.02 | £12.16 | £10.78 |
| 2023 | | £11.44 | £12.91 | £11.26 |
| 2024 | | £11.45 | £13.94 | £11.92 |
| 2025 | DDIM YN GYFLAWN | £11.72 | £12.90 | £11.93 |